



**Y ddarpariaeth o ran dewis iaith
yn Sector Cyfiawnder Troseddol
Gogledd Cymru**

Ebrill 2008



**Parc Busnes Aberarad
Castellnewydd Emlyn
Sir Gaerfyrddin
SA38 9DB**

**Ffôn: 01239 711668
post@cwmni-iaith.com
www.iaith.eu**

Awduron:

Kathryn Jones Steve Eaves

Mae'r cwmni a'r awduron yn cadw'r hawl arferol i gael eu cydnabod pan gaiff unrhyw ran o'r adroddiad hwn ei atgynhyrchu gan eraill.

Comisiynwyd gan:

Bwrdd Cyfiawnder Gogledd Cymru

Cynnwys

Tudalen

5	ADRAN 1: Cefndir a chrynodeb
5	Cefndir
5	Cyflwyniad
6	Methodoleg
8	Pwrpas yr adroddiad
8	Ystyriaethau
10	Crynodeb gweithredol
10	Prif ganfyddiadau
12	Argymhellion ar gyfer System Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru
15	ADRAN 2: Adroddiadau ar yr asiantaethau cyfiawnder troseddol unigol yng Ngogledd Cymru
16	Heddlu Gogledd Cymru
26	Heddlu Trafnidiaeth Prydain
29	Gwasanaeth Eryln y Goron
32	Cyfreithwyr amddiffyn
35	Uned Gofal Tystion
38	Gwasanaeth Tystion Gogledd Cymru – Swyddfa Gwynedd a Môn a Swyddfa'r Wyddgrug
45	Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi
49	Barnwriaeth Cymru
52	Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru
55	Y Timau Troseddau Ieuencid yng Ngogledd Cymru
56	TTI Gwynedd a Môn
61	TTI Conwy a Sir Ddinbych
65	TTI Sir y Fflint
69	TTI Wrecsam
73	Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru
77	Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

- 81 Cymdeithas y Cyfreithwyr (Swyddfa Cymru)
- 85 **ADRAN 3:**
Carchardai a sefydliadau diogel: Profiad siaradwyr Cymraeg o Ogledd Cymru
- 85 Sefydliadau ar gyfer troseddwyd ifanc
- 90 Sefydliadau ar gyfer troseddwyd dros ddeunaw oed
- 94 Carchar Ei Mawrhydi Altcourse
- 98 **ADRAN 4:**
Trafodaeth o'r canfyddiadau allweddol a'r argymhellion ar gyfer System Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru
- 98 Trafodaeth o'r canfyddiadau allweddol
- 102 Argymhellion ar gyfer System Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru
- 105 **DIOLCHIADAU**
- ATODIADAU**
- 106 **Atodiad 1:** Datganiad polisi Carchar Ei Mawrhydi Altcourse: Defnydd carcharorion o ieithoedd eraill ar wahân i Saesneg.
- 107 **Atodiad 2:** Protocol Iaith Gymraeg BCTLI Gogledd Cymru

Adran 1: Cefndir a chrynodeb

Cefndir

Cyflwyniad

Sefydlwyd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru (BCTLIGC) yn 2003 ac mae'n tynnu ynghyd prif swyddogion y chwe Asiantaeth Cyfiawnder Troseddol sydd yng Ngogledd Cymru, sef Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Erllyn y Goron, Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, y Gwasanaeth Prawf, y Timau Troseddau Ieuencid a'r Gwasanaeth Carchardai, er mwyn darparu trefn o weithio o fewn y System Cyfiawnder Troseddol, lle ceir cydgysylltu gwell a mwy o gydlynu.

Comisiynwyd yr astudiaeth hon gan Is-bwyllgor Iaith Gymraeg Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (BCTLI) Gogledd Cymru. Yn ôl Datganiad Cenhadaeth yr is-bwyllgor:

“Mae Is-bwyllgor Iaith Gymraeg BCTLI Gogledd Cymru yn cydnabod bod cynnig dewis iaith go iawn yn ddyletswydd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'r dewis hwnnw'n hanfodol i weinyddu cyfiawnder mewn modd effeithiol ac effeithlon yng Nghymru hefyd. Bydd yr is-bwyllgor yn:

- *Sicrhau bod y system gyfiawnder yn nodi'n gywir ddewis iaith pob defnyddiwr gwasanaeth, ac yn sicrhau bod y system yn gweithredu ar sail y dewis hwnnw.*
- *Nodi unrhyw wendidau yn y system sy'n rhwystr i ddarparu gwasanaeth dwyieithog llawn, a cheisio unioni'r gwendidau hynny.*
- *Hyrwyddo ymwybyddiaeth iaith a sensitifrwydd iaith, a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y system gyfiawnder.”*

Dyma amcanion Is-bwyllgor Iaith Gymraeg BCTLI Gogledd Cymru:

- Annog yr asiantaethau cyfiawnder i fabwysiadu dull gweithredu mwy cydgysylltiedig mewn perthynas â hyfforddiant sy'n ymwneud â'r Gymraeg.
- Cydlynu gweithgarwch ieithyddol o fewn yr asiantaethau cyfiawnder.
- Cael yr asiantaethau i rannu arfer da mewn perthynas â gweithgarwch yn ymwneud â'r Gymraeg, yn enwedig ym maes ymwybyddiaeth iaith.
- Annog yr asiantaethau i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn rhan o'u gwaith gweinyddu mewnol.

- Annog yr asiantaethau i fabwysiadu polisi sy'n datgan yn glir y dylai pob aelod newydd o staff feddu ar sgiliau Cymraeg sylfaenol (Lefel 1) cyn i'w swyddi gael eu cadarnhau.
- Sicrhau bod dewis iaith ar gael yn ddi-ffael o fewn y system gyfiawnder.

Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae BCTLIGC a Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn arloesi wrth gynllunio a darparu gwasanaethau Cymraeg mewn modd strategol. O'r holl Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yng Nghymru, Bwrdd Gogledd Cymru yw'r un sydd wedi bod fwyaf rhagweithiol wrth weithredu egwyddorion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Ceir awydd ac ymroddiad amlwg ymysg rheolwyr yr holl asiantaethau cyfiawnder yng Ngogledd Cymru i wella'r modd y mae dewis iaith go iawn yn cael ei gyflwyno wrth weinyddu cyfiawnder i ddinasyddion Gogledd Cymru.

Wrth gwrs, er bod cynnydd sylweddol eisoes wedi'i wneud, cydnabyddir y bydd yn cymryd blynyddoedd lawer i newid gwerthoedd ac arferion sector sydd am ganrifoedd wedi ystyried mai Saesneg yw'r unig iaith sy'n briodol i'w defnyddio yn y system gyfiawnder yng Nghymru. Mae'r ffaith i'r adroddiad hwn gael ei gomisiynu yn gam pwysig arall yn y broses o nodi ffyrdd eraill o wella darpariaeth ddwyieithog pob asiantaeth. Yn fwy arwyddocaol na hynny, mae'r adroddiad yn fodd o nodi ffyrdd o symud ymlaen trwy gael yr holl asiantaethau sy'n gweithredu o fewn system cyfiawnder troseddol Gogledd Cymru i gydweithio ar draws y sector.

Cafodd yr astudiaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn ei chomisiynu'n arbennig i gyflawni'r canlynol:

- a. Nodi pa mor effeithiol y mae asiantaethau cyfiawnder troseddol Gogledd Cymru yn cynnig dewis iaith i ddiffynyddion, dioddefwyr a thystion;
- b. Nodi pa mor effeithiol y caiff gwybodaeth am ddewis iaith ei chofnodi a'i rhannu ag asiantaethau eraill;
- c. Cynnig argymhellion ar gyfer system cyfiawnder troseddol Gogledd Cymru;
- ch. Datblygu methodoleg fel y gellir cynnal ymchwiliad tebyg mewn perthynas â'r broses sifil.

Methodoleg

Fel y cytunwyd â'r asiantaeth a gomisiynodd y gwaith, mae'r astudiaeth hon wedi canolbwyntio ar yr asiantaethau/unigolion canlynol:

- Barnwr Llys y Goron
- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru
- Carchar Ei Mawrhydi Altcourse
- Cyfreithwyr amddiffyn
- Cymdeithas y Cyfreithwyr (Swyddfa Cymru)
- Gwasanaeth Erllyn y Goron
- Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi
- Gwasanaeth Tystion Gogledd Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Heddlu Trafnidiaeth Prydain

- Timau Troseddau Ieuencid (Gwynedd a Môn, Conwy a Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam)
- Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
- Y Gwasanaeth Prawf
- Yr Uned Gofal Tystion

Lluniwyd holiadur er mwyn casglu gwybodaeth fanwl gan bob asiantaeth am:

- a. y fframwaith sy'n bodoli o fewn yr asiantaeth ar gyfer darparu dewis iaith
- b. eu dulliau a'u gweithdrefnau ar gyfer cynnig a chofnodi dewis iaith a rhannu gwybodaeth am ddewis iaith yn fewnol o fewn yr asiantaeth ac yn allanol ag asiantaethau eraill.

Llenwyd yr holiaduron hyn gan yr awduron yn ystod cyfweiliadau a oedd yn para rhwng 40 munud ac awr ac a gynhaliwyd wyneb yn wyneb neu dros y ffôn ag o leiaf un cynrychiolydd o bob asiantaeth. Cynhaliwyd y cyfweiliadau yn Gymraeg neu yn Saesneg yn ôl dewis y sawl a oedd yn cael eu holi.

Archwiliwyd gwefan pob asiantaeth a'r dogfennau a oedd ar gael i'r cyhoedd cyn cynnal y cyfweiliadau. Casglwyd tystiolaeth ddogfennol bellach yn ystod y cyfweiliadau. Roedd y dystiolaeth hon yn cynnwys, ymysg pethau eraill:

- cynlluniau neu bolisiau gwirfoddol/statudol yn ymwneud â'r iaith Gymraeg
- adroddiadau blynyddol, dogfennau strategol, datganiadau cenhadaeth ac ati
- canllawiau staff
- ffurflenni, llythyrau enghreifftiol
- taflenni a deunyddiau cyhoeddusrwydd/gwybodaeth eraill (DVD, llythyrau newyddion).

Lluniwyd rhaglenni cyfweld lled-strwythuredig ar gyfer casglu barn a phrofiadau dioddefwyr/tystion, troseddwyr ifanc a throseddwyr dros ddeunaw oed sy'n siarad Cymraeg. Cynhaliwyd cyfweiliadau â 9 oedolyn a oedd yn treulio cyfnod yn y carchar neu a oedd wedi treulio cyfnod yn y carchar; 2 droseddwr a oedd dan orchymyn prawf; 4 troseddwr ifanc a 3 dioddefwr/tyst. Yn ystod yr ymweliad â Charchar Ei Mawrhydi Altcourse cynhaliwyd cyfweiliadau â phedwar dyn a oedd yn garcharorion yno, sef MO5, MO6, MO7 ac MO8 (o Ynys Môn). Cynhaliwyd cyfweiliadau â phedwar dyn arall hefyd a oedd yn gyn-garcharorion, sef MO1, MO2, MO3 ac MO4 ac un fenyw a oedd yn gyn-garcharor, sef FO1 (o Wynedd). Cynhaliwyd cyfweiliadau â dwy droseddwrraig a oedd dan orchymyn prawf (o Wynedd). O'r pedwar troseddwr ifanc y cynhaliwyd cyfweiliadau â nhw, roedd FYO1, FYO2 ac FYO3 yn fenywod ifanc o Wynedd ac roedd FYO4 yn fenyw ifanc o Sir y Fflint. Yn olaf, o'r tri dioddefwr/tyst y cynhaliwyd cyfweiliadau â nhw, roedd VW1 yn ddyn a menywod oedd VW2 a VW3. Roedd y tri dioddefwr/tyst y cynhaliwyd cyfweiliadau â nhw yn byw yng Ngwynedd.

Cynhaliwyd pob un o'r cyfweiliadau â dioddefwyr, tystion a throseddwyr yn Gymraeg yn ôl dymuniad y sawl a oedd yn cael eu holi. Recordiwyd a thrawsgrifiwyd pob cyfweiliad heblaw am y cyfweiliadau â'r 4 carcharor yng Ngharchar Ei Mawrhydi Altcourse. Cyfeirir at farn a sylwadau'r dioddefwyr, y tystion a'r troseddwyr trwy'r adroddiad.

Pwrpas yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r astudiaeth ac yn ceisio rhoi sylwadau ar sail y cyfweiliadau a'r data dogfennol a gasglwyd wrth yr asiantaethau cyfiawnder troseddol, y dioddefwyr, y tystion, y troseddwr ifanc a'r troseddwr dros ddeunaw oed. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn ceisio:

- gweld i ba raddau y mae dioddefwyr, tystion a throseddwr yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn llawn wrth ymwneud ag asiantaethau'r system cyfiawnder troseddol yng Ngogledd Cymru;
- pwysu a mesur a yw'r gwasanaeth Cymraeg a ddarperir i ddioddefwyr, tystion a throseddwr yn bodloni gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, h.y. y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru;
- cynnig dadansoddiad o'r fframwaith gweithredol sydd mewn grym ym mhob un o'r asiantaethau, a chynnig dadansoddiad o'r dulliau a'r gweithdrefnau y maent yn eu defnyddio i ddarparu dewis iaith go iawn i ddefnyddwyr sy'n siarad Cymraeg;
- cynnig dadansoddiad o'r materion a godwyd gan y dioddefwyr, y tystion, y troseddwr ifanc a'r troseddwr dros ddeunaw oed sy'n siarad Cymraeg ynghylch eu profiad o'r system cyfiawnder troseddol;
- cynnig argymhellion i bob asiantaeth unigol ar gyfer gwella'u harferion presennol;
- defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr astudiaeth hon i ddod i gasgliadau ynghylch y system cyfiawnder troseddol yng Ngogledd Cymru, a chynnig argymhellion ar gyfer gwella a safoni'r arfer gorau mewn perthynas â darparu gwasanaethau Cymraeg ar draws y sector.

Ystyriaethau

Dylid ystyried y casgliadau y mae'r gwaith ymchwil hwn yn dod iddynt yng nghydestun y cyfyngiadau canlynol:

- Diben gwreiddiol yr astudiaeth hon oedd cynnal archwiliad o allu'r asiantaethau cyfiawnder troseddol yng Ngogledd Cymru i gynnig dewis iaith i'w defnyddwyr, h.y. archwiliad a fyddai'n canolbwyntio ar ddarpariaeth yr asiantaethau cyfiawnder troseddol. Yna cafodd yr astudiaeth ei hymestyn i roi mwy o bwyslais ar brofiad y defnyddwyr o'r gwasanaethau a ddarperir gan yr asiantaethau hyn. Fodd bynnag, oherwydd bod y cyfweiliadau â'r dioddefwyr, y tystion, y troseddwr ifanc a'r troseddwr dros ddeunaw oed wedi'u cynnal mewn amser byr ar ddiwedd y prosiect, roedd hi'n amhosibl cael tystiolaeth gan fwy na sampl gyfyngedig o ddefnyddwyr.

- O ganlyniad, ni fwriadwyd i'r sampl o ddiodefwyr, tystion a throeddwy'r a gyfrannodd at yr astudiaeth hon fod yn sampl gynrychiadol o'r diodefwyr, y tystion a'r troeddwy'r sy'n siarad Cymraeg sy'n ymwneud â system cyfiawnder troseddol Gogledd Cymru. Daw nifer fawr o'r rheiny a gyfrannodd at yr astudiaeth hon o Wynedd, ond mae'r duedd hon yn cael ei hadlewyrchu mewn ystadegau ehangach ar y system cyfiawnder troseddol. Dylid ystyried profiadau'r rheiny y cynhaliwyd cyfweiliadau â nhw yn rhan o'r astudiaeth hon yn astudiaethau achos sy'n cyfoethogi'r adroddiad ac yn amlygu rhai materion yn ymwneud â'r ddarpariaeth Gymraeg.
- Cafwyd rhai problemau wrth geisio cynnal pob cyfweiliad o fewn yr amserlen a ganiatawyd ar gyfer yr astudiaeth. O ganlyniad, er gwaethaf holl ymdrechion yr ymgynghorwyr, ni fu'n bosibl cynnal cyfweiliadau â 2 gyfreithiwr amddiffyn, a bu'n rhaid canslo cyfweiliadau ag 1 diodefwr/tyst ac 1 troeddwr a oedd dan orchymyn prawf. Ni fu'n bosibl cynnal cyfweiliadau â defnyddwyr gwasanaeth o Gonwy, Sir Ddinbych na Wrecsam oherwydd nid oedd yr asiantaethau y gofynnwyd iddynt ein cynorthwyo i ddod o hyd i bobl y gallem gynnal cyfweiliadau â nhw yn cadw cofnodion am siaradwyr Cymraeg.
- Mae'r adroddiad hwn yn cydnabod bod elfennau o arfer da yn bodoli ym mhob un o'r asiantaethau cyfiawnder troseddol yng Ngogledd Cymru, a bod rhai asiantaethau yn arbennig o ragweithiol wrth ddatblygu fframwaith a dulliau cadarn i sicrhau bod defnyddwyr yn cael dewis iaith go iawn. Fodd bynnag, diben yr adroddiad hwn yw nodi unrhyw wendidau o fewn y system sy'n rhwystr i ddarparu gwasanaeth dwyieithog llawn. O ganlyniad, rhoddir mwy o bwyslais ar nodi'r gwendidau hyn ac ar gynnig argymhellion ar gyfer unioni'r diffygion.

Crynodeb gweithredol

Prif ganfyddiadau

Cafodd yr astudiaeth hon groeso brwd gan bob un o'r atebwyr y cysylltwyd â nhw yn yr asiantaethau a gymerodd ran yn yr arolwg. Mae'r awduron o'r farn bod yr ymdeimlad o ewyllys da a geir ymhlith y staff at sicrhau darpariaeth o ansawdd trwy gyfrwng y Gymraeg yn adnodd amhrisiadwy y gall yr asiantaethau fanteisio arno a'i fod yn arwydd da y bydd canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad hwn yn cael ystyriaeth briodol.

Yn yr un modd, roedd nifer o'r troseddwr ifanc, y troseddwr dros ddeunaw oed, y cyn-droseddwr, y tystion a'r dioddefwyr y cysylltwyd â nhw yn teimlo bod pwyslais arbennig yr astudiaeth hon ar ddewis iaith yn arwydd cadarnhaol iawn o du'r system cyfiawnder troseddol, bod y modd y caiff defnyddwyr gwasanaeth eu trin o safbwynt dewis iaith yn fater o bwys gwirioneddol i'r asiantaethau.

O fewn y cyd-destun cadarnhaol hwn, rydym yn cyflwyno'r prif ganfyddiadau canlynol:

- Mae'r astudiaeth hon yn dangos bod y dewis a ddarperir o ran gwasanaethau Cymraeg neu Saesneg gan yr asiantaethau ar draws sector Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru'n amrywio ac yn anghyson.
- Lle bo dewis iaith yn cael ei gynnig a lle bo siaradwyr Cymraeg yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg fel eu dewis iaith, mae gallu delio â'r system cyfiawnder troseddol yn Gymraeg yn brofiad llawer gwell sy'n ychwanegu'n sylweddol at ansawdd y gwasanaeth y maent yn ei gael.
- Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a gafwyd gan yr atebwyr sydd wedi cael profiad o System Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru'n awgrymu mai digon prin, ar y cyfan, yw'r adegau lle mae'r asiantaethau'n cynnig dewis iaith a chyfleoedd go iawn i ddefnyddio'r Gymraeg a bod y cyfleoedd hynny'n annigonol, yn anghyson ac yn dibynnu ar fympwy.
- Mae'r dystiolaeth a gafwyd gan garcharorion dros ddeunaw oed a throseddwr ifanc sy'n cael eu cadw mewn sefydliadau diogel yn dangos ei bod hi'n nodweddiadol o'r sefydliadau hynny i gynnig bach iawn o ddewis iaith i siaradwyr Cymraeg neu ddim dewis iaith o gwbl.
- Mae'r cyweiriau iaith a ddefnyddir gan bob asiantaeth yn y sector cyfiawnder ar gyfer cyfathrebu llafar a chyfathrebu ysgrifenedig yn ffactor pwysig wrth bennu a fydd defnyddwyr gwasanaeth yn dymuno defnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu â'r asiantaethau.
- Mae diffyg hyder cyffredinol siaradwyr Cymraeg o ran delio â materion swyddogol trwy gyfrwng y Gymraeg yn ymestyn hefyd i weithwyr proffesiynol a staff eraill sy'n siarad Cymraeg ar draws y sector.

- Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan yr asiantaethau'n dangos bod eu trefniadau ar gyfer cynnig a chofnodi dewis iaith, ymateb iddo a rhannu gwybodaeth amdano yn annigonol ac yn anghyson at ei gilydd ac mewn rhai achosion, nid oes trefniadau o'r fath yn bod.
- Lle bo defnyddwyr gwasanaeth yn penderfynu arfer eu dewis iaith a defnyddio'r Gymraeg, mae hynny'n achosi oedi ac anawsterau yn ddieithriad bron ac, yn aml, mae'n ychwanegu at y straen y maent yn ei brofi.
- Mae'r trefniadau recriwtio a staffio a'r modd y caiff adnoddau sgiliau iaith eu rheoli er mwyn gallu cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr gwasanaeth yn aneffeithiol ac yn aneffeithlon at ei gilydd, ac mae'n ymddangos bod recriwtio, staffio a rheoli sgiliau iaith yn bethau sy'n digwydd yn fypwyol.
- At ei gilydd, mae lefel yr ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a lefel y sensitifrwydd ynghylch pwysigrwydd cynnig dewis iaith yn isel ymhlith staff yr asiantaethau.
- Ar hyn o bryd, mae dealltwriaeth y sector cyfan o'r cysyniad o gynnig dewis iaith wedi'i seilio ar y syniad o "ymateb i'r galw", ac nid yw hynny'n briodol.
- Ar draws y sector roedd yr holl asiantaethau (ar wahân i rai eithriadau prin) yn ystyried mai Saesneg yw'r iaith arferol neu'r norm wrth gyfathrebu â chleientiaid / defnyddwyr gwasanaeth ym mhob sefyllfa.
- Mae asiantaethau o fewn y sector sy'n gweithredu fel unedau lleol a gaiff eu gweinyddu o swyddfa ganolog neu bencadlys sydd wedi'i leoli y tu allan i Gymru yn wynebu anawsterau bob amser wrth geisio sicrhau bod digon o adnoddau a chymorth ar gael i ddarparu gwasanaethau dwyieithog.
- Yn aml, nid yw'r cyhoedd yn gwahaniaethu rhwng y gwahanol asiantaethau cyfiawnder troseddol. Mae'n ddigon posibl bod yr anghydraddoldeb a'r anghysondeb a welir mewn perthynas â darparu dewis iaith yn ymddangos yn ddryslyd ac yn annealladwy i ddefnyddwyr gwasanaeth Gymraeg sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.
- Mae unrhyw aelodau o'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yng Ngogledd Cymru yn debygol o wneud hynny trwy Heddlu Gogledd Cymru yn y lle cyntaf. Mae'n rhesymol felly i aelodau'r cyhoedd gymryd yn ganiataol y bydd ansawdd a safon y gwasanaeth y maent yn ei gael wrth ddelio â Heddlu Gogledd Cymru (o ran cael cynnig dewis iaith a'r hawl i arfer eu dewis iaith) yn cynrychioli'r norm ar gyfer unrhyw ymwneud pellach y maent yn ei gael â'r system yn gyffredinol. Gan ei fod yn ddatganiad polisi ac arfer da arweiniol, mae'n briodol bod Cynllun Iaith Gymraeg Heddlu Gogledd Cymru'n cael ei ystyried yn fodel sylfaenol ar gyfer y sector o safbwynt y safonau i'w cyrraedd wrth ddarparu gwasanaethau Gymraeg.
- Mae'n annhebygol y bydd asiantaethau unigol na'r sector cyfan yn gallu gwneud cynnydd heb gael adnodd iaith ymgynghorol arbenigol, tebyg i'r Ymgynghorydd

laith Gymraeg llawn amser a staff yr adran Gwasanaethau Iaith ategol a gaiff eu cyflogi gan Heddlu Gogledd Cymru.

Argymhellion ar gyfer System Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru

1. Dylai Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru (BCTLIGC) a'i asiantaethau cysylltiedig gymryd y camau dilynol yn rhan o'u dull gweithredu sylfaenol ar gyfer cynnig dewis iaith:

Dylai'r dewis o wasanaeth Gymraeg neu Saesneg neu wasanaeth dwyieithog:

- *Gael ei gynnig yn rhagweithiol i ddefnyddwyr gwasanaeth yn hytrach nag ar gais neu mewn ymateb i alw ymddangosiadol;*
 - *Cael ei gynnig ar gyfer cyswllt llafar a gohebiaeth ysgrifenedig, a dylid gwahaniaethu rhwng y ddau fath o gyswllt;*
 - *Cael ei gynnig yn ystod y cyswllt cyntaf neu cyn gynted ag sy'n bosibl, a dylid cofnodi dewis iaith y defnyddiwr yn ffurfiol a'i rannu'n ffurfiol ag unrhyw asiantaethau fydd yn dod i gysylltiad ag ef/hi wedi hynny.*
2. Er mwyn hybu safonau cyson a gwasanaeth o ansawdd ar draws y sector, dylai pob asiantaeth o fewn y sector fabwysiadu'r safonau gwasanaeth a amlinellir yng Nghynllun Iaith Gymraeg Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer delio â'r cyhoedd yng Nghymru.
 3. Dylai Is-bwyllgor Iaith Gymraeg BCTLIGC fynd i'r afael â chymau gweithredu ac argymhellion yr astudiaeth hon, rhannu arfer da a hybu dull gweithredu cydlynol ar draws y sector mewn perthynas â chofnodi dewis iaith defnyddwyr gwasanaeth, ymateb i'r dewis hwnnw a rhannu gwybodaeth yn ei gylch.
 4. Dylai pob asiantaeth a gynhwysir yn yr astudiaeth hon lunio cynllun gweithredu wedi'i seilio ar y camau gweithredu sy'n berthnasol i'r asiantaeth honno. Dylai pob cynllun gweithredu gynnwys targedau, a dylai pob asiantaeth adrodd i Is-bwyllgor Iaith Gymraeg BCTLIGC ynghylch y cynnydd a wneir.
 5. Dylai Is-bwyllgor Iaith Gymraeg BCTLIGC sefydlu rhwydwaith tebyg i *Rhwydiaith*¹ yn benodol ar gyfer asiantaethau cyfiawnder troseddol yng Ngogledd Cymru ac ar draws Cymru. Byddai rhwydwaith o'r fath yn fodd i asiantaethau o fewn y sector cyfiawnder troseddol gynorthwyo'i gilydd trwy ddod ynghyd i drafod materion strategol sy'n ymwneud â gweithredu cynlluniau iaith a hybu dwyieithrwydd o fewn y system cyfiawnder troseddol.

¹ Mae *Rhwydiaith* yn rhwydwaith a sefydlwyd er mwyn galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru a chyrrff eraill o fewn y sector cyhoeddus i gynorthwyo'i gilydd trwy ddod ynghyd i drafod materion strategol sy'n ymwneud â gweithredu Cynlluniau Iaith, gan gynnwys hybu a rhannu arfer da mewn perthynas â dwyieithrwydd o fewn llywodraeth leol yng Nghymru.

6. Dylai BCTLIGC alw am sefydlu carchardai a sefydliadau diogel yng Nghymru ar gyfer troseddwr ifanc a throseddwr dros ddeunaw oed o Ogledd Cymru. Dylai unrhyw gyfleusterau o'r fath weithredu Cynlluniau Iaith.
7. Hyd nes y caiff carchardai a sefydliadau diogel sy'n gweithredu Cynlluniau Iaith eu sefydlu yng Nghymru, dylai BCTLIGC bwysu ar bob carchar a sefydliad diogel sy'n derbyn troseddwr ifanc a throseddwr dros ddeunaw oed o Ogledd Cymru i fabwysiadu datganiad polisi mewn perthynas â'r iaith Gymraeg neu brotocol arfer da sy'n debyg i'r datganiad polisi a fabwysiadwyd gan Garchar Ei Mawrhydi Altcourse ar *Ddefnydd carcharorion o ieithoedd eraill ar wahân i Saesneg* (atgynhyrchwyd yn Atodiad 1).
8. Dylai BCTLIGC gydweithio â'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol eraill, Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau perthnasol eraill yng Nghymru gyda'r bwriad o alw am i strwythurau ac asiantaethau ym maes cyfiawnder troseddol gael eu datganoli i raddau mwy er mwyn sicrhau gwasanaethau mwy effeithlon ac effeithiol, atebolrwydd lleol a chyllideb briodol ar gyfer y gwaith o ddarparu gwasanaeth dwyieithog.
9. Dylai'r holl asiantaethau sy'n rhan o BCTLIGC glustnodi cyllidebau penodol ar gyfer darparu gwasanaethau Cymraeg yn rhan o'u trefniadau cynllunio ariannol strategol yn hytrach na pharhau â'r trefniadau ad hoc presennol.
10. Dylai BCTLIGC ddechrau prosiect i fynd i'r afael â'r angen i ddatblygu cyweiriau iaith priodol ar gyfer cyfathrebu â siaradwyr Cymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig. Dylid rhoi blaenoriaeth yn y lle cyntaf i ystyried y Gymraeg llafar ac ysgrifenedig a ddefnyddir mewn dalfeydd, yn y llysoedd ac wrth ymdrin â defnyddwyr gwasanaeth bregus.
11. Dylai BCTLIGC a phob asiantaeth unigol a gynhwysir yn yr astudiaeth hon fynd ati'n weithredol i ddatblygu llwybrau ym maes hyfforddiant galwedigaethol a datblygiad proffesiynol. Dylai'r llwybrau hyn gynnwys hyfforddiant digonol sy'n briodol o safbwynt diwylliannol, a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, dylid darparu hyfforddiant ar ddefnyddio cyweiriau iaith priodol (ar lafar ac yn ysgrifenedig) sy'n hawdd eu deall wrth ddelio â defnyddwyr gwasanaeth/mewn sefyllfaoedd lle ceir cyswllt â'r cyhoedd.
12. Dylai BCTLIGC ddatblygu dull gweithredu strategol mewn perthynas â datblygu a chyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff ar draws y sector yn rhan hanfodol o'u hyfforddiant a'u datblygiad proffesiynol.
13. Dylai BCTLIGC bwysu ar Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gynhyrchu ei eirfa hirddisgwyliedig ar gyfer y sector cyfiawnder a'i dosbarthu cyn gynted ag sy'n bosibl fel y gellir symud ymlaen â'r amcanion hynny yn yr argymhellion hyn sy'n ymwneud â hyfforddiant a datblygiad staff.
14. Dylai BCTLIGC fynd ati'n weithredol i:

- Hybu dealltwriaeth ar draws y sector nad yw'n briodol bellach i asiantaethau drin y Saesneg fel yr iaith arferol a'r norm ar gyfer cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth ac y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal;
- Hybu'r syniad y dylai pob asiantaeth fabwysiadu datganiad polisi i'r perwyl hwn, gan normaleiddio dull gweithredu lle caiff gwasanaethau eu cyflwyno'n ddwyieithog trwy gynnig dewis iaith a gweithredu ar hynny.

15. Dylai BCTLIGC a phob asiantaeth unigol a gynhwysir yn yr astudiaeth hon fynd ati'n weithredol i roi sylw a chyhoeddusrwydd i'r ffaith y gall unigolion ddewis cael cyswllt llafar ac ysgrifenedig yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog.

16. Dylai BCTLIGC fynd ati'n weithredol i annog yr asiantaethau a gynhwysir yn yr astudiaeth hon i ddatblygu a gweithredu Strategaethau Sgiliau Dwyieithog er mwyn meithrin dull strategol, sydd wedi'i gynllunio, o recriwtio, datblygu a rheoli adnoddau sgiliau iaith yn effeithiol gyda'r nod o ddarparu dewis iaith i ddefnyddwyr gwasanaeth.

17. Dylai BCTLIGC a phob asiantaeth unigol a gynhwysir yn yr astudiaeth hon bwysu am gael digon o staff sy'n gallu darparu gwasanaeth ymgynghorol mewn perthynas â'r Gymraeg er mwyn symud yr agenda iaith ac argymhellion yr adroddiad hwn yn eu blaen yn effeithiol o fewn sefydliadau unigol ac mewn modd cydlynol ar draws y sector cyfan.

Adran 2: Adroddiadau ar yr asiantaethau cyfiawnder troseddol unigol yng Ngogledd Cymru

Yn yr adran hon rydym yn cyflwyno ein canfyddiadau ar bob un o'r asiantaethau cyfiawnder troseddol yr ymchwiliwyd iddynt at ddiben yr adroddiad. Mae'r testun ar gyfer pob asiantaeth yn cynnwys:

- Amlinelliad bras o broffil y sefydliad a disgrifiad byr ohono yn seiliedig ar y wybodaeth a'r ymatebion a gafwyd
- Crynodeb, ar ffurf tabl, o'r ymatebion a gafwyd yn y cyfweiliadau i gwestiynau ar agweddau penodol ar ddarparu dewis iaith i ddefnyddwyr gwasanaeth
- Cyfres o gamau gweithredu a gaiff eu hargymell ar gyfer pob asiantaeth.

Mewn sawl man yn yr adran hon, ceir blychau testun sy'n cynnwys dyfyniadau o'r cyfweiliadau a gynhaliwyd â defnyddwyr gwasanaeth ac o ffynonellau eraill, ac mae'r rhain yn cyfoethogi neu'n egluro rhai o'r pwyntiau sy'n codi yn y testun.

Heddlu Gogledd Cymru

Mae Heddlu Gogledd Cymru (HGC) yn gyfrifol am blismona ardal sy'n cynnwys dros 675,563 o breswylwyr a 280,329 o gartrefi. Mae HGC yn cyflogi dros 1,590 o blismyn ac oddeutu 992 o staff cymorth sifil. At hynny, mae gan HGC 160 o blismyn gwirfoddol, 85 o wirfoddolwyr sifil a 161 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Rhennir ardal HGC yn 3 Uned Reoli Sylfaenol, a lleolir y Pencadlys ym Mae Colwyn. Mae pob Uned Reoli Sylfaenol yn cyd-ffinio i raddau helaeth ag ardal sy'n cwmpasu dau Gyngor Unedol:

- Mae'r rhanbarth dwyreiniol yn cynnwys Wrecsam a Sir y Fflint, gyda phoblogaeth o 281,067
- Mae'r rhanbarth canolog yn cynnwys Conwy a Sir Ddinbych, gyda phoblogaeth o 207,362
- Mae'r rhanbarth gorllewinol yn cynnwys Gwynedd ac Ynys Môn, gyda phoblogaeth o 187,134.

Mae'r ardal y mae HGC yn gyfrifol amdani yn cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf Cymraeg yng Nghymru gyfan. Er hynny, mae proffil y siaradwyr Cymraeg trwy'r chwe sir y mae HGC yn ymdrin â nhw yn amrywio cryn dipyn, fel y gwelir yn Nhabl A.

Rhanbarthau Rheoli Sylfaenol Heddlu Gogledd Cymru	Siroedd	Nifer	Canran
Rhanbarth dwyreiniol	Sir y Fflint	20,599	14.4
	Wrecsam	18,105	14.6
Rhanbarth canolog	Sir Ddinbych	23,760	26.4
	Conwy	31,298	29.4
Rhanbarth gorllewinol	Ynys Môn	38,893	60.1
	Gwynedd	77,846	69.0

Mae'n anochel bod yr amrywiadau daearyddol hyn yn nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg ar draws Gogledd Cymru yn cynnig her arbennig i HGC ac asiantaethau eraill sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol o safbwynt cyflwyno gwasanaeth dwyieithog o ansawdd i bob siaradwr Cymraeg.

Yn ôl ei ddisgrifiad ei hun, mae gan Heddlu Gogledd Cymru Gynllun Iaith Gymraeg arloesol. Mewn datganiad ar y wefan mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, rhydd HGC gryn bwys ar ystyriaethau ieithyddol wrth gyfathrebu â'r cyhoedd:

“Ein polisi ni yw cynnal ein busnes gyda'r cyhoedd yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn unol â dymuniad yr unigolyn, cyn belled â'i bod yn ymarferol bosibl i ni wneud hynny. Nod hyn yw datblygu, gwella a gwireddu'r egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg.”

I ddyfynnu o adroddiad adolygiad annibynnol, “Mae'r agenda ddwyieithrwydd wedi bod yn cael ei chymell o'r top ac wedi ei derbyn yn eang, ac mae'r sefydliad o

ganlyniad wedi symud yn ei flaen.”² Wrth adolygu arweiniad ac ymwneud uwch-reolwyr â materion yn ymwneud â'r Gymraeg ymysg y 4 Heddlu yng Nghymru, nodwyd mai “dim ond yn HGC y cafodd yr adolygiad dystiolaeth fod dwyieithrwydd yn cael ei arwain a'i gydlynu'n weithredol dros gyfnod estynedig.” At hynny, yn ôl y rhan fwyaf o'r dangosyddion eraill a ystyriwyd yn yr adroddiad darganfu'r adolygiad bod HGC yn arwain y ffordd i Heddluoedd eraill Cymru yn y modd y mae'n symud ei agenda iaith yn ei blaen.

Cynnig dewis iaith: ar lefel gyfundrefnol a pholisi

Mae ein trafodaethau yn yr adran hon yn seiliedig ar ein cyfweiliadau â swyddog allweddol ym maes polisi iaith ac un o reolwyr gwasanaethau'r ddalfa.

Ar lefel gyfundrefnol a pholisi, mae HGC ymhlith y sefydliadau mwyaf blaengar o safbwynt mabwysiadu polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer gwella'r modd y mae'n cyflwyno gwasanaeth dwyieithog, fel y gwelir o'r wybodaeth a ddarparwyd gan HGC yn nhabl 1 a 2 isod.

Ymddengys bod rhai o'r elfennau sy'n llesteirio'r broses o gynig a chofnodi dewis iaith a rhannu gwybodaeth amdano yn deillio o'r ffaith bod gwasanaethau plismona yn wasanaethau sydd wedi'u canoli yn hanesyddol. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer rhybuddio, arestio a holi aelodau o'r cyhoedd a'r gweithdrefnau ar gyfer delio â phobl wrth y desgiau gwasanaeth ac mewn dalfeydd wedi'u seilio ar drefniadau a dogfennau a luniwyd yn ganolog y tu allan i Gymru ac a ddilynir gan bob Awdurdod Heddlu. Mae gwendidau wedi cael eu nodi yn y modd mae'r system gyfrifiadurol RMS (sef system a ddefnyddir i gofnodi a rheoli gwybodaeth) wedi'i chyflunio ar hyn o bryd. Mae sgriniau'r defnyddwyr yn ymddangos yn Saesneg yn unig ac nid yw hynny'n hwyluso'r agweddau hynny ar Gynllun Iaith HGC sy'n ymwneud â darparu dewis iaith. Mae problemau'n dal i godi wrth sicrhau bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn barod i gydweithio i hwyluso'r gwaith o fabwysiadu a gweithredu'r arferion gorau ym maes dwyieithrwydd yn unol â Strategaeth y Prif Swyddogion, a hwyluso'r gwaith o gynhyrchu mewnbwn ac allbwn dwyieithog.

Gwendid arall o fewn HGC yw ansicrwydd ymysg y staff a'r swyddogion ynghylch i ba raddau y mae eu partneriaid ar draws y sector cyfiawnder troseddol yn gallu gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon i brosesu dewis iaith dioddefwyr, tystion a diffynyddion, a gallu'r partneriaid hynny i arddel yr arferion gorau ym maes dwyieithrwydd ac ymdopi â'r arferion hynny.

Fodd bynnag, mae tystiolaeth arall hefyd yn dangos nad yw gweithdrefnau HGC ar gyfer cynnig dewis iaith a chyfleu gwybodaeth am ddewis iaith i asiantaethau eraill yn ddigon cadarn. Er enghraifft, ymddengys bod rhai o ranbarthau'r heddlu'n dal i ddefnyddio hen fersiwn (fersiwn 2005) y Ffurflen Ddatganiad (*MG11, Rev.3/04*) i gymryd datganiadau gan dystion (nad yw'n cynnwys cwestiwn sy'n cynnig dewis iaith), yn hytrach na'r fersiwn newydd (fersiwn 2007) sy'n cynnwys cwestiwn o'r fath. Dywedodd y Barnwr Llys y Goron a'r cyfreithiwr amddiffyn y cynhaliwyd cyfweiliadau â nhw ar gyfer yr astudiaeth hon eu bod nhw, gyda'u profiad helaeth, yn siŵr nad

² DAFIS, Rhys : 'Y defnydd o'r iaith Gymraeg gan Heddluoedd yng Nghymru [adroddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1995 (<http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk/publications>)] . Cyflwynwyd i gyfarfod Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'w drafod ym mis Ebrill 2006.

yw'n rhan o'r drefn arferol i'r heddlu gynnig dewis iaith i'r rheiny sy'n dod gerbron y llysoedd yng Ngogledd Cymru. Cawsom dystiolaeth debyg gan y troseddwr ifanc a'r troseddwr dros ddeunaw oed y cynhaliwyd cyfweiliadau â nhw.

Tabl 1: Gwybodaeth a ddarparwyd gan atebydd a oedd yn cynrychioli Heddlu Gogledd Cymru	
Yr agweddau a archwiliwyd	Crynodeb o'r ymateb a gafwyd i'r cyfweiliad/cyfweiliadau
Natur yr ymrwymadau statudol/gwirfoddol i gynnig dewis iaith	Cynllun iaith, sy'n cynnwys Strategaeth iaith Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu. Mae'r Strategaeth yn datgan <i>'rydym yn anelu at fod yn sefydliad dwyieithog'</i> ac yn ymrwymo i gynnig <i>'dewis iaith sicr yn y dalfeydd ac yn yr ystafell reoli'</i> . Cynllun gweithredu (yn deillio o'r Cynllun iaith)
Canllawiau gweithredu	<ul style="list-style-type: none"> o Canllawiau i staff a swyddogion ar sut i ddelio â rhywun yn y ddalfa. o Mae'n bolisi bod yn rhaid i'r staff sydd wrth y cownter feddu ar sgiliau dwyieithog a chynnig dewis iaith. o Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi'n glir bod yn rhaid darparu dewis iaith.
Staff sy'n siarad Cymraeg/sy'n dysgu Cymraeg	Mae HGC yn annog ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg a dysgwyr. Mae'r polisi'n datgan bod yn rhaid i bawb sy'n ymuno â'r heddlu ar ôl 1.1.08 feddu ar sgiliau lefel 2 yn y Gymraeg o leiaf, a bod yn rhaid iddynt gyflawni lefel 3 o fewn 9 mis. Mae HGC yn darparu CDs a chysiau hyfforddiant iaith i staff er mwyn eu cynorthwyo i gyrraedd y gofynion ieithyddol hyn. Mae gofyn i staff presennol sy'n ceisio cael dyrchafiad ac nad ydynt yn siarad Cymraeg yn barod ddangos bod ganddynt sgiliau ar lefel 2. Mae 25%+ (o staff a swyddogion) yn gallu siarad Cymraeg ar lefel 4 ac uwch (mis Medi 2006).
Sesiynau hyfforddi/briffio	Mae pob swyddog newydd a benodwyd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith. Mae gwaith ar y gweill i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ar y sgrîn. Ceir rhaglen helaeth o hyfforddiant iaith ar gyfer pob lefel. Cynigir unrhyw leoedd gwag ar y rhaglenni hyn i bartneriaid eraill sy'n gweithio ym maes cyfiawnder.
Gwasanaeth cyfieithu	Ceir Uned Gyfieithu yn y Pencadlys, sy'n darparu gwasanaeth cyfieithu testun i holl adrannau a Rhanbarthau'r Heddlu, a gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r di-Gymraeg mewn cyfarfodydd lle siaredir Cymraeg.

<p>Cyllideb ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog</p>	<p>Yn ddiweddar, mae HGC wedi sefydlu adran Gwasanaethau Iaith ac mae wedi neilltuo cyllideb ar gyfer staffio'r uned ac ar gyfer hyfforddiant iaith. Ar hyn o bryd mae'r adran yn cynnwys 4 cyfieithydd, gweinyddwr, ymgynghorydd iaith a swyddog sy'n hyrwyddo materion iaith.</p>
<p>Natur y cyswllt cyntaf</p>	<p>Dioddefwyr a thystion – cyfweliad neu sgwrs wyneb yn wyneb ar y stryd, yn y cartref, ar y safle neu wrth y cownter. Sgwrs dros y ffôn.</p> <p>Diffynnyddion – y sefyllfaoedd uchod, yn ogystal â sgwrs wyneb yn wyneb mewn ystafell holi neu mewn cell yn y ddalfa.</p>
<p>A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt llafar (e.e. ffôn, wyneb yn wyneb, cyfarfodydd)?</p>	<p>Dioddefwyr a thystion – wrth y cownter, y polisi yw bod yn rhaid i staff feddu ar yr hyfedredd angenrheidiol i gynnig dewis iaith i'r cyhoedd ac ymateb i'r dewis hwnnw. Mewn sefyllfaoedd mwy <i>ad hoc</i>, e.e. ar y stryd, nid oes digon o staff cymwys sy'n siarad Cymraeg yn hyderus ar gael i warantu hyn ar hyn o bryd. Mae gallu'r sefydliad mewn sefyllfaoedd o'r fath yn dibynnu ar allu'r unigolyn.</p> <p>Diffynnyddion - mae'n bolisi i gynnig dewis iaith. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu capasiti a dulliau gweithredu yn y ddalfa er mwyn gallu cynnig dewis. Ceir ymrwymiad i gynnig dewis iaith ar gyfer cael rhybudd ffurfiol. Mae ymchwiliad ar y gweill i'r system PACE, a'r angen am statws priodol ar gyfer y ddau rybudd a'r codau ymarfer cysylltiedig. (Ar hyn o bryd mae HGC yn defnyddio ei gyfieithiadau ei hun o'r rhybuddion hyn).</p>
<p>A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt ysgrifenedig?</p>	<p>Dioddefwyr a thystion – mae'n bolisi i gynnig dewis iaith ar gyfer cyswllt ysgrifenedig, gan wneud hynny wrth gymryd tystiolaeth.</p> <p>Diffynnyddion – cyflwynir deunyddiau ysgrifenedig yn y ddwy iaith. Yna, unwaith y mae dewis iaith yr unigolyn wedi'i nodi, dylai gweddill y cyfathrebu ddigwydd yn yr iaith honno.</p>
<p>A gofnodir dewis iaith? Sut?</p>	<p>Dioddefwyr a thystion – Mae HGC i fod i gynnig dewis iaith ym mhob achos.</p> <p>Diffynnyddion – mae pob cofnod i fod yn newis iaith y diffynnydd.</p>
<p>A yw'r cofnod o ddewis iaith ar gyfer cyswllt dilynol yn cael ei rannu ag eraill o fewn yr asiantaeth?</p>	<p>Mae'n bolisi i rannu gwybodaeth am ddewis iaith. Nid oedd yr atebydd yn gwybod i ba raddau y mae hynny'n digwydd, nac a yw'r dogfennau a ddefnyddir ar hyn o bryd yn hwyluso hynny.</p>

<p>A yw'r cofnod o ddewis iaith yn cael ei rannu ag asiantaethau eraill? Sut?</p>	<p>Dioddefwyr / tystion / diffynyddion: mae Cynllun Iaith Heddlu Gogledd Cymru'n datgan y dylai cofnod o'u dewis iaith gael ei drosglwyddo i unrhyw bartneriaid perthnasol yn y sector cyfiawnder. Nid oedd yr atebwydd yn gwybod i ba raddau y mae hynny'n digwydd, nac a yw'r dogfennau a ddefnyddir ar hyn o bryd yn hwyluso hynny.</p>
---	---

Tabl 2: Gwybodaeth a ddarparwyd gan atebwydd a oedd yn cynrychioli Dalfeydd Heddlu Gogledd Cymru – rhanbarth gorllewinol

Yr agweddau a archwiliwyd	Crynodeb o'r ymateb a gafwyd i'r cyfweiliad/cyfweiliadau
Natur yr ymrwymadau statudol/gwirfoddol i gynnig dewis iaith	Cynllun Iaith sy'n ymrwymo i gynnig ' <i>dewis iaith sicr yn y dalfeydd ac yn yr ystafell reoli</i> '.
Canllawiau gweithredu	<ul style="list-style-type: none"> ○ Ceir digon o wybodaeth ar y fewnwyd. ○ Ceir dewislenni ar y system feddalwedd RMS sy'n arwain y swyddog trwy'r broses o dderbyn rhywun i'r ddalfa ○ Mae'n bolisi bod yn rhaid i'r staff sydd wrth y cownter feddu ar sgiliau dwyieithog a chynnig dewis iaith.
Staff sy'n siarad Cymraeg/sy'n dysgu Cymraeg	<p><u>Caernarfon:</u> Mae 4 o'r 6 rhingyll yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mae'r 2 arall yn dysgu. Mae 2 o'r 3 aelod o staff sifil yn rhugl, ac mae 1 yn dysgu.</p> <p><u>Caerdybi:</u> Mae 3 o'r 5 rhingyll yn ddwyieithog ac mae'r lleill yn dysgu neu'n deall rhywfaint. Mae'r 2 aelod o staff sifil yn rhugl.</p> <p><u>Dolgellau:</u> Nid oes swyddogion llawn amser yn gweithio yn y ddalfa, ond mae 7 o'r 10 swyddog y gellir galw arnynt i weithio yno yn rhugl.</p> <p><u>Pwllheli:</u> Nid oes swyddogion llawn amser yn gweithio yn y ddalfa, ond mae oddeutu 80% o'r swyddogion y gellir galw arnynt i weithio yno yn rhugl.</p> <p>(<i>Chwefror 08</i>)</p>
Sesiynau hyfforddi/briffio	Dim hyfforddiant/sesiynau briffio penodol ar ddewis iaith, ond mae'r swyddogion yn ymwybodol o'r gofynion oherwydd y wybodaeth sydd ar y fewnwyd.
Gwasanaeth cyfieithu	Ar gael o'r Pencadlys, trwy e-bost.
Cyllideb ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog	Nid oes cyllideb o'r fath ar gael yn benodol ar gyfer y ddalfa, ond caiff adnoddau eu neilltuo i gefnogi dwyieithrwydd o fewn y llu yn gyffredinol.

Natur y cyswllt cyntaf	Mae plismon yn arestio unigolyn ac yn ei ddwyn i'r ddalfa gan drosglwyddo'r wybodaeth i'r rhingyll. Wedyn, mae'r rhingyll a'r swyddog sifil yn y ddalfa'n cymryd manylion y person wrth y ddesg, a hynny gan ddefnyddio meddalwedd RMS.
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt llafar (e.e. ffôn, wyneb yn wyneb, cyfarfodydd)?	Mae hyn yn digwydd yn naturiol yng Ngwynedd ac Ynys Môn, heb 'gynnig' yn ffurfiol. Fel rheol, os yw'r plismon sy'n arestio yn gallu siarad Cymraeg mae'n gwneud hynny. Dim cynnig ffurfiol. Nid yw nyrs y ddalfa na'r sawl sy'n gweini bwyd yno yn cynnig dewis iaith. Ym mhrofiad yr atebydd a'i gyd-swyddogion, ychydig iawn o garcharorion sy'n dymuno cael eu cyfweld yn Gymraeg.
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt ysgrifenedig?	Mae meddalwedd RMS yn gofyn i'r swyddog gofnodi a yw'r sawl sy'n cael ei dderbyn i'r ddalfa'n dymuno cael ei gyfweld yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae hyn yn ffordd o atgoffa'r swyddog i gofnodi'r dewis hwnnw (ond weithiau ni chaiff y blwch ei lenwi).
A gofnodir dewis iaith? Sut?	Fel y nodir uchod. Ar wahân i hynny ni cheir cofnod penodol oni bai bod y person yn gofyn i'w achos gael ei gynnal trwy gyfrwng y Gymraeg. Y drefn arferol yw 'ymateb i'r galw'.
A yw'r cofnod o ddewis iaith ar gyfer cyswllt dilynol yn cael ei rannu ag eraill o fewn yr asiantaeth?	Na, os nad yw'r swyddog sy'n delio â'r achos yn cofnodi'r dewis yn y ffeil (ac nid oes rheidrwydd i wneud hynny) cyn trosglwyddo'r wybodaeth i'r Gwasanaeth Eryl.
A yw'r cofnod o ddewis iaith yn cael ei rannu ag asiantaethau eraill? Sut?	Na, ac eithrio fel y nodir uchod. Nid yw'n rhan o'r drefn arferol.

Cynnig dewis iaith: profiad defnyddwyr

Cynhaliwyd cyfweiliadau â chyfanswm o 18 o ddiodefwyr, tystion, troseddwyr ifanc a throseddwyr dros ddeunaw oed sy'n siarad Cymraeg ac roedd pob un ohonynt yn byw yng Ngwynedd ac Ynys Môn, heblaw am un troseddwr ifanc a oedd yn byw yn Sir y Fflint.³ Roedd eu profiadau o ddelio â Heddlu Gogledd Cymru'n gymysg ac yn anghyson o safbwynt cael cynnig dewis i ddefnyddio'r Gymraeg.

³ Ni chynhaliwyd cyfweiliadau â throseddwyr o Gonwy, Sir Ddinbych a Wrecsam oherwydd nid oedd unrhyw droseddwr o'r ardaloedd hyn ar gael i'w gyfweld yng Ngharchar Ei Mawrhydi, Altcourse ar ddiwrnod ein hymweliad â'r carchar. Nid yw Tîm Troseddau Ieuentid Conwy a Sir Ddinbych yn cadw cofnod o iaith gyntaf troseddwyr ifanc na'u dewis iaith ac felly nid oedd yn gallu adnabod troseddwyr Cymraeg y gallem gyfweld â nhw.

Mae Strategaeth Iaith Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yn datgan y bydd “dewis iaith sicr yn y dalfeydd ac yn yr ystafell reoli”⁴. Mae'r dystiolaeth a gasglwyd mewn perthynas â chyswllt â'r ystafell reoli'n awgrymu bod dewis iaith yn cael ei warantu bron bob amser i'r rheiny sy'n cysylltu ag ystafell reoli'r heddlu yn Llanelwy.

“Pan oedden ni'n ffonio'r llinell heddlu yn Gymraeg oedden nhw'n gwneud hynny. Rhan amlaf 'da ni'n cael person Cymraeg yn ateb, er pan nes i [ffonio] wythnos dwytha, yn Saesneg ddaru o ateb, a dyma fo'n dweud, “Dwi wedi ateb y llinell i safio i chi orfod aros i gael y llinell Gymraeg”. (VW2)

O'i gyferbynnu â hyn, yn ôl y troseddwr y cynhaliwyd cyfweiliadau â nhw, ni ellir gwarantu o gwbl y bydd pobl sy'n cael eu dwyn i'r ddalfa yn cael dewis iaith, hyd yn oed yng Nghaernarfon - y dref lle ceir y nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn ardal HGC.

O blith y 15 o bobl a oedd wedi cael eu harestio cafodd oddeutu hanner ohonynt gynnig dewis iaith pan gawsant eu **harestio**. Yn aml, roedd y rheiny a oedd wedi cael eu harestio sawl gwaith yn dweud eu bod wedi cael dewis iaith ar rai adegau ond heb gael dewis ar adegau eraill. Mae'n ymddangos bod y patrwm hwn yn tueddu i adlewyrchu a oeddent wedi cael eu harestio gan blismon a oedd yn siarad Cymraeg ai peidio.

Fodd bynnag, wrth gyfeirio at **dderbynfa'r ddalfa** lle cofnodir manylion yr unigolyn ar system gyfrifiadurol RMS, roedd chwech o'r saith troseddwr y cynhaliwyd cyfweiliadau â nhw ac a gafodd eu dwyn i'r ddalfa yng Nghaernarfon yn dweud bod y broses o gofnodi eu manylion wedi cael ei chynnal yn Saesneg. Byddem wedi disgwyl i fwy ohonynt ddweud eu bod wedi cael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyswllt hwn gan fod nifer eithaf uchel o'r staff yn y ddalfa yng Nghaernarfon yn rhugl yn y Gymraeg (mae 4 o'r 6 rhingyll a 2 o'r 3 aelod o staff sifil yn rhugl yn y Gymraeg ac mae pob rhingyll ac aelod o staff nad ydynt yn rhugl yn dysgu Cymraeg). Mae'r ffaith mai Saesneg yw iaith sgriniau'r meddalwedd RMS (a gynhyrwyd yng Nghanada) yn debygol o ddylanwadu ar y duedd a gaiff ei hawgrymu yn ein data, sef nad yw unigolion yn cael cynnig dewis i fynd drwy'r broses o gofnodi gwybodaeth yn Gymraeg. Er bod y system yn cynnwys cwestiwn ar y sgrin sy'n gofyn am gofnod o iaith yr unigolyn nid oes rhaid llenwi'r blwch hwn ac fe'n hysbyswyd bod y swyddog yn gadael y cwestiwn hwn yn wag yn aml. O gael eu hwynebu â sgriniau a dewislenni uniaith Saesneg i'w defnyddio mewn sefyllfa ffurfiol yn y ddalfa, mae'n annhebygol y bydd swyddogion y ddalfa sy'n siarad Cymraeg yn mynd ati'n rhagweithiol i gynnig defnyddio'r Gymraeg wrth gofnodi manylion unigolyn (yn enwedig os ydynt yn anghyfarwydd â defnyddio Cymraeg ffurfiol neu'n teimlo'n ddihyder ynghylch gwneud hynny). Yn wir, byddai'n rhaid cael sgiliau cyfieithu ar y pryd i wneud hynny. Rydym yn deall bod modd i sgriniau'r system RMS ymddangos mewn mwy nag un iaith, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd gyda heddluoedd yng Nghanada sy'n defnyddio RMS lle mae modd gweld sgriniau Saesneg neu Ffrangeg. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd y byddai angen adnoddau sylweddol i ailgyflunio'r

⁴ Cynllun Iaith Gymraeg Diwygiedig Heddlu Gogledd Cymru 2006, tud.3.

system er mwyn sicrhau bod modd defnyddio sgriniau Cymraeg neu Saesneg, a byddai angen mynd i'r afael â goblygiadau hynny ar y lefel uchaf o fewn HGC.

Ym mhrofiad y troseddwr y buom yn siarad â nhw, nid yw pob unigolyn yn cael y cynnig i gael ei **gyfweld** yn Gymraeg yn gyson. Dywedodd 5 troseddwr na chawsant y dewis hwn. Dywedodd pob un o'r 5 troseddwr hyn y byddai'n well ganddynt pe byddent wedi cael eu cyfweld yn Gymraeg a phe byddent wedi rhoi eu datganiadau'n Gymraeg.

Dywedodd yr unig droseddwraig ifanc o Sir y Fflint y buom yn cyfweld â hi nad oedd hi wedi cael unrhyw gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r heddlu pan ddaethant i'r tŷ i'w harestio, wrth y ddesg yn y ddalfa, pan gafodd ei chyfweld a phan roddodd ei datganiad.

“O'n i'n cael fy interviewio gan yr un rhai wnaeth arestio fi. Ond o'dd hi'n gwybod bod fi'n Gymraeg oherwydd o'n i'n siarad hefo mam fi yn fan hyn yn Gymraeg a wedyn o'dd hi'n siarad Saesneg achos doedd hi'm yn dallt Gymraeg. Ond os oedd hi'n gwybod bo fi'n Gymraeg dyle bod hi wedi rhoi'r opsiwn i fi gael y Gymraeg rili.”
(YFO4)

Dywedodd y tair troseddwraig ifanc a holwyd a oedd yn byw yn ardal Caernarfon nad oedd yr heddlu wedi rhoi'r dewis iddynt ddefnyddio'r Gymraeg pan aethant i mewn i'r ddalfa.

FYO2: “Nath o [plismon] ddod i tŷ ni a wedyn nath o neud date i ni wedyn fynd lawr i'r lle heddlu.”

FYO1: “A wedyn pan aethon ni fana, gaethon ni ddim choice 'nam byd o Gymraeg a Saesneg – o'dd bob dim jyst yn Saesneg... Oedd o'n gofyn cwestiynau idda fi yn Saesneg so o'n i'n gorfod atab yn Saesneg neu sa fo'm yn dallt be o'n i'n ddweud. [O'dd hyn] yn police station Caernarfon.

FYO1: “Saesneg oedd o [y cyfweiliadau] i gyd. Oedd o'n rude hefo fi yn y dechrau. Oedd o'n rude hefo fi eniwe so dwi'm yn meddwl y baswn i'n cal y choice.”

FYO2: “Ond gaethon ni ddim dewis. Aethon ni i'r lle heddlu tri gwaith a gaethon ni ddim dewis. Gaethon ni ddim dewis at all ia. So da ni isho mwy o Gymraeg.”

FYO1: “Yn yr interview ia sw'n i di licio siarad interview fi yn Gymraeg.

FYO2: “O a fi fyd.”

FYO1: “Achos o'n i'n sw'nio'n absolutely stiwpid ar y tâp.”

FYO2: “Dwi'n sw'nio'n goman pan dwi'n siarad Saesneg. “Ia, Ia!””

FYO1: “Ia baswn i di licio gwneud interview fi yn Gymraeg.”

FYO2: “Sw'nio'n stiwpid yn siarad Saesneg fel'na.”

FYO1: “A fi fyd.”

Mewn achosion lle rhoddwyd dewis iaith i'r unigolyn, dywedodd un nad oedd gwahaniaeth ganddo pa iaith i'w defnyddio, ac fe gafodd ei gyfweld yn Saesneg. Dywedodd dau garcharor arall eu bod wedi dewis defnyddio'r Saesneg oherwydd eu bod bob amser yn ofni na fyddent yn deall "Cymraeg posh" mewn sefyllfa oedd tebyg i hyn.

Roedd y tri **dioddefwr/tyst** (a oedd yn byw yng Ngwynedd) wedi rhoi eu tystiolaeth yn Gymraeg i blismyn a oedd yn siarad Cymraeg. Roedd plismyn a oedd yn siarad Cymraeg wedi cynnig cyfle i'r tri ohonynt roi eu **datganiadau**'n Gymraeg. Dywedodd y ddau ddioddefwr/tyst a oedd wedi dewis rhoi eu datganiadau'n Gymraeg y bu oedi mawr yn eu hachos o ganlyniad i hyn, wrth i'r datganiadau gael eu cyfieithu i'r Saesneg ar gyfer y rhingyll di-Gymraeg a oedd yn delio a'u hachos.

"Pan ddaru ni wneud ein statements 'oedden ni'n cael gwneud nhw i gyd yn Gymraeg. O'dd y Sarjant yn Port ddim yn deall Cymraeg. O'dd rhaid cael eu cyfieithu nhw i'r Saesneg iddo fo. So mi ddaliodd hynny bethau'n ôl a dwi'm yn meddwl mod i'n dweud celwydd wrth ddweud tua 6-7 wythnos." (V/W2)

"Hefo'r heddlu, o'n i'n siarad fwyaf yn Gymraeg, ond y ffaith ein bod ni wedi gorfod gweithio yr amser yna, mi ddaliodd hynny bethau'n ôl 7 wythnos cyn iddo fo fynd i'r CPS am nad oedd y Sarjant yn Porthmadog yn medru Cymraeg ... Mi ddaru ni gyd gyfarfod hefo'r Sarjant yn Porthmadog a mi ymddiheurodd nad oedd o'n medru Cymraeg." (V/W2)

Mae profiad yr unigolion y cynhaliwyd cyfweiliadau â nhw'n awgrymu bod y gallu ar gael yn gyffredinol i bob agwedd ar ymwneud unigolyn â'r heddlu ddigwydd yn Gymraeg. Fodd bynnag, mae rhai pobl yn cael mwy o gyfle nag eraill i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'r heddlu. Mae hyn yn dibynnu'n rhannol ar ble maent yn byw, a cheir llawer mwy o gyfle oedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng Ngwynedd ac Ynys Môn gan fod cyfran uwch o'r plismyn a'r staff sifil sy'n gweithio yno yn siarad Cymraeg. Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth dwyieithog yn fwy cyson, mae'n amlwg bod angen i HGC barhau i roi blaenoriaeth i wella gallu ei blismyn a'i staff i ddefnyddio'r Gymraeg, a hynny trwy recriwtio, rheoli'r modd y caiff gwasanaethau eu staffio a darparu hyfforddiant iaith.

Dywedwyd bod gwaith yn cael ei wneud yn y dalfeydd ar hyn o bryd i ddatblygu gallu a dulliau gweithio a fyddai'n galluogi'r dalfeydd i gynnig dewis iaith. Mae'r data o'r astudiaeth hon yn cadarnhau bod angen gwneud y gwaith hwn er mwyn gwella'r cyfle oedd y mae unigolion yn eu cael i ddefnyddio'r Gymraeg.

Camau gweithredu ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru

- Dylid adolygu a diwygio'r system PACE er mwyn sicrhau bod modd defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn y gweithdrefnau, y dogfennau, y codau ymarfer a'r arferion gwaith sy'n deillio o'r system.
- Dylid adolygu a diwygio pob system a ddefnyddir i gynnig a chofnodi dewis iaith a rhannu gwybodaeth am ddewis iaith yn fewnol ac â phartneriaid, er

mwyn sicrhau ymateb priodol a dilyniant priodol yn yr iaith honno. Mae hyn yn cynnwys:

- ailystyried pa mor ymarferol fyddai ailgyflunio rhaglenni RMS er mwyn caniatáu i ddefnyddwyr weld sgriniau Cymraeg neu Saesneg;
 - rhoi rhybudd ar y system RMS bresennol i atgoffa'r swyddog sy'n agor y meddalwedd wrth dderbyn rhywun i'r ddalfa, i gynnig a chofnodi dewis iaith ar gyfer (i) cyswllt llafar a (ii) cyswllt ysgrifenedig wrth ddechrau cofnodi manylion;
 - sicrhau bod yn rhaid cofnodi'r manylion uchod ar system RMS cyn y gellir defnyddio gweddill y rhaglen;
 - diwygio'r gyfres gyfan o ffurflenni *MG 1 – 18*, er mwyn sicrhau eu bod yn cynnig, yn cofnodi ac yn trosglwyddo gwybodaeth am ddewis iaith yn effeithiol.
- Dylid trefnu hyfforddiant galwedigaethol penodol ar bwysigrwydd cynnig a chofnodi dewis iaith a rhannu gwybodaeth amdano wrth arestio person a'i gadw yn y ddalfa. Dylid cynnig hyfforddiant o'r fath trwy gyfrwng y Gymraeg a dylai gynnwys cyfarwyddyd ar ddefnyddio cyweiriau iaith priodol sy'n hawdd eu defnyddio wrth ddelio â defnyddwyr gwasanaeth / aelodau'r cyhoedd ar lafar ac yn ysgrifenedig.
 - Dylai Heddlu Gogledd Cymru barhau i roi blaenoriaeth i wella gallu ei blismyn a'i staff i ddefnyddio'r Gymraeg, a hynny trwy recriwtio, rheoli'r modd y caiff gwasanaethau eu staffio a darparu hyfforddiant iaith.

Heddlu Trafnidiaeth Prydain

Mae Heddlu Trafnidiaeth Prydain (HTP) yn plismona rheilffyrdd Prydain. Lleolir Pencadlys HTP yn Llundain, a chaiff ei rannu'n 7 ardal diriogaethol. Mae Gogledd Cymru'n rhan o Ardal Cymru a'r Gorllewin, sy'n cynnwys Cymru gyfan, Gorllewin Canolbarth Lloegr a De-orllewin Lloegr.

Cynnig dewis iaith

Ar hyn o bryd, gwasanaeth cyfyngedig y mae HTP yn gallu ei ddarparu yn Gymraeg i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru. Dywedwyd "nad oes galw mawr i ddefnyddio'r Gymraeg", a bod HTP yng Ngogledd Cymru'n gallu delio ag unrhyw gais penodol i ddefnyddio'r Gymraeg fel rheol, a'i fod yn "cwrdd â'r galw presennol, ond mae angen gwneud llawer mwy o waith i fod yn fwy rhagweithiol". Yn ystod yr astudiaeth hon daeth y pwyntiau canlynol i'r amlwg: mae gan staff HTP agwedd gadarnhaol at yr iaith Gymraeg; ceir cefnogaeth i ymdrechion Heddlu Gogledd Cymru i gynnig gwasanaeth heddlu dwyieithog; ceir cydnabyddiaeth bod sawl gwendid i'w cael yng ngallu HTP i ddarparu gwasanaeth dwyieithog go iawn ar hyn o bryd, yn enwedig o safbwynt staffio; a cheir ymrwymiad i gymryd camau i wella'r sefyllfa bresennol. Mae HTP'n gweithio'n agos â lluoedd heddlu eraill yng Nghymru ar hyn o bryd i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r Gymraeg.

Mae Cynllun Iaith Gymraeg statudol HTP wedi bod mewn grym ers mis Gorffennaf 1998 ac mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae hafan gwefan HTP yn rhoi opsiwn clir i ddefnyddwyr ddewis gweld y tudalennau a'r testunau yn Gymraeg neu'n Saesneg. Fodd bynnag, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd yr adrannau Gymraeg yn 'cael eu diweddarau ar hyn o bryd' ac maent wedi bod yn cael eu diweddarau ers o leiaf fis Hydref 2007. Mae nifer o ddogfennau ar gael yn Gymraeg ar y wefan, sef: Cynllun Iaith Gymraeg HTP, Llythyr newyddion dwyieithog ar gyfer Cymru (Haf 2005), a chopi Gymraeg o Gynllun Plismona Cymru a'r Ardal Orllewinol 2006 - 2007 a Chynllun Strategol 2003 - 2006.

Er bod y fersiwn Gymraeg cyfredol o Gynllun Iaith Gymraeg HTP yn nodi ei statws statudol, nid yw'r fersiwn Saesneg yn nodi hynny. Mae'r ffaith nad oes sôn am statws statudol y cynllun yn y man hwn yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith nad oes cyfeiriad at yr iaith Gymraeg yn nogfennau cynllunio strategol a dogfennau polisi HTP. Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn datgan bod y cynllun yn "rhan o amcanion Cynllun Strategol a Chynllun Plismona y Llu" (td 2). Fodd bynnag, nid yw'r un o'r Cynlluniau Strategol, y Cynlluniau Plismona na'r Adroddiadau Blynyddol yn dangos unrhyw ymrwymiad i'r iaith Gymraeg nac unrhyw ymrwymiad i gynnig dewis iaith i ddefnyddwyr gwasanaeth. Ceir diffyg ymwybyddiaeth a/neu ymrwymiad clir ymysg y rheiny sy'n gyfrifol am osod a monitro amcanion strategol HTP mewn perthynas â'r honiad yn ei Gynllun Iaith ei fod yn "ymroi i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth weithredu ei fusnes cyhoeddus o ddydd i ddydd" (td 2).

Prif wendid HTP yw'r ffaith nad yw'n cyflogi digon o staff sy'n siarad Gymraeg. Dim ond 1 Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu sy'n siarad Gymraeg yn rhugl. Mae HTP yn mynd i'r afael â'r mater hwn trwy gynnal hyfforddiant iaith i staff mewn

cydweithrediad â Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r rhingyll ac un Swyddog Cymorth Cymunedol wedi cael hyfforddiant iaith a bwriedir sicrhau bod pob swyddog ac aelod o staff yng Nghymru'n cael hyfforddiant sylfaenol yn y Gymraeg maes o law. Mae ymdrechion HTP i recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg yn anos oherwydd bod y gwaith o recriwtio pobl i swyddi yng Nghymru'n cael ei reoli o Bencadlys gweinyddol Ardal Cymru a'r Gorllewin yn Birmingham.

Nid oes gan staff HTP unrhyw weithdrefnau penodol mewn grym i sicrhau bod camau rhagweithiol yn cael eu cymryd i gynnig dewis iaith, cofnodi dewis iaith a rhannu'r wybodaeth ag asiantaethau eraill er mwyn iddyn nhw ei defnyddio.

Camau gweithredu ar gyfer Heddlu Trafnidiaeth Prydain

- Dylai'r fersiwn Saesneg o Gynllun Iaith Gymraeg HTP grybwyll ei statws statudol a dylid cydnabod statws statudol y cynllun yng Nghynllun Strategol a Chynllun Plismona HTP.
- Dylai HTP gynnwys yr iaith Gymraeg yn ei Gynllun Cydraddoldeb Cyfun, fel y mae sefydliadau eraill y sector cyhoeddus yn ei wneud ar hyn o bryd.
- Dylid darparu rhaglen dreigl a pharhaus o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i bob aelod o staff sy'n gweithio yng Nghymru.
- Dylid cymryd camau i ffurfioli'r weithdrefn ar gyfer mynd ati'n rhagweithiol i gynnig dewis iaith i ddefnyddwyr, cofnodi'r dewis a wnaed a rhannu'r wybodaeth yn fewnol ac yn ffurfiol â phartneriaid, er mwyn sicrhau ymateb priodol a dilyniant priodol yn yr iaith honno.
- Dylai HTP godi proffil y Gymraeg fel sgil allweddol i swyddogion a staff sifil yn rhan o'r broses recriwtio a sefydlu.
- Dylai HTP gynyddu gallu ei dîm i gyfathrebu â dioddefwyr, tystion a throseddwyr yn rhagweithiol ac yn rhugl yn Gymraeg.

Tabl 3: Gwybodaeth a ddarparwyd gan atebwyr a oedd yn cynrychioli Heddlu Trafnidiaeth Prydain	
Yr agweddau a archwiliwyd	Crynodeb o'r ymateb a gafwyd i'r cyfweiliad/cyfweiliadau
Natur yr ymrwymadau statudol/gwirfoddol i gynnig dewis iaith	Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg statudol Heddlu Trafnidiaeth Prydain gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Gorffennaf 1998 ac mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Nid yw fersiwn Saesneg y cynllun yn nodi mai cynllun statudol a baratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ydyw.
Canllawiau gweithredu	Cyhoeddwyd llyfryn ar gyfer staff a chafodd ei ddefnyddio i godi ymwybyddiaeth staff, ond mae angen diweddarau'r llyfryn yn ôl y sawl y cynhaliwyd cyfweiliad â nhw.
Staff sy'n siarad Cymraeg/sy'n dysgu Cymraeg	Mae'r staff sydd gan HTP yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd fel a ganlyn: Arolygydd, Rhingyll, 8 Swyddog Heddlu, 3 Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, 1 Cydlynnydd Partneriaeth ac 1 Swyddog Cymorth i'r

	Heddlu. O'r rhain, mae 1 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn siarad Cymraeg yn rhugl.
Sesiynau hyfforddi/briffio	Mae'r Rhingyll a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi cael hyfforddiant iaith gan Heddlu Gogledd Cymru a byddant yn mynd ymlaen i ddilyn cwrs uwch. Ers y cyfweiliad mae HTP wedi cynhyrchu CD 'cwrteisi ieithyddol' tebyg i un HGC er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yng Nghymru'n cael hyfforddiant sylfaenol.
Gwasanaeth cyfieithu	Defnyddir cyfieithwyr/cyfieithwyr ar y pryd allanol yn ôl yr angen.
Cyllideb ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog	Dim.
Natur y cyswllt cyntaf	Galwadau ffôn gan ddiodefwyr neu aelodau'r cyhoedd yn adrodd am ddigwyddiad. Fel rheol, caiff y rhain eu cyfeirio i'r Ystafell Reoli yn Birmingham sydd ar gael 24 awr y dydd. Weithiau, mae galwadau'n mynd i orsaf reilffordd leol. Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yw'r man cyswllt cyntaf ar gyfer y cyhoedd - mae diodefwyr, tystion a throseddwyr yn siarad â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn yr orsaf reilffordd neu'r man lle bu'r digwyddiad.
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt llafar (e.e. ffôn, wyneb yn wyneb, cyfarfodydd)?	Ni chynigir dewis iaith gan y gwasanaeth 24 awr o ystafell reoli BT yn Birmingham, lle cafodd ymholiadau a wnaed yn Gymraeg yr ymatebion canlynol: "I'm sorry?", "I can't understand what you're saying", "We're not Welsh-speaking here", "there are plans for us to learn Welsh but it hasn't happened yet". Fodd bynnag, ffoniodd y gweithiwr yn y dderbynfa yn ôl o fewn rhai munudau i awgrymu y gellid darparu rhif ffôn un o'r swyddfeydd yng Nghymru lle byddai swyddog ar gael i siarad Cymraeg.
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt ysgrifenedig?	Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn datgan bod y llun yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg a bod llythyrau Cymraeg a Saesneg yn cael eu hateb o fewn yr un amser.
A gofnodir dewis iaith? Sut?	Nid oes unrhyw brosesau ffurfiol mewn grym.
A yw'r cofnod o ddewis iaith ar gyfer cyswllt dilynol yn cael ei rannu ag eraill o fewn yr asiantaeth?	Nid oes unrhyw brosesau ffurfiol mewn grym - mae'n digwydd os yw'r aelod unigol o staff yn dewis gwneud hynny.
A yw'r cofnod o ddewis iaith yn cael ei rannu ag asiantaethau eraill? Sut?	Rhennir gwybodaeth â'r Llysoedd a Heddlu Gogledd Cymru, ond nid oes unrhyw brosesau ffurfiol mewn grym ar gyfer cofnodi a rhannu gwybodaeth am ddewis iaith.

Gwasanaeth Erlyn y Goron

Gwasanaeth Erlyn y Goron yw Adran y Llywodraeth sy'n gyfrifol am ddwyn achosion troseddol a ymchwilir gan yr Heddlu yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am: (i) gynghori'r heddlu ynghylch yr achosion y gellir eu dwyn; (ii) adolygu achosion a gyflwynir gan yr heddlu; (iii) lle gwneir penderfyniad i erlyn, pennu pa gyhuddiad y dylid ei ddefnyddio ymhob achos heblaw am fân achosion; (iv) paratoi achosion ar gyfer y llys; a (v) cyflwyno achosion yn y llys.

Cynnig dewis iaith

- Yn ôl y wybodaeth a gawsom adeg y cyfweiliad ym mis Hydref 2007, mae gallu dioddefwyr, diffynyddion a thystion i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â Gwasanaeth Erlyn y Goron (GEG) yn debygol o amrywio o ardal i ardal, gydag unigolion yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn cael gwell cyfle i gael gwasanaeth yn y Gymraeg nag unigolion yng Nghonwy a Dinbych neu Wrecsam a Sir y Fflint. Fel y gwelir ym mhrofiad un o'r troseddwy'r y gwnaethom gynnal cyfweiliad ag ef (gweler astudiaeth achos Derfel), ni chafodd siaradwr Cymraeg (a fyddai wedi dewis defnyddio'r Gymraeg yn hytrach na'r Saesneg) gynnig dewis iaith yn unrhyw un o'i 7 achos llys.
- Mae system electronig o reoli achosion yn cynnig modd effeithiol o gofnodi ac amlygu dewis iaith. Yn ogystal, mae'n fodd o ddwyn ynghyd yr holl ddogfennau sy'n berthnasol i achos llys ac, yn y pen draw, blethu gyda systemau asiantaethau eraill.
- Yn ôl yr atebydd y cynhaliwyd cyfweiliad ag ef, mae angen cryn fuddsoddiad yn ganolog i sicrhau bod yr holl ddogfennau sy'n ymwneud ag achos llys ar gael yn ddwyieithog er mwyn sicrhau bod dewis iaith cyflawn ar gael ar gyfer pob achos.
- Mae'r Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron yn nodi'r egwyddorion sylfaenol y dylai Erlynwyr y Goron eu dilyn wrth ddod i benderfyniad ar achosion. Byddai'n briodol pwysleisio hawl dioddefwyr, diffynyddion a thystion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn achosion llys a'r egwyddorion ar gyfer hwyluso a chefnogi'r hawl honno.
- Mae Cynllun Iaith Gymraeg Diwygiedig Gwasanaeth Erlyn y Goron, a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ym mis Mawrth 2008, yn cynnwys sawl diwygiad sy'n tynnu sylw at ymrwymiad GEG i ddatblygu arfer da mewn perthynas â nodi, cofnodi a hwyluso dewis iaith defnyddwyr a rhannu gwybodaeth am y dewis hwnnw. Mae'r diwygiadau hyn yn cynnwys y canlynol:
 - "Byddwn yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gallu derbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg gan unrhyw rai o'n swyddfeydd yng Nghymru. Bydd staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw. Yn unol â'r egwyddorion yn ein polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cyflwyno gwasanaeth o ansawdd cyfatebol uchel yn Gymraeg a Saesneg, a bydd yn datgan hyn yn ei Gynllun Busnes". (Adran 4.2)

- Ymrwymo i weithredu Strategaeth Sgiliau Iaith a fydd yn (i) cynnal arolwg o anghenion iaith ym mhob un o swyddfeydd y Gwasanaeth yng Nghymru, (ii) cynnal arolwg o sgiliau Cymraeg presennol y staff ym mhob swyddfa yng Nghymru, a (iii) sefydlu strategaeth sgiliau i fodloni unrhyw anghenion sgiliau a nodir trwy'r arolygon a gynhelir yn (i) a (ii). (Adran 8.2)
- “Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn nodi dewis iaith y defnyddwyr cyn gynted â phosibl, sef pan fydd cyfreithiwr sy'n cyhuddo ar ran y Gwasanaeth yn rhoi cyngor i'r heddlu ynghylch cyhuddiad. Os na fydd dewis iaith yn amlwg bydd cyfreithiwr y Gwasanaeth yn annog yr heddlu i ofyn cyn cyhuddo. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid cyfiawnder troseddol i sicrhau bod proses gadarn ac effeithlon ar gael i drosglwyddo manylion dewis iaith.” (Adran 5.2)
- Mae llawlyfr byr sy'n esbonio dewis iaith wedi'i gynhyrchu i'w ddefnyddio gan yr Uned Gofal Tystion.

Camau gweithredu ar gyfer Gwasanaeth Erlyn y Goron

Mae Cynllun Iaith Diwygiedig Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cynnwys sawl nodwedd o arfer da ac os caiff y rhain eu gweithredu'n effeithiol, dylent wella darpariaeth iaith bresennol GEG yn sylweddol, ar gyfer paratoi dioddefwyr a thystion ar gyfer y llys ac ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn achosion llys.

- Dylai GEG sicrhau bod ganddo'r adnoddau y mae eu hangen arno er mwyn gweithredu ei Gynllun Iaith yn effeithiol;
- O ystyried y Cynllun Iaith Gymraeg Diwygiedig a gafodd ei gymeradwyo'n ddiweddar, dylai GEG adolygu pob agwedd ar ei weithdrefnau sy'n ymwneud â dewis iaith;
- Dylai GEG roi blaenoriaeth benodol i weithredu'r Strategaeth Sgiliau Iaith a ddisgrifir yn y Cynllun Iaith Diwygiedig;
- Dylai GEG gydweithio ag aelodau eraill o Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru i rannu a datblygu'r arfer da sy'n rhan o'r Cynllun Iaith diwygiedig a gafodd ei fabwysiadu'n ddiweddar.

Tabl 4: Gwybodaeth a ddarparwyd gan yr atebydd a oedd yn cynrychioli Gwasanaeth Erlyn y Goron (mis Hydref 2007)	
Yr agweddau a archwiliwyd	Crynodeb o'r ymateb a gafwyd i'r cyfweiliad/cyfweiliadau
Natur yr ymrwymadau statudol/gwirfoddol i gynnig dewis iaith	Mae polisi iaith diwygiedig yn cael ei ddatblygu.
Canllawiau gweithredu	Bwriedir paratoi canllawiau i gyd-fynd â lansio'r polisi iaith diwygiedig.

Staff sy'n siarad Cymraeg/sy'n dysgu Cymraeg	Erlynwyr – mae 50% (17 o 34) yn siarad Cymraeg ac mae 3 yn dysgu Cymraeg. Staff gweinyddol – mae 26% yn siarad Cymraeg ac mae 7% yn dysgu.
Sesiynau hyfforddi/briffio	Cynhelir sesiynau gloywi iaith.
Gwasanaeth cyfieithu	Darperir gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig a gwasanaeth cyfieithu ar y pryd gan gwmnïau allanol yn ôl y gofyn.
Cyllideb ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog	Dim cyllid penodol.
Natur y cyswllt cyntaf	Cyswllt ysgrifenedig a geir yn bennaf â diffynnyddion.
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt llafar (e.e. ffôn, wyneb yn wyneb, cyfarfodydd)?	Yn ôl yr ateblydd, cynigir dewis iaith, ond adeg y cyfweliad nid oedd unrhyw aelod o staff yn y swyddfa a fyddai'n gallu delio ag ymholiadau gan dystion sy'n siarad Cymraeg. [Ers y cyfweliad mae nifer amhenodol o siaradwyr Cymraeg wedi cael eu hychwanegu at y timoedd staff yn Wrecsam a Bae Colwyn.] Cynigir trosglwyddo'r alwad ffôn neu drefnu bod siaradwr Cymraeg yn ffonio'n ôl, ond gan amlaf mae'r unigolyn yn fodlon parhau â'r sgwrs yn Saesneg. Cynigir dewis iaith mewn cyfarfodydd â dioddefwyr.
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt ysgrifenedig?	Cynigir dewis iaith. Mae'r llythyr cyntaf a anfonir yn ddwyieithog a rhoddir cyfle i'r diffynnydd nodi ei ddewis iaith ar gyfer unrhyw gyswllt ysgrifenedig sy'n dilyn.
A gofnodir dewis iaith? Sut?	Cofnodir dewis iaith ar dudalen flaen ffeil bapur a thynnir sylw at y dewis mewn ffeiliau electronig.
A yw'r cofnod o ddewis iaith ar gyfer cyswllt dilynol yn cael ei rannu ag eraill o fewn yr asiantaeth?	Caiff y cofnod ei rannu ag eraill. Tynnir sylw at y dewis iaith ar system fewnol yr asiantaeth ar gyfer rheoli achosion.
A yw'r cofnod o ddewis iaith yn cael ei rannu ag asiantaethau eraill? Sut?	Mewn achosion lle caiff achos ei symud allan o'r ardal, caiff y cofnod gwreiddiol o ddewis iaith ei drosglwyddo gyda gweddill y wybodaeth. Rhennir gwybodaeth am ddewis iaith gyda'r llysoedd - mae hyn yn digwydd yn y gwrandawriad cyn y treial. Mae Swyddogion y Llys sy'n gyfrifol am symud achos yn ei flaen a GEG yn trafod dewis iaith wrth baratoi'r achos hefyd.

Cyfreithwyr amddiffyn

Cynhaliwyd cyfweiliad ag un Cyfreithiwr Amddiffyn (DS1) er mwyn cael gwybodaeth uniongyrchol am unrhyw fframwaith gweithredu a allai fod yn berthnasol i'r modd y mae cyfreithwyr amddiffyn yn delio â chleientiaid sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn achosion sy'n cael eu dwyn gerbron llysoedd Gogledd Cymru. Mae DS1 yn siaradwr Cymraeg a gaiff ei gyflogi gan gwmni o gyfreithwyr dwyieithog, ac roedd yn amlwg o'i ymateb bod y cwmni'n sensitif i agweddau dwyieithog ar y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Cynnig dewis iaith

Wrth ystyried pa mor ddigonol yw'r trefniadau presennol ar gyfer cynnig dewis iaith a gweithredu arno yn gyffredinol, dywedodd DS1 nad oes unrhyw orfodaeth ar gyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran y rhai sy'n cael eu cadw yn y system cyfiawnder troseddol i gynnig dewis iaith nac ymateb yn gadarnhaol i wybodaeth am ddewis iaith na rhannu'r wybodaeth honno ag asiantaethau eraill sy'n rhan o'r system. Ymddengys felly, o'r ymateb hwn, nad yw'r adrannau hynny yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol sy'n ymwneud â dewis iaith mewn perthynas ag achosion Cymorth Cyfreithiol wedi cael eu cyfleu'n ddigonol i'r proffesiwn. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth bresennol yn dibynnu llawer ar yr arferion a'r polisiau mewnol y mae cwmnïau cyfreithwyr yn eu mabwysiadu o'u gwirfodd.

Dywedodd yr atebydd ei fod yn teimlo bod ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â dwyieithrwydd wedi gwella'n sylweddol dros y 5 mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, er bod ymwybyddiaeth pobl wedi gwella nid oedd yn teimlo bod hynny wedi arwain at unrhyw welliant sylweddol yn y modd y caiff dewis iaith ei gynnig, ei gofnodi a'i drosglwyddo'n ffurfiol o un asiantaeth i'r llall. Teimlai bod diffyg dilyniant a diffyg gweithredu cydgysylltiedig mewn perthynas â chofnodi dewis iaith yn effeithiol a rhannu unrhyw wybodaeth am ddewis iaith sy'n cael ei chofnodi gan asiantaethau unigol o fewn y sector. Yn ei farn ef, caiff gwybodaeth o'r fath ei 'cholli' neu ei hesgeuluso rhywsut, a theimlai y gellir mynd i'r afael â'r broblem hon trwy farcio neu dagio ffeiliau cleientiaid i ddangos eu dewis iaith - trwy ddefnyddio côd lliw neu ddulliau tagio electronig efallai.

Ceir rhagdybiaeth gynhenid o fewn y sector mai Saesneg fydd iaith unrhyw gyfathrebu. Mae hyn yn arbennig o wir pan nad yw'r barnwyr a'r erlynwyr yn siarad Cymraeg. Mewn amgylchiadau o'r fath, a hyd yn oed mewn amgylchiadau lle mae personél allweddol y llys yn siarad Cymraeg, mae'n anochel y bydd defnyddio'r Gymraeg yn achosi oedi. O brofiad y cwmni o Lysoedd Ynadon, mae'r rhain yn fwy sensitif i'r mater o ddewis iaith ac yn gallu ymateb yn well i'r mater gan fod mwy o ynadon, clercod a swyddogion y llys yn ddwyieithog yn y llysoedd hynny o'u cymharu â nifer y barnwyr ac erlynwyr dwyieithog a geir yn y llysoedd uwch.

Camau gweithredu ar gyfer cyfreithwyr amddiffyn

- Dylai cyfreithwyr sy'n gwneud gwaith gyda chleientiaid yng Nghymru, y telir amdano ag arian cyhoeddus, gael hyfforddiant, sesiynau briffio ac arweiniad priodol ar yr agweddau hynny ar Gynllun Iaith y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol sy'n ymwneud â chynnig dewis iaith, cofnodi dewis iaith cleientiaid a rhannu gwybodaeth am y dewis hwnnw ag eraill.
- Dylai Canolfan Alwadau'r Cyfreithwyr Amddiffyn gadarnhau a chofnodi dewis iaith cleientiaid yn ffurfiol a chynnwys y wybodaeth hon yn y manylion safonol a roddir i gyfreithwyr yn ystod y broses o ddyrannu achosion.
- Dylai Canolfan Alwadau'r Cyfreithwyr Amddiffyn sicrhau bod achosion Cymraeg neu ddwyieithog yn cael eu rhoi i gyfreithwyr sy'n meddu ar sgiliau iaith priodol.
- Dylai'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddfa Cymru Cymdeithas y Cyfreithwyr gydweithio â'i gilydd er mwyn ceisio adnabod yr angen am fathau eraill o hyfforddiant arbenigol/hyfforddiant iaith i gyfreithwyr a mynd ati i ddarparu hyfforddiant o'r fath.
- Dylai'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddfa Cymru Cymdeithas y Cyfreithwyr gydweithio â'i gilydd gyda'r bwriad o lunio egwyddorion arfer da a chanllawiau ynghylch dewis iaith, a'u dosbarthu i gyfreithwyr yng Nghymru. Dylai trafodaethau o'r fath gynnwys ystyried marcio neu dagio ffeiliau cleientiaid i ddangos eu dewis iaith ar gyfer cyfathrebu'n llafar ac yn ysgrifenedig.

Tabl 5: Gwybodaeth a ddarparwyd gan y Cyfreithiwr Amddiffyn

Yr agweddau a archwiliwyd	Crynodeb o'r ymateb a gafwyd i'r cyfweiliad/cyfweiliadau
Natur yr ymrwymadau statudol/gwirfoddol i gynnig dewis iaith	Mae'r cwmni wedi mabwysiadu polisi ar ddwyieithrwydd o'i wirfodd- h.y. polisi i gynnig dewis iaith i gleientiaid. Ni cheir polisi statudol sy'n berthnasol i'r gwaith a wneir.
Canllawiau gweithredu	Ceir canllawiau gweithredu yn rhan o lawlyfr y swyddfa. Ceir cwestiwn 'dewis iaith' ar y ffurflen a ddefnyddir gyda chleientiaid sy'n defnyddio'r gwasanaeth am y tro cyntaf.
Staff sy'n siarad Cymraeg/sy'n dysgu Cymraeg	Ceir cyfanswm o 10 aelod o staff, ac mae pob un yn ddwyieithog. O'r rheiny, mae 7 yn gyfreithwyr dwyieithog.
Sesiynau hyfforddi/briffio	Ni ddarperir hyfforddiant na sesiynau briffio mewn perthynas ag agweddau dwyieithog ar ymwneud â'r cyhoedd.
Gwasanaeth cyfieithu	Mae staff y cwmni'n cyfieithu'n fewnol.
Cyllideb ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog	Dim cyllideb benodol.
Natur y cyswllt cyntaf	Cael eu galw i swyddfa'r heddlu yw'r cyswllt cyntaf â phobl sy'n cael eu cadw yn y ddalfa. Ers 14.1.08 daw'r galwadau hyn o Ganolfan Alwadau'r Cyfreithwyr Amddiffyn a sefydlwyd i fonitro pob achos a dyrannu

	achosion i gyfreithwyr.
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt llafar (e.e. ffôn, wyneb yn wyneb, cyfarfodydd)?	Nid yw'r alwad gan y Ganolfan Alwadau'n rhoi unrhyw arwydd o ddewis iaith y cleient - yr unig wybodaeth a geir yw ei enw, ei rif cadwraeth ac amlinelliad o'r honiad(au) yn ei erbyn. Yna mae'r cyfreithwyr yn cysylltu â'r heddlu i drefnu cyfarfod â'r cleient. Yn y cyfarfod mae cyfreithwyr y cwmni'n cynnig dewis iaith i'r cleient - yn Saesneg: e.e. 'Would you like to speak Welsh?'
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt ysgrifenedig?	Cynigir dewis iaith. Y polisi o fewn y cwmni yw bod y cyfreithiwr yn gofyn i'r cleient a fyddai'n dymuno i'r heddlu gyfweid ag ef yn Gymraeg. Mae'n anochel bod unrhyw geisiadau o'r fath i gael cyfweid yn Gymraeg yn golygu y bydd oedi yn y broses o gael cyfweid gan yr heddlu, ac mae rhai unigolion sy'n siarad Cymraeg yn dewis cael cyfweid yn Saesneg er mwyn osgoi oedi o'r fath. Mae'n debyg nad yw'r heddlu'n cynnig y dewis hwn bob tro gan fod bron y cyfan o'r dogfennau perthnasol yn Saesneg. Os daw cyfreithiwr yn ymwybodol bod cais wedi'i wneud i gynnal achos yn Gymraeg, mae'n bolisi gan y cwmni i gofnodi gwybodaeth ysgrifenedig yn Gymraeg.
A gofnodir dewis iaith? Sut?	Ni chofnodir dewis iaith. Gwelir beth yw'r dewis iaith yn ôl yr iaith a ddefnyddir yn y ffeil a geir gan yr heddlu, lle mae'n bosibl y bydd cofnod y cyfarfod cyntaf â'r heddlu'n dangos eu bod wedi siarad Cymraeg.
A yw'r cofnod o ddewis iaith ar gyfer cyswllt dilynol yn cael ei rannu ag eraill o fewn yr asiantaeth?	Os yw cyfreithiwr yn dod i wybod, ar ôl cael cyfarfod â chleient, mai Cymraeg yw dewis iaith y cleient hwnnw mae'n bolisi gan y cwmni bod y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi yn y ffeil ac yn cael ei rhannu â'r llys.
A yw'r cofnod o ddewis iaith yn cael ei rannu ag asiantaethau eraill? Sut?	Mae'n bosibl y bydd y llys yn gofyn beth yw dewis iaith y cleient, a gall rannu'r wybodaeth hon â'r Gwasanaeth Prawf ac asiantaethau eraill. Fodd bynnag, weithiau mae cyfreithwyr y cwmni'n teimlo bod rhaid iddynt brocio'r llys i ofyn y cwestiwn hwn. Os oes bwriad i gynnal y gwrandawriad cyntaf yn Gymraeg rhaid i'r Llys gael rhybudd digonol ymlaen llaw.

Uned Gofal Tystion

Ceir dwy Uned Gofal Tystion (UGT) yng Ngogledd Cymru sy'n rheoli dioddefwyr a thystion o'r adeg y caiff cyhuddiad ei wneud hyd nes y daw'r achos i ben. UGT Wrecsam sy'n gyfrifol am ddiodefwyr a thystion yn Wrecsam a Sir y Fflint, ac UGT Bae Colwyn sy'n gyfrifol am ddiodefwyr a thystion yn Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych. Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Erlyn y Goron sy'n darparu staff ar gyfer yr Unedau Gofal Tystion. Caiff Swyddog Gofal Tystion ei benodi i bob diodefwr neu dyst, a'r swyddog hwn yw eu pwynt cyswllt trwy gydol yr achos y maent yn ymwneud ag ef. Mae'r Swyddog Gofal Tystion yn eu llywio drwy'r broses cyfiawnder troseddol gan eu hysbysu o ganlyniad pob cam yn yr achos (gwrandawiaidau, ceisiadau am fechniaeth, dedfrydu ac ati) ac maent yn cydlynu unrhyw gymorth a gwasanaethau eraill y gallai fod eu hangen ar ddiodefwyr neu dystion.

Cynnig dewis iaith

Yn ôl y dystiolaeth a gawsom o gyfweid â rheolwr yr Uned Gofal Tystion a 3 diodefwr/tyst, mae'n ymddangos bod yr UGT yn gallu trefnu bod diodefwyr/tystion yn cael siarad â staff yn Gymraeg, ond rhaid i UGT Bae Colwyn ddefnyddio staff o du allan i'r Uned i gyflawni hyn.

Bob tro y gwnaethom ffonio'r Unedau Gofal Tystion yn Wrecsam a Bae Colwyn, cafwyd cyfarchiad Saesneg gan staff di-Gymraeg. Dywedodd dau o'r tri diodefwr/tyst y buom yn siarad â nhw eu bod yn gallu siarad â siaradwr Cymraeg os oeddent yn gofyn am gael gwneud hynny, ond nid oedd hynny'n bosibl bob tro. Roedd y ddau ddiodefwr/tyst hyn bob amser yn gofyn am gael siarad â siaradwr Cymraeg os oedd hynny'n bosibl, a dywedodd un ei fod yn gwneud hynny oherwydd ei fod yn cael trafferth deall Saesneg. Ni fyddai'r diodefwr/tyst arall fyth yn gofyn am gael siarad ag aelod o staff a oedd yn siarad Cymraeg er y byddai'n defnyddio'r Gymraeg pe byddai'r person arall yn siarad Cymraeg â hi'n gyntaf. Dywedodd ei bod wedi cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb â staff y Gwasanaeth Tystion, ond nid oedd wedi cael y cyfle i wneud hynny dros y ffôn gyda'r Uned Gofal Tystion.

“Pan ma nhw'n cysylltu tro cynta dyden nhw'm yn cynnig dewis iaith dim ond holi ydych chi eisiau support, ond mae nhw yn cynnig os ydych chi eisiau support. Ond pan mae nhw'n siarad hefo chi, mae nhw yn cynnig i chi, ond pan mae nhw'n ffonio chi dydan nhw ddim.” (V/W3)

Mae gan yr Unedau Gofal Tystion ffurflenni a thafleuni safonol sy'n ddwyieithog. Roedd y tri diodefwr/tyst y buom yn siarad â nhw wedi cael ffurflenni costau teithio dwyieithog ac roeddent yn gwerthfawrogi'r ffaith eu bod yn ddwyieithog. Fodd bynnag, Saesneg yw iaith y llythyrau personol a gaiff eu hysgrifennu gan staff yr UGT. Cawsom wybod nad oedd y llythyrau safonol ar y System Rheoli Tystion a oedd ar gael yn Gymraeg yn gwneud synnwyr. Gan fod angen i staff fod yn eithaf rhugl yn Gymraeg i allu teipio llythyrau, mae'n arfer safonol gan yr UGT erbyn hyn i anfon y llythyr cyntaf at bob tyst yn Saesneg gyda darn dwyieithog arno'n gofyn a

fyddai'r tyst yn dymuno i'r llythyrau sy'n cael eu hanfon atynt yn y dyfodol fod yn Gymraeg neu'n Saesneg. Dywedodd y dioddefwyr/tystion y buom yn siarad â nhw yn ystod yr astudiaeth hon mai Saesneg oedd iaith yr holl ohebiaeth ysgrifenedig yr oeddent wedi'i chael gan yr UGT ym Mae Colwyn. Dywedont y byddai wedi bod yn well ganddynt gael fersiynau ddwyieithog o'r llythyrau hyn.

“Fase cael Cymraeg fwy normal yn help, ond dwi'n gwbod bod na lot o bobl sy'n siarad fath â fi yn fama yn ffeindio hi'n anodd i ddeall Cymraeg posh. (VWJ3) ... Yn licio taswn i'n cael Cymraeg a Saesneg i gael switcho o un i'r llall. “(VWJ3)

Camau gweithredu ar gyfer yr Unedau Gofal Tystion

- Dylai'r Unedau Gofal Tystion (a'r uned ym Mae Colwyn yn enwedig) wella gallu eu timau i gyfathrebu â dioddefwyr/tystion yn uniongyrchol trwy gyfrwng y Gymraeg heb orfod cyfeirio galwadau i staff y tu allan i'r uned.
- Dylai pob llythyr ysgrifenedig gael ei anfon at bob dioddefwr a thyst yn ddwyieithog.
- Dylai'r broses recriwtio a hyfforddi staff roi sylw penodol i wella gallu'r UGT i ateb y ffôn a delio ag ymholiadau yn ddwyieithog, a bod yn rhagweithiol wrth annog dioddefwyr/tystion i gyfathrebu â Swyddogion Gofal Tystion yn Gymraeg ac yn ddwyieithog.
- Dylai pob aelod o staff gael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.

Tabl 6: Gwybodaeth a ddarparwyd gan atebwyr a oedd yn cynrychioli'r Uned Gofal Tystion	
Yr agweddau a archwiliwyd	Crynodeb o'r ymateb a gafwyd i'r cyfweiliad/cyfweiliadau
Natur yr ymrwymadau statudol/gwirfoddol i gynnig dewis iaith	Mae hyn yn aneglur. Cyfeiriodd y sawl a gafodd ei gyfweild at bolisi iaith ond nid oedd hi ei hun yn gyfarwydd â'r polisi iaith hwnnw.
Canllawiau gweithredu	Ceir set o safonau gofynnol. Mae'r rhain yn datgan (i) yr adolygir 'deunydd ysgrifenedig a gaiff ei gynhyrchu'n lleol a'i roi i dioddefwyr a thystion (gan ystyried materion yn ymwneud â chydaddoldeb ac amrywiaeth) a bydd deunyddiau arfer da yn cael eu datblygu'; (ii) 'cyfathrebu...trwy'r dulliau sydd orau gan y dioddefwr/tyst'; a (iii) y byddir yn 'cynnal asesiad llawn o anghenion'. Ni cheir cyfeiriad at faterion yn ymwneud â dewis iaith.
Staff sy'n siarad Cymraeg/sy'n dysgu Cymraeg	11 aelod o staff. Ceir un rheolwraig ddi-Gymraeg, ac mae 2 o'r 5 aelod o staff yn swyddfa Wrecsam yn gallu siarad Cymraeg. Adeg y cyfweiliad nid oedd yr un o'r 5 aelod o staff yn swyddfa Bae Colwyn yn gallu siarad Cymraeg yn ddigon da i'w defnyddio yn eu gwaith. [Wedi'r cyfweiliad cafodd un swyddog sy'n siarad Cymraeg ei leoli ym Mae Colwyn dros dro oherwydd bod aelod arall o staff ar secondiad.]

Sesiynau hyfforddi/ briffio	Dim hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith. Mae 7 swyddog (4 yn Wrecsam a 3 ym Mae Colwyn) wedi cael hyfforddiant iaith sylfaenol trwy drefniant â Heddlu Gogledd Cymru.
Gwasanaeth cyfieithu	Gan amlaf ceir cymorth gan staff eraill GEG sy'n siarad Cymraeg ar gyfer cysylltu â phobl dros y ffôn neu'n ysgrifenedig.
Cyllideb ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog	Dim.
Natur y cyswllt cyntaf	Galwad ffôn gan Swyddog Gofal Tystion gan amlaf. Gwneir cyswllt trwy alwadau ffôn, llythyrau, negeseuon e-bost a ffacs yn ôl dymuniad y tyst, a chaiff y dymuniad hwn ei gofnodi yn ei ddatganiad i'r heddlu. Mae'r UGT yn cael gwybodaeth gychwynnol am bob unigolyn o gofnod RMS yr heddlu.
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt llafar (e.e. ffôn, wyneb yn wyneb, cyfarfodydd)?	Gan nad oes siaradwyr Cymraeg ymhlith staff yr UGT ym Mae Colwyn, trefnir bod aelod o staff GEG sy'n siarad Cymraeg yn cysylltu ar eu rhan â dioddefwyr a thystion sy'n dymuno cyfathrebu'n Gymraeg. Nid yw'r angen i wneud hyn yn codi'n aml iawn yn ôl y rheolwr. Gwelwyd o'r astudiaeth hon bod galwadau ffôn yn cael eu hateb â chyfarfodiad uniaith Saesneg er bod y rheolwr wedi dweud eu bod yn ateb y ffôn yn ddwyieithog.
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt ysgrifenedig?	Yn rhannol. Llythyr Saesneg a ddefnyddir i ofyn a yw person ar gael i ddod i'r gwrandawriad llys. Ceir darn dwyieithog ar y llythyr hwn yn gofyn i'r tyst nodi a yw'n dymuno cael gohebiaeth bellach yn Gymraeg neu'n Saesneg ac a yw'n dymuno rhoi tystiolaeth yn y llys yn Gymraeg, yn Saesneg neu mewn iaith arall. Mae'r ffurflen costau teithio a roddir i dystion yn ddwyieithog.
A gofnodir dewis iaith? Sut?	Cofnodir dewis iaith ar System Rheoli Tystion electronig ac ar bapur.
A yw'r cofnod o ddewis iaith ar gyfer cyswllt dilynol yn cael ei rannu ag eraill o fewn yr asiantaeth?	Ydy. Caiff pob cyswllt â dioddefwyr a thystion ei gofnodi ar y System Rheoli Tystion. Caiff un Swyddog Gofal Tystion ei benodi i bob achos, a hwnnw sy'n cysylltu â'r tyst bob tro ac felly mae'n ymwybodol o ddewis iaith y tyst. Gall swyddog arall sy'n cysylltu â thyst ar ran y swyddog arferol edrych ar y System Rheoli Tystion am gofnod o unrhyw gyswllt blaenorol.
A yw'r cofnod o ddewis iaith yn cael ei rannu ag asiantaethau eraill? Sut?	Ni chaiff ffeiliau'r UGT eu rhannu ag asiantaethau eraill.

Gwasanaeth Tystion Gogledd Cymru – Swyddfa Gwynedd a Môn a Swyddfa'r Wyddgrug

Mae Gwasanaeth Tystion Gogledd Cymru yn gangen leol o gorff elusennol sy'n rhan o wasanaethau Cymorth i Dystion. O Ebrill 2008, bydd y gwasanaethau yng Nghymru'n cael eu had-drefnu a'u cyfuno o dan adain Cymorth i Dystion Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r Gwasanaeth yn cynnig cymorth i:

- dystion y mae'n ofynnol iddynt roi tystiolaeth mewn llys, gan gynnwys tystion yr amddiffyniad
- dioddefwyr troseddau, eu teuluoedd a'u cyfeillion a ddaw i'r Llys
- plant yn ogystal ag oedolion.

Mae'r gwasanaeth yn cynnig:

- cefnogaeth emosiynol a chyngor ymarferol heb drafod tystiolaeth;
- cyfle i weld y llys ymlaen llaw a chael gwybodaeth am drefniadau'r llys;
- cwmni wrth fynd i mewn i'r llys i roi tystiolaeth;
- cymorth ymarferol (e.e. i lenwi ffurflenni costau).

Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim i'r defnyddwyr, ac mae'n annibynnol ar yr Heddlu a'r Llysoedd.

Adeg y cyfweiliadau ni welwyd unrhyw ddogfennau ar wefan Gwasanaeth Tystion Gogledd Cymru yn cyfeirio at wasanaeth Cymraeg. Nid oedd dewis iaith ar gael ar dudalen hafan y wefan ychwaith ac nid oedd y wefan yn ddwyieithog. Mae'r wefan yn cynnig cyfle i lawrlwytho copïau o amryw o daflenni gwybodaeth mewn amryw o ieithoedd, ond nid yw'r Gymraeg yn eu plith.

Gwasanaeth ymatebol yw'r Gwasanaeth Tystion yn ei hanfod. Mae'r gwasanaeth yn ymateb i achosion y tynnir ei sylw atynt gan Uned Gofal Tystion Gwasanaeth Erynn y Goron ym Mae Colwyn a Wrecsam. Mae prinder staff sy'n siarad Cymraeg yn yr Unedau Gofal Tystion a phrofiad personol yn peri i un atebydd deimlo bod ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn isel yn yr Unedau yn gyffredinol ac nad yw sensitifrwydd at iaith a'r angen i gynnig dewis iaith yn cael lle digon amlwg yn eu gweithdrefnau. Ategir hyn gan y ffaith bod nifer y tystion a'r dioddefwyr sy'n siarad Cymraeg wrth ddelio â'r Gwasanaeth Tystion yng Nghaernarfon (lle mae gwasanaeth Cymraeg ar gael yn gymharol hawdd), yn sylweddol uwch na nifer y 'treialon Cymraeg' y mae'r Uned ym Mae Colwyn yn eu trefnu ac yn hysbysu'r Gwasanaeth Tystion amdanynt.

Nid yw'r ffurflen a ddefnyddir gan yr Uned Gofal Tystion ym Mae Colwyn i hysbysu'r Gwasanaeth Tystion am achosion yn cynnwys cofnod o ddewis iaith y tyst/dioddefwr, ac nid oes unrhyw gyfeiriad arall at ddewis iaith arni. Pwysleisiodd un atebydd bod llawer o le i wella ar y wybodaeth y mae'n ei chael am ddefnyddwyr gwasanaeth.

Cynhaliwyd cyfweiliadau â swyddogion o ddwy gangen leol yn rhanbarth Gogledd Cymru. Mae swyddfa Gwynedd a Môn yn gwasanaethu 5 Llys Ynadon (Dolgellau,

Caernarfon, Pwllheli, Llangefni a Chaerhybi) a Llys y Goron yng Nghaernarfon. Mae Swyddfa'r Wyddgrug yn gwasanaethu Llys y Goron yn yr Wyddgrug a'r llysoedd ynadon yn ei ddalgylch.

Pan gysylltwyd â **Swyddfa Gwynedd a Môn** yng Nghaernarfon dros y ffôn, roedd y cyfarchiad a dderbyniwyd yn ddwyieithog. Mae'r unig swyddog cyflogedig sydd yno'n ddwyieithog, ac mae 16 o'i thîm o 23 o wirfoddolwyr naill ai'n ddwyieithog neu'n dysgu Cymraeg. Mae ethos Cymraeg naturiol yn bodoli yn swyddfa Gwynedd a Môn, ac mae'r tîm yn gallu cynnig dewis iaith trwy leoli o leiaf un siaradwr Cymraeg ym mhob llys. Roedd y swyddog cyflogedig yn ymwybodol bod y gwasanaeth yn gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg a chyflwynodd gopi, pan ofynnwyd iddi, yn ystod y cyfweiliad.

Pan gysylltwyd â **Swyddfa'r Wyddgrug** dros y ffôn, roedd y cyfarchiad a dderbyniwyd yn uniaith Saesneg. Roedd unig swyddog cyflogedig y gwasanaeth yn Swyddfa'r Wyddgrug yn teimlo y byddai o fantais petai'n rhugl yn y Gymraeg, ac ychwanegodd ei bod yn cael hyfforddiant i'r diben hwnnw. Er bod yr holl swyddi gwag yn cael eu hysbysebu fel swyddi lle byddai Cymraeg yn ddymunol, dim ond 2 siaradwr Cymraeg rhugl a 3 dysgwr sy'n rhan o'r tîm o 21 o wirfoddolwyr. Mae'r niferoedd hyn yn dangos nad oes gan y gwasanaeth y gallu i gynnig dewis iaith ym mhob llys sy'n cael ei wasanaethu o Swyddfa'r Wyddgrug. Nododd yr atebydd y byddai ymdrechion yn cael eu gwneud i wella'r gwasanaeth trwy recriwtio mwy o wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg pan fyddai'n bryd recriwtio, ond ar hyn o bryd roedd digon o wirfoddolwyr ar gael. Ar ddiwrnod y cyfweiliad, roedd yn ansicr a oedd y gwasanaeth yn gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg.

Camau gweithredu ar gyfer Gwasanaeth Tystion Gogledd Cymru

- Dylid paratoi strategaeth sgiliau iaith ar gyfer y gwasanaeth.
- Dylid adolygu proffil staffio'r gwasanaeth gyda'r bwriad o gymryd pob cyfle i sicrhau bod staff y rheng flaen yn cynnig dewis iaith go iawn i ddefnyddwyr ac yn cyfathrebu â nhw yn eu dewis iaith.
- Dylid briffio'r holl staff am ofynion Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tystion Gogledd Cymru.
- Dylid darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i'r holl staff.
- Dylid cynnig hyfforddiant Cymraeg i'r holl staff yn rhan o'u datblygiad mewn swydd.
- Dylid adolygu a diwygio meddalwedd a ffurflenni'r gwasanaeth, er mwyn ffurfioli'r system ar gyfer mynd ati'n rhagweithiol i gynnig dewis iaith i ddefnyddwyr ar gyfer cyswllt llafar ac ysgrifenedig, a'r system ar gyfer cofnodi'r dewis hwnnw a'i rannu'n ffurfiol ag eraill, yn fewnol ac â phartneriaid er mwyn sicrhau ymateb priodol a dilyniant priodol yn newis iaith y defnyddwyr.
- Dylai gwefan y Gwasanaeth gael ei hadolygu i gydymffurfio â gofynion ei Gynllun Iaith Gymraeg, a dylid mynd i'r afael â'r diffygion sydd wedi'u hamlygu yn yr astudiaeth hon.

Tabl 7: Gwybodaeth a ddarparwyd gan yr atebydd a oedd yn cynrychioli Gwasanaeth Tystion Gogledd Cymru (Gwynedd a Môn)	
Yr agweddau a archwiliwyd	Crynodeb o'r ymateb a gafwyd i'r cyfweiliad/cyfweiliadau
Natur yr ymrwymadau statudol/gwirfoddol i gynnis dewis iaith	Rhan o Wasanaeth Tystion Gogledd Cymru, ac yn dilyn Polisi Iaith Gymraeg Gwasanaeth Tystion Gogledd Cymru (y copi a ddangoswyd i ni oedd <i>Fersiwn 3 – 12 Chwefror 2004</i>). Defnyddir teitl arall ar dudalen 1 y ddogfen – sef Cynllun Iaith Gymraeg ond ni cheir datganiad yn y ddogfen i ddangos a yw wedi ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg
Canllawiau gweithredu	Dim ar wahân i'r uchod
Staff sy'n siarad Cymraeg/sy'n dysgu Cymraeg	Yn lleol, 1 aelod o staff cyflogedig a 23 gwirfoddolwr, 11 o'r rheiny'n rhugl yn Gymraeg a 5 yn dysgu. Caiff y staff eu rhannu rhwng y Llysoedd gan sicrhau bod 1 siaradwr Cymraeg ac 1 di-Gymraeg ym mhob Llys
Sesiynau hyfforddi/briffio	Nid oedd yr atebydd wedi cael sesiynau hyfforddi/briffio am y Polisi/Cynllun Iaith, ond roedd hi wedi rhoi gwybodaeth amdano i'r holl wirfoddolwyr, ac wedi rhoi copi ohono i bob un ohonynt.
Gwasanaeth cyfieithu	Mae rhai tafenni wedi cael eu cyfieithu gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol / Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi Nid oes cyllideb ar gael ar gyfer gwaith sy'n codi o'r gwasanaeth yn lleol – roedd yr atebydd yn gwneud amryw o dasgau cyfieithu (e.e. Agenda a Chofnodion ar gyfer cyfarfodydd y Tîm)
Cyllideb ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog	Nid oedd yr atebydd yn ymwybodol o unrhyw gyllideb o'r fath – ond nododd hefyd nad oedd hi wedi gwneud ymholiadau. Roedd hi'n meddwl bod y Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol yn gyfrifol am y deunydd sy'n cael ei gyhoeddi'n ganolog ar ran y sector

<p>Natur y cyswllt cyntaf</p>	<p>Gweithio'n agos ag Uned Gofal Tystion Gwasanaeth Erllyn y Goron (Bae Colwyn), a chaiff tystion eu hysbysu am y gwasanaeth gan yr Uned honno. Mae'r gwasanaeth yn cysylltu â thystion pan ofynnir iddo wneud hynny yn unig. Wedi i dyst fynegi diddordeb mewn cael cymorth gan y gwasanaeth, mae'r Gwasanaeth Tystion yn derbyn ffurflen (uniaith Saesneg) gan Wasanaeth Erllyn y Goron yn ei hysbysu am y person dan sylw. Yna, mae'r Gwasanaeth Tystion yn ffonio'r person dan sylw. Mae'r cyfarfod cyntaf ag ef yn digwydd yn y Llys fel rheol.</p> <p>Cyn hynny, bydd Uned Gofal Tystion Gwasanaeth Erllyn y Goron wedi anfon y daflen '<i>Going To Court</i>' at y person dan sylw, ynghyd â DVD yn cyflwyno'r Gwasanaeth Tystion.</p> <p>Mae'r DVD yn cynnwys sylwebaeth yn Gymraeg (sef un iaith o blith nifer sy'n cael eu cynnig). Fodd bynnag, mae prinder siaradwyr Gymraeg ymysg staff yr Uned ym Mae Colwyn, a theimlir nad yw'r mater o ddewis iaith yn cael llawer o flaenoriaeth.</p>
<p>A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt llafar (e.e. ffôn, wyneb yn wyneb, cyfarfodydd)?</p>	<p>Cynigir dewis iaith gan y swyddog a'r tîm o wirfoddolwyr.</p>
<p>A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt ysgrifenedig?</p>	<p>Fel rheol, anfonir unrhyw ohebiaeth yn Saesneg, gyda nodyn yn datgan bod y llythyr/ffurflen ar gael yn Gymraeg os yw'r derbynnydd yn dymuno. Gwneir hyn i arbed costau.</p> <p>Pan fydd sgwrs ffôn wedi'i chynnal yn Gymraeg â rhywun sy'n mynd i dderbyn gohebiaeth, anfonir yr ohebiaeth yn Gymraeg, er bod rhai derbynwyr yn gofyn wedyn am gael yr ohebiaeth yn Saesneg.</p>

<p>A gofnodir dewis iaith? Sut?</p>	<p>Dim ond ar gyfer achosion a fydd yn cael eu cynnal yn benodol trwy gyfrwng y Gymraeg y caiff dewis iaith ei gofnodi (gan Wasanaeth Eryl y Goron) yn dilyn y 'gwrandawriad rhagarweiniol' fel rheol). Yna, mae'r Gwasanaeth Tystion yn cael rhestr o achosion o'r fath. Defnyddir meddalwedd sy'n cynnwys '<i>Case Application sheet</i>' ar gyfer gwirfoddolwyr yn y Llys. Mae lle ar y ffurflen ar gyfer sylwadau, ond nid oes lle penodol i gofnodi dewis iaith. O ganlyniad, rhaid cofnodi 'Achosion Cymraeg' o dan '<i>Special Measures</i>'. Nid oes cofnod ar wahân i'r uchod.</p> <p>Rhaid llenwi ffurflen, a baratowyd gan y weinyddiaeth ganolog yn Llundain, ar gyfer monitro cyfle cyfartal, ond nid oes cyfeiriad at yr iaith Gymraeg arni. Teimla'r atebydd mai ar y ffurflen hon y dylai dewis iaith gael ei gofnodi.</p>
<p>A yw'r cofnod o ddewis iaith ar gyfer cyswllt dilynol yn cael ei rannu ag eraill o fewn yr asiantaeth?</p>	<p>Nid oes cofnod ar wahân i'r uchod.</p>
<p>A yw'r cofnod o ddewis iaith yn cael ei rannu ag asiantaethau eraill? Sut?</p>	<p>Nid oes cofnod ar wahân i'r uchod.</p> <p>Wrth ddarparu gwasanaeth i blant, mae aelod o staff yr Uned Amddiffyn Plant yn mynd i'r Llys yr un diwrnod â'r plentyn ac, fel rheol, mae gan y swyddog hwnnw gyswllt mwy helaeth â'r plentyn na'r gwasanaeth hwn, ac mae'n holi'r plentyn ynghylch ei ddewis iaith.</p>

Tabl 8: Gwybodaeth a ddarparwyd gan yr atebydd a oedd yn cynrychioli Gwasanaeth Tystion Gogledd Cymru (yr Wyddgrug)	
Yr agweddau a archwiliwyd	Crynodeb o'r ymateb a gafwyd i'r cyfweiliad/cyfweiliadau
Natur yr ymrwymadau statudol/gwirfoddol i gynnig dewis iaith	Rhan o Wasanaeth Tystion Gogledd Cymru. Roedd yr atebydd yn ymwybodol bod gan y corff Gynllun Cydraddoldebau, ond ar ddiwrnod y cyfweiliad, roedd yn ansicr a oedd yn gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg.
Canllawiau gweithredu	Dim.
Staff sy'n siarad Cymraeg/sy'n dysgu Cymraeg	Yn lleol, 1 aelod o staff cyflogedig a 21 gwirfoddolwr, 2 o'r rheiny'n rhugl yn Gymraeg a 4 yn dysgu (gan gynnwys yr atebydd). Mae'r swyddog cyflogedig yn dysgu Cymraeg gyda staff y Llys (yn rhad ac am ddim). Mae'r 3 gwirfoddolwr yn dysgu Cymraeg yn annibynnol. Mae ymdrechion yn cael eu gwneud i sicrhau bod gwirfoddolwyr Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar gyfer tystion sy'n siarad Cymraeg, ond nid yw'r ymdrechion hyn wedi bod yn llwyddiannus bob tro.
Sesiynau hyfforddi/briffio	Dim sesiynau hyfforddi na briffio am y Cynllun Iaith.
Gwasanaeth cyfieithu	Mae cyfieithiadau ysgrifenedig yn cael eu darparu gan gwmni cyfieithu masnachol. Mae staff mewnol yn ymgymryd â gwaith cyfieithu mwy anffurfiol.
Cyllideb ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog	Yn tybio bod cyllideb o'r fath gan y Swyddfa Ranbarthol, oherwydd i'r Swyddfa honno y caiff anfonebau am waith cyfieithu eu hanfon.
Natur y cyswllt cyntaf	Gweithio'n agos â'r Uned Gofal Tystion, a chaiff tystion eu hysbysu am y Gwasanaeth gan yr Uned honno. Ni all y gwasanaeth gysylltu'n uniongyrchol â thystion o'i ran ei hun. Wedi i dyst fynegi diddordeb mewn cael cymorth gan y gwasanaeth ac wedi iddo gael ei gyfeirio, mae'r Gwasanaeth Tystion yn ffonio'r tyst fel rheol, neu, fel arall, bydd y cyswllt cyntaf yn digwydd ar ddiwrnod y treial.
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt llafar (e.e. ffôn, wyneb yn wyneb, cyfarfodydd)?	Caiff y gwasanaeth ei hysbysu gan yr Uned Gofal Tystion os yw tyst yn siarad Cymraeg a hynny dros y ffôn fel rheol. Os na chaiff y gwasanaeth ei hysbysu gan yr Uned, ac os daw'r gwasanaeth i wybod bod tyst yn siarad Cymraeg, mae'n cysylltu â'r Uned eto i drosglwyddo'r wybodaeth. Dim ond yr 1 swyddog cyflogedig sy'n gwneud galwadau o'r fath. Wrth siarad â thyst ar y ffôn, mae'n bosibl y bydd y Swyddog yn synhwyro bod y tyst yn gallu siarad Cymraeg ac mae'n gofyn a fyddai'n dymuno rhoi tystiolaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg, yna mae'n cyfeirio'n ôl i'r Uned Gofal Tystion.

<p>A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt ysgrifenedig?</p>	<p>Ni cheir unrhyw gyswllt ysgrifenedig o'r Swyddfa hon (ond mae'r rhiant gorff, sef Cymorth i Dystion, yn anfon gohebiaeth ysgrifenedig)</p>
<p>A gofnodir dewis iaith? Sut?</p>	<p>Caiff ei gofnodi ar ein cofnod ffôn, h.y. y cofnod o'r sgwrs dros y ffôn. Defnyddir y cofnod hwn wrth rannu gwybodaeth â'r gwirfoddolwyr.</p>
<p>A yw'r cofnod o ddewis iaith ar gyfer cyswllt dilynol yn cael ei rannu ag eraill o fewn yr asiantaeth?</p>	<p>Pan ddaw manylion yr achos llys, mae'r swyddog cyflogedig yn ceisio sicrhau bod gwirfoddolwr addas ar gael i ddarparu gwasanaeth i'r unigolyn yn ei ddewis iaith. Nid yw hyn bob amser yn bosibl oherwydd bod nifer y gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg yn isel, ond gwneir ymdrech bob amser i geisio sicrhau ei fod yn digwydd.</p>
<p>A yw'r cofnod o ddewis iaith yn cael ei rannu ag asiantaethau eraill? Sut?</p>	<p>Fel rheol, bydd y Llys yn ymwybodol o iaith yr achos a dewis iaith y person. Mae'r swyddog cyflogedig yn rhoi gwybod i dywyswyr y llys hefyd, a rhoddir gwybod i'r erlynydd ar y diwrnod er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o hyn.</p>

Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi

Mae Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (GLIEM) yn un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Cyfrifoldeb y gwasanaeth yw gweinyddu cyfiawnder i'r cyhoedd yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae'n gyfrifol am reoli'r llysoedd ynadon, Llys y Goron, y llysoedd sirol, yr Uchel Lys a'r Llys Apêl yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Gwasanaeth yn cynnwys strwythur Cymru gyfan, gyda 3 Thîm iaith yn gyfrifol am hyrwyddo'r Gymraeg yn y rhanbarthau canlynol: Gogledd Cymru, Y Canolbarth a'r De-orllewin, a'r De-ddwyrain.

Cynnig dewis iaith

O ran ymateb i ddewis iaith, mae'r Gwasanaeth yn aml yn dibynnu ar asiantaethau eraill sy'n ymwneud ag achos cyn iddo gyrraedd y llys. Os na chaiff gwybodaeth ei chasglu ymlaen llaw, gall fod yn anodd sicrhau bod dewis iaith unigolyn yn cael ei ddefnyddio o ddechrau'r achos. Y nod yw cynyddu nifer y staff dwyieithog o fewn y llysoedd. Er mwyn gwneud hyn, mabwysiadwyd strategaeth hyfedredd iaith, sy'n cael ei threialu mewn 3 ardal ar hyn o bryd – sef Caernarfon, Cwmbrân (lle y gweinyddir llysoedd Gwent) ac Abertawe (Llys y Goron). Ystyrir pa lefel o hyfedredd sy'n briodol i BOB swydd, a'r bwriad yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y weinyddiaeth, y Farnwriaeth a'r Ynadaeth.

Derbynnir gwybodaeth gan yr Heddlu am unrhyw drosedd a manylion eraill, ond nid yw'r wybodaeth hon bob amser yn cynnwys cofnod o ddewis iaith.

Mae Pwyllgor Sefydlog yr Arglwydd Ganghellor ar gyfer yr iaith Gymraeg yn eithriadol o bwysig o ran ei ddylanwad arweiniol ar y sector.

Rhoddir llawer o bwys ar y system Libra a fydd yn galluogi gweithredu unffurf trwy Gymru gyfan. Yn ogystal, mae Gweithgor iaith Gymraeg yr Ynadon a'r strategaethau amrywiol yn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a'r defnydd ohoni – a dyma'r ddwy brif her sy'n wynebu'r Gwasanaeth.

Camau gweithredu ar gyfer Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi

- Dylid darparu rhaglen dreigl a pharhaus o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i'r holl staff.
- Dylid ffurfioli'r weithdrefn a ddefnyddir ar gyfer mynd ati'n rhagweithiol i gynnig dewis iaith i ddefnyddwyr, cofnodi'r dewis hwnnw a rhannu'r wybodaeth yn fewnol ac yn ffurfiol â phartneriaid, er mwyn sicrhau ymateb priodol a dilyniant priodol yn newis iaith y defnyddiwr gwasanaeth.
- Dylid pwysu ar Heddlu Gogledd Cymru i ddefnyddio fersiwn 2007 y ffurflen MG11, a phwysu ar Wasanaeth Eryl y Goron i drosglwyddo'r wybodaeth sy'n ymwneud â dewis iaith i Wasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi.
- Dylid rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod y system gyfrifiadurol Libra yn darparu dull a modd unffurf a chyson o ddelio ag agweddau ar ddewis iaith.

Tabl 9: Gwybodaeth a ddarparwyd gan yr atebydd a oedd yn cynrychioli Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi	
Yr agweddau a archwiliwyd	Crynodeb o'r ymateb a gafwyd i'r cyfweiliad/cyfweiliadau
Natur yr ymrwymadau statudol/gwirfoddol i gynnig dewis iaith	<ul style="list-style-type: none"> ○ Cynllun Iaith Gymraeg ○ Cynllun Strategol yr Iaith Gymraeg ○ 'Strategaeth Hyfedredd Iaith' (Cymru) ○ Protocol i Lysoedd Ynadon, Llysoedd y Goron a Llysoedd Sifil ar gyfer rhestru achosion lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio
Canllawiau gweithredu	<ul style="list-style-type: none"> ○ Canllawiau i reolwyr llysoedd ○ Adeg y cyfweiliad, roedd un o'r 3 Thîm Iaith yn paratoi llawlyfr i roi arweiniad. Mae'r llawlyfr, '<i>The Welsh Language Scheme and You</i>' wedi cael ei ddsbarthu i bob aelod o staff.
Staff sy'n siarad Cymraeg/sy'n dysgu Cymraeg	<p>Dim data ar nifer y siaradwyr Cymraeg - mae hyn yn wendid o ran rheoli adnoddau dynol. Mae trafodaeth lefel uchel yn cael ei chynnal ynglŷn â rhoi cwestiwn ar bob ffurflen gais yn gofyn a yw'r ymgeisydd yn siarad Cymraeg. Ers cyfnod y cyfweiliadau, mae GLIEM wedi mabwysiadu Fframwaith Hyfedredd Iaith a bydd pob swydd yng Nghymru'n cael ei hasesu yn erbyn 5 lefel o hyfedredd yn ystod 2008. Bydd hyn yn galluogi'r gwasanaeth i gasglu gwybodaeth am leoliad a nifer y siaradwyr Cymraeg a gyflogir.</p> <p>O oddeutu 1,500 o staff ar draws Cymru, amcangyfrifir bod 50 i 100 ohonynt yn gallu siarad Cymraeg. O'r 200 o staff yng Ngogledd Cymru, mae tua 40 yn siarad Cymraeg a 24 yn dysgu Cymraeg. Mae pob aelod o staff di-Gymraeg wedi cael cynnig cyfle i ddysgu Cymraeg.</p>

<p>Sesiynau hyfforddi/ briffio</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ Mae sesiynau sefydlu'n cael eu cynnal bob deufis, sy'n darparu cyflwyniad i'r Gwasanaeth ac i'r llys, ond nid yw'r rhain yn rhoi digon o sylw i'r Gymraeg. Felly, datblygwyd sesiwn 35-40 munud fel cyflwyniad i'r Gymraeg (trwy gyfrwng y Gymraeg) – mae'r sesiynau hyn ar fin cychwyn. Mae 2 agwedd i'r sesiynau hyn: sefyllfa'r Gymraeg yn y Gymru gyfoes; rôl y Gymraeg yn y Gwasanaeth. ○ Mae'r Bwrdd Astudiaethau Barnwrol yn darparu hyfforddiant ar gyfer Ynadon, ond mae galw am gyrsiau Cymraeg ar gadeirio/cynnal llys trwy gyfrwng y Gymraeg a chyrsgiau ar ddeddfwriaeth newydd. Mae llawer o gyrsiau'n cael eu cyfieithu, ac mae bwriad i gynnal cwrs ar bob agwedd ar eu gwaith o Ebrill 2008 ymlaen. ○ Cynhelir cyrsiau'n flynyddol i farnwyr ar gynnal llys trwy gyfrwng y Gymraeg a delio ag achosion lle defnyddir y Gymraeg. Mae rhai'n mynychu cyrsiau dysgu Cymraeg yn Nant Gwrtheyrn. ○ Mae gwaith yn cael ei wneud gyda phartneriaid eraill i greu llyfrgell o dermau gyda chymorth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
<p>Gwasanaeth cyfieithu</p>	<p>Ceir uned iaith sy'n gyfrifol am waith cyfieithu, cyngor ar derminoleg a gwaith dylunio dwyieithog. O ran cyfleusterau cyfieithu ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, mae gan unigolyn yr hawl i ofyn am achos trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddirybudd, ond os nad yw'r dewis iaith wedi cael ei nodi ymlaen llaw mae'n gallu bod yn anodd sicrhau bod Ynad neu Gynghorydd Cyfreithiol sy'n siarad Cymraeg ar gael, neu wneud trefniadau i'r unigolyn roi tystiolaeth yn Gymraeg os yw'n dymuno.</p>
<p>Cyllideb ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog</p>	<p>Cyllideb yr Uned Gyfieithu: £500,000. Mae cyfieithydd mewnol wedi cael ei benodi'n ddiweddar. Mae tua £100,000 yn cael ei wario ar waith cyfieithu allanol. Mae £10,000 wedi cael ei roi i bob Tîm Ardal i ddatblygu'r Gymraeg. Mae pob Llys a Swyddfa'n cael Golwg a Lingo – tua 100 copi o bob rhifyn, sy'n cyfateb i fuddsoddiad o ryw £8,000.</p>
<p>Natur y cyswllt cyntaf</p>	<p>Trwy wŷs a phan fo person yn ymddangos yn y llys am y tro cyntaf.</p>

<p>A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt llafar (e.e. ffôn, wyneb yn wyneb, cyfarfodydd)?</p>	<ul style="list-style-type: none"> ○ Fel rheol, mae'r cyswllt llafar cyntaf yn digwydd yn y Llys. Ni fydd swyddogion y Gwasanaeth bob amser wedi cael gwybodaeth am ddewis iaith y person, er y bydd y Llys wedi cael gwybodaeth a gedwir ar system gyfrifiadurol yr Heddlu (Adran Gweinyddu Cyfiawnder) am natur y trosedd ynghyd â manylion eraill. ○ O'r flwyddyn nesaf ymlaen, bwriedir iddi fod yn ofynnol i Gadeirydd pob Mainc Ynadon agor a chau pob sesiwn yn ddwyieithog (mae hyn yn cael ei drafod ar hyn o bryd). ○ Mae poster ar gael yn tynnu sylw pobl at eu hawl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Llys
<p>A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt ysgrifenedig?</p>	<p>Mae'r broses ddogfennol yn dechrau gyda'r wŷs. Yn groes i'r Cynllun Iaith, dim ond yn rhanbarth y Gogledd y caiff gwysion dwyieithog eu hanfon. Mae cynlluniau ar droed i addasu system gyfrifiadurol Libra. Bydd hynny'n golygu bod system Libra wedi'i gosod i gynhyrchu gwysion dwyieithog i bob cyfeiriad sydd â chôd post yng Nghymru oni bai bod Saesneg wedi'i nodi fel dewis iaith y derbynydd, lle bydd gwŷs uniaith Saesneg yn cael ei rhoi. Bwriedir cynnwys nodyn yn gofyn i'r diffynnydd nodi ei ddewis iaith ar gyfer y gwrandawriad a gohebiaeth bellach hefyd, a bydd y dewis hwn yn cael ei gofnodi'n electronig. Bydd Libra'n caniatáu i staff y llys gofnodi iaith dogfennau a gwrandawriad yr achos.</p>
<p>A gofnodir dewis iaith? Sut?</p>	<p>Ar system gyfrifiadurol Libra yn y Gogledd – bydd hyn yn cael ei wneud trwy Gymru gyfan pan gaiff y system ei diwygio.</p>
<p>A yw'r cofnod o ddewis iaith ar gyfer cyswllt dilynol yn cael ei rannu ag eraill o fewn yr asiantaeth?</p>	<p>Ddim y tu allan i ardal Gogledd Cymru ar hyn o bryd, ond ar ôl cael ei diwygio, ni fydd system 'Libra' yn caniatáu i ddogfennau uniaith Saesneg gael eu prosesu.</p>
<p>A yw'r cofnod o ddewis iaith yn cael ei rannu ag asiantaethau eraill? Sut?</p>	<p>Yn gyffredinol, yr unig asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r achos ar ôl proses y Llys yw'r Gwasanaeth Prawf, y Timau Troseddau Ieuencid a'r carchardai.</p>

Barnwriaeth Cymru

Cynhaliwyd cyfweiliad ag un Barnwr Llys y Goron (CCJ 1) er mwyn cael gwybodaeth uniongyrchol am unrhyw fframwaith gweithredu a allai fod yn berthnasol i'r modd y mae Barnwriaeth Llys y Goron ar gyfer Gogledd Cymru a Chaer yn cynnal achosion, lle gallai unigolion fod yn dymuno defnyddio Cymraeg. Mae CCJ 1 yn siaradwr Cymraeg sy'n gwasanaethu yn Llysoedd y Goron yng Ngogledd Cymru sy'n cael eu cynnwys o fewn terfynau'r prosiect hwn. Pwysleisiodd fod ei wybodaeth yn cynnig cipolwg yn unig ar y modd y gallai unigolyn arfer dewis iaith yn y llysoedd, oherwydd bod rhaid i lysoedd ddibynnu ar y wybodaeth sy'n cael ei throsglwyddo iddynt gan asiantaethau eraill cyn i achosion ymddangos ger eu bron.

Cynnig dewis iaith

O ystyried ei brofiad helaeth, mae'n teimlo'n sicr nad yw'n arfer i'r heddlu gynnig dewis iaith i'r rheiny sy'n ymddangos o'i flaen. Yn wir, mae eu harferion arferol yn golygu eu bod yn arwain siaradwyr Cymraeg i roi tystiolaeth yn Saesneg fel mater o drefn. Caiff hyn ei ddwysáu gan y ffaith bod nifer o siaradwyr Cymraeg cyffredin - gan gynnwys y plismyn eu hunain - yn teimlo'n ddihyder ynghylch defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol, yn enwedig Cymraeg ysgrifenedig.

Mae CCJ 1 o'r farn bod angen codi hyder swyddogion a staff yr heddlu i ddefnyddio'r Gymraeg, ac annog y cyhoedd i ddefnyddio'u Cymraeg llafar bob dydd â hyder wrth gyfathrebu â'r heddlu a'r llysoedd. Un llwybr hyfforddiant defnyddiol fyddai hyfforddi plismyn i gymryd datganiadau yn Gymraeg mewn modd hyderus gan roi anogaeth i'r sawl sydd am ddefnyddio Cymraeg. Yr her, mae'n teimlo, yw normaleiddio'r defnydd o Gymraeg, a sicrhau nad yw arfer y dewis i ddefnyddio Cymraeg yn achosi unrhyw helynt, oedi, triniaeth neilltuoel na 'darpariaeth arbennig'. Mae'n teimlo y gallai gwersi gael eu dysgu o'r modd y mae heddlu Canada yn ymdrin â Ffrangeg a Saesneg.

Er gwaethaf y gwendidau presennol, cyfeiriodd CCJ 1 at ei brofiad diweddar o gynnal achos troseddol amlwg, bron yn llwyr trwy gyfrwng y Gymraeg mewn Llys y Goron yng Ngogledd-orllewin Cymru. Er bod yr achos wedi amlygu rhai gwendidau penodol yn y system, roedd wedi profi'r ddarpariaeth ddwyieithog bresennol i'r eithaf ac roedd y system wedi gallu ymateb yn effeithiol.

Mae'n amlwg bod sensitifrwydd CCJ 1 at faterion iaith yn cael ei ategu gan ei ddi-ddordeb personol ynddynt ac mae hyn yn ei dro yn dylanwadu ar y dull anffurfiol a greddfol y mae'n ei fabwysiadu wrth ddelio â siaradwyr Cymraeg sy'n dod gerbron ei lysoedd. Serch hynny, prin yw'r cyfarwyddyd neu'r arweiniad ffurfiol sy'n dylanwadu ar yr arferion sy'n cael eu gweithredu gan farnwyr Llys y Goron yn gyffredinol er mwyn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu trin mewn modd sy'n briodol o safbwynt diwylliannol. Er y caiff ei gydnabod nad oes gan farnwyr rôl ffurfiol i'w chwarae yn y broses gychwynnol o gynnig dewis iaith a'i gofnodi, nid yw'r disgwyliadau ffurfiol isel sydd gan farnwyr o'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Llysoedd yn hyn o beth yn ffafriol i wella dewis iaith a'i wneud yn rhan annatod o'r system cyn i achosion ddod ger bron y llysoedd.

Nododd CCJ 1 nad yw gofynion unrhyw Gynllun Iaith Gymraeg yn berthnasol i Farnwyr Llys y Goron ond bod Cyfarwyddiadau Ymarfer wedi cael eu rhoi iddynt ar

agweddau penodol ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y llysoedd. Yn wir, mae'r Cyfarwyddyd Ymarfer y cyfeirir atynt yn atodiadau i Gynllun statudol Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, ac yn ffurfio rhan o'r cynllun hwnnw. Mae'r ffaith nad oedd CCJ 1 wedi cysylltu'r Cyfarwyddyd Ymarfer i farnwyr ag unrhyw Gynllun iaith yn awgrymu bod lle i wella ymwybyddiaeth y farnwriaeth o Gynllun Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi. Gallai hyn, yn ei dro, wella'r cyswllt rhwng y farnwriaeth a phrif ffrwd y gwaith cynllunio iaith sy'n datblygu drwy'r amser ym maes gwasanaethau cyhoeddus.

Camau gweithredu ar gyfer Barnwriaeth Llys y Goron Gogledd Cymru a Chaer

- Dylai barnwyr Llys y Goron sy'n gweinyddu yng Nghymru gael hyfforddiant, sesiynau briffio ac arweiniad priodol trwy'r Bwrdd Astudiaethau Barnwrol a/neu Wasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi ar ofynion perthnasol unrhyw Gynlluniau iaith sy'n ymwneud â chynnig, cofnodi a hwyluso dewis iaith tystion a diffynyddion a rhannu gwybodaeth am y dewis iaith hwnnw.
- Dylid adolygu a diwygio'r Cyfarwyddiadau Ymarfer ar gyfer barnwyr yn llysoedd Cymru yn unol â'r arferion gorau cyfredol.

Tabl 10: Gwybodaeth a ddarparwyd gan Farnwr Llys y Goron	
Yr agweddau a archwiliwyd	Crynodeb o'r ymateb a gafwyd i'r cyfweiliad/cyfweiliadau
Natur yr ymrwymadau statudol/gwirfoddol i gynnig dewis iaith	Mae'r Gwasanaeth Llysoedd yn gweithredu Cynllun iaith Gymraeg statudol, ond nid oes Cynllun sy'n ymdrin yn benodol â dyletswyddau barnwyr.
Canllawiau gweithredu	Oes - ar ffurf Cyfarwydd Ymarfer sy'n disgwyl i farnwyr ofyn i reithwyr a thystion a fyddent yn hoffi tyngu llw yn Gymraeg neu Saesneg.
Staff sy'n siarad Cymraeg/sy'n dysgu Cymraeg	Ceir nifer annigonol ar hyn o bryd. Mae Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi yn ceisio cynyddu nifer y staff dwyieithog. Nid oes gan farnwyr unrhyw wybodaeth flaenorol ynghylch gallu swyddogion y llys i weithredu'n ddwyieithog, ac nid ydynt yn derbyn gwybodaeth i'r perwyl hwn. Mae gan CCJ 1 ychydig o wybodaeth oherwydd ei ddiddordeb personol yn y mater hwn.
Sesiynau hyfforddi/briffio	Mae barnwyr yn cael hyfforddiant gan y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol ac maent wedi cael eu briffio ar y cyfarwyddiadau ymarfer y cyfeiriwyd atynt uchod. Fodd bynnag, ni ddarperir hyfforddiant penodol ynghylch cynnig dewis iaith, oherwydd nid cyfrifoldeb y barnwyr yw cynnig dewis iaith; yn hytrach maent yn ymateb i'r dewis sy'n cael ei bennu cyn i unigolyn ymddangos yn y llys.
Gwasanaeth cyfieithu	Ar gael pan wneir trefniadau ymlaen llaw, ond ceir oedi yn y ddarpariaeth os nad oes rhybudd yn cael ei roi.
Cyllideb ar gyfer	Heb fod yn ymwybodol o unrhyw gyllideb benodol, ond

gweithredu'n ddwyieithog	nid yw cael adnoddau ar gyfer darpariaeth ddwyieithog fyth yn broblem.
Natur y cyswllt cyntaf	Mae'r cyswllt cyntaf yn digwydd yn y llys fel rheol, heb fod unrhyw gyswllt blaenorol gyda thyst neu ddiffynnydd. Yr unig eithriadau yw unigolion y tybir eu bod o dan anfantais posibl (e.e. plant, y bydd y barnwr, o bosibl, yn cyfarfod â nhw cyn iddynt ymddangos yn y llys).
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt llafar (e.e. ffôn, wyneb yn wyneb, cyfarfodydd)?	Amherthnasol. Mewn sefyllfaoedd llys, mae dull anffurfiol, 'greddf'ol yn aml yn gweithio'n well. Mae o leiaf 50% o'r achosion yng Ngwynedd yn cael eu cynnal yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae'r atebydd yn teimlo pe bai dewis iaith yn cael ei gynnig yn ffurfiol, y byddai nifer o dystion a diffynnyddion yn dewis Saesneg. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio'r dull anffurfiol os nad yw Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi darparu erlynwyr sy'n siarad Cymraeg.
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt ysgrifenedig?	Caiff y datganiad ei roi yn Saesneg fel rheol, a chaiff hyn ei gymryd fel arwydd o ddewis iaith. Fodd bynnag, mae'r atebydd yn cadarnhau hynny fel rheol trwy ymgynghori â'r heddlu.
A gofnodir dewis iaith? Sut?	Hyd y gŵyr yr atebydd, nid oes cofnod yn cael ei gadw ar ôl unrhyw gofnod a allai gael ei ddefnyddio yn y llys.
A yw'r cofnod o ddewis iaith ar gyfer cyswllt dilynol yn cael ei rannu ag eraill o fewn yr asiantaeth?	Nid yw'n berthnasol unwaith y daw achos i ben.
A yw'r cofnod o ddewis iaith yn cael ei rannu ag asiantaethau eraill? Sut?	Mae'r atebydd yn deall bod disgwyl i'r heddlu wneud y cofnod gwreiddiol o ddewis iaith ac yna trosglwyddo'r cofnod i Wasanaeth Erlyn y Goron. Dylai Gwasanaeth Erlyn y Goron, yn ei dro, sicrhau bod y cofnod yn cael ei drosglwyddo i'r llys. Fodd bynnag, hyd y gŵyr yr atebydd, nid oes cyfrifoldeb ar y llys i drosglwyddo cofnod o'r fath ymhellach, e.e. i garchar neu ganolfan gadw. Felly, nid yw cofnodion yn cael eu trosglwyddo ymhellach na'r llys.

Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru

Mae Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru yn un o bedwar Gwasanaeth Prawf sy'n gweithredu yng Nghymru ac mae'n delio â throeddwy'r o'u hymddangosiad cyntaf gerbron llys hyd at yr adeg pan fydd eu dedfryd wedi dod i ben. Mae'n gweithredu'n unol â safonau cenedlaethol ac mae'n atebol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'n gweithredu yn y llysoedd, mewn carchardai ac yn y gymuned.

Yn y llysoedd, mae'n cynnig cyngor arbenigol ar ddewisiadau dedfrydu. Mae'n gweithio gyda charcharorion hefyd yn ystod cyfnod eu dedfryd ac ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, ac mae'n goruchwyllo troseddwy'r sydd wedi cael Gorchymyn Cymunedol.

Cynnig dewis iaith

Ym marn yr atebydd, mae angen gweithio'n barhaus i godi ymwybyddiaeth am faterion ieithyddol o fewn y gwasanaeth, gyda'r bwriad o annog staff i sicrhau eu bod yn cynnig dewis go iawn.

Un rhwystr sylweddol rhag darparu gwasanaeth rhwydd ac effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg yw'r rhaglenni a ddarperir ar gyfer troseddwy'r gan y Gwasanaeth canolog i Gymru a Lloegr, h.y. rhaglenni sydd i'w dilyn ar orchymyn y Llys (e.e. ar Drais yn y Cartref, Troseddau Rhyw, Sgiliau Meddwl, ac ati). Rhaglenni uniaith Saesneg yw'r rhain. Mae'r Gwasanaeth yn ceisio cyfieithu rhai ohonynt, ond mae hyn yn dreth ar adnoddau lleol. Mae'r ardaloedd yng Nghymru wedi cyfieithu 'Sgiliau Meddwl Uwch' ac mae'r weinyddiaeth ganolog ar gyfer Cymru a Lloegr wedi cyfieithu 'One to One' ac mae wrthi'n cyfieithu'r cwrs *Drink Impaired Drivers*. Yn gyffredinol, mae'n anodd i droseddwy'r ddilyn rhaglen yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff rhai rhaglenni eu cyflwyno'n ddwyieithog.

Rhwyrstr arall yw'r system gyfrifiadurol ar gyfer asesu risg – system a ddarparwyd ar gyfer Cymru a Lloegr ydyw ac sy'n gweithredu yn Saesneg yn unig. Ymhlith y manylion a gofnodir mae '*Language other than English*' – sy'n rhagdybio felly mai Saesneg yw'r iaith arferol.

Camau gweithredu ar gyfer Gwasanaeth Prawf Gogledd Cymru

- Dylid darparu rhaglen dreigl a pharhaus o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i'r holl staff
- Dylid ffurfioli'r weithdrefn a ddefnyddir ar gyfer mynd ati'n rhagweithiol i gynnig dewis iaith i ddefnyddwy'r ar gyfer cyswllt llafar, a'r weithdrefn ar gyfer cofnodi'r dewis hwnnw a rhannu'r wybodaeth yn ffurfiol yn fewnol ac â phartneriaid, er mwyn sicrhau ymateb priodol a dilyniant priodol yn newis iaith y defnyddiwr gwasanaeth.
- Dylid pwysu'n gryf ar Wasanaeth Prawf Cymru a Lloegr a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i fabwysiadu a dilyn yr arfer dwyieithog gorau wrth gyfathrebu â'r Gwasanaeth Prawf yng Nghymru a darparu ar ei gyfer.

- o Dylid galw ar Fwrdd yr Iaith Gymraeg i ddwyn pwysau ar yr uchod er mwyn hwyluso gweithredu effeithiol, effeithlon a diwylliannol briodol yng Nghymru.

Tabl 11: Gwybodaeth a ddarparwyd gan Wasanaeth Prawf Gogledd Cymru	
Yr agweddau a archwiliwyd	Crynodeb o'r ymateb a gafwyd i'r cyfweiliad/cyfweiliadau
Natur yr ymrwymadau statudol/gwirfoddol i gynnig dewis iaith	- Cynllun Iaith Gymraeg - Polisi mewnol yn egluro hawliau staff i ddefnyddio'r iaith o'u dewis yn y gweithle.
Canllawiau gweithredu	Canllawiau manwl ar weithredu'r Cynllun Iaith, gan gynnwys cyfarwyddyd ar gynnig dewis iaith adeg y cyswllt cyntaf.
Staff sy'n siarad Cymraeg/sy'n dysgu Cymraeg	Mae 30% o'r staff yn gallu siarad Cymraeg (Medi 2007). Y nod yn y Cynllun Iaith yw 37% (er mai 35% yw'r nod yn y Cynllun Busnes). Mae chwe aelod o staff yn dysgu Cymraeg, 5 yn ystod oriau gwaith ac 1 gyda'r nos.
Sesiynau hyfforddi/briffio	Mae staff newydd yn cael hyfforddiant ar amrywiaeth yn rhan o'u hyfforddiant sefydlu – mae hyn yn cynnwys 2 awr ar y Gymraeg. Mae'r staff newydd i gyd yn mynychu Cwrs Ymwybyddiaeth hefyd, mae'r cwrs yn para 2 ddiwrnod ac yn cael ei gynnal gan ddarparwr allanol. Mae'r Llawlyfr newydd i staff yn cynnwys gwybodaeth am y Gymraeg hefyd.
Gwasanaeth cyfieithu	Mae cytundeb aml-asiantaeth wedi'i sefydlu i sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu cyflym, effeithlon ac effeithiol ar gael. Caiff gwasanaeth cyfieithu ei ddarparu yng nghyfarfod y Bwrdd a'r Pwyllgor Staff os oes rhywun di-Gymraeg yn bresennol yn yr olaf.
Cyllideb ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog	Cyllideb cyfieithu : £15,000 Cyllideb hyfforddiant Cymraeg : £6,000 (sef 10% o'r gyllideb gyffredinol ar gyfer hyfforddiant).
Natur y cyswllt cyntaf	<u>Yn y llys</u> – mae Swyddog Dyletswydd Llys y Gwasanaeth yn rhoi adroddiad ar gleient ar y pryd, neu mae'n cael cais i baratoi un cyn pen 5 diwrnod, dyweder. Yna mae'r Swyddog yn cyfarfod â'r person dan sylw <u>Yn y carchar</u> – mae swyddog yn dod i adnabod carcharor yn ystod ei gyfnod yn y carchar.
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt llafar (e.e. ffôn, wyneb yn wyneb, cyfarfodydd)?	Wrth ddechrau trafod ag unigolyn, mae'r wybodaeth sy'n cael ei chofnodi'n cynnwys cwestiwn am ddewis iaith.

<p>A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt ysgrifenedig?</p>	<p>Mae'n ofynnol i staff gynnig dewis iaith a'i gofnodi ar ffurflen y Gwasanaeth, p'un a yw'r cyswllt cyntaf yn digwydd yn y llys neu yn y carchar. Mae llawer o'r defnyddwyr sy'n siarad Cymraeg yn ystyried bod y system gyfiawnder yn un Seisnig, ac maent yn fwy parod i ofyn am ddogfennau Saesneg yn hytrach na rhai Cymraeg.</p>
<p>A gofnodir dewis iaith? Sut?</p>	<p>Mae'r ffurflen yn gofyn am gofnod o ddewis iaith, ond weithiau nid yw'r staff yn cwblhau'r cofnod. Mae'r cofnod yn gwahaniaethu rhwng cyswllt llafar a chyswllt ysgrifenedig – mae rhai unigolion yn dymuno siarad Cymraeg mewn cyfweiliad ond yn dymuno cael yr adroddiad yn Saesneg. Mae angen gwella'r modd y caiff hyn ei fonitro a'i gofnodi ar gyfrifiadur.</p> <p>Delio â rhai achosion sy'n cael eu cyfeirio gan y Llys, gyda'r Llys yn nodi dewis iaith yr unigolyn - ond nid yw hynny'n digwydd bob tro, felly mae swyddogion y Gwasanaeth yn cadarnhau hyn, yn unol â'r canllawiau sydd ganddynt.</p>
<p>A yw'r cofnod o ddewis iaith ar gyfer cyswllt dilynol yn cael ei rannu ag eraill o fewn yr asiantaeth?</p>	<p>Cofnodir y wybodaeth ar ddwy system. (i) Caiff cofnod electronig ei wneud sy'n cael ei rannu'n fewnol. Caiff y cofnod hwn ei ddefnyddio wrth drosglwyddo gwybodaeth i asiantaethau eraill; (ii) system asesu risg uniaith Saesneg ar gyfer 'Cymru a Lloegr', lle mae '<i>Language other than English</i>' yn cael ei gofnodi. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu ag ardaloedd eraill.</p>
<p>A yw'r cofnod o ddewis iaith yn cael ei rannu ag asiantaethau eraill? Sut?</p>	<p>Mae'r cofnod yn rhan o'r wybodaeth sy'n cael ei throsglwyddo am yr unigolyn. Yn aml, ffurflen yr asiantaeth arall sy'n cael ei llenwi, ac mae'n dibynnu ar y cyfle sy'n cael ei ddarparu ar y ffurflen honno. Serch hynny, dylai'r cofnod gael ei drosglwyddo.</p>

Y Timau Troseddau Ieuenctid yng Ngogledd Cymru

Mae'r Timau Troseddau Ieuenctid (TTI) yn cynnwys cynrychiolwyr o ystod eang o asiantaethau sy'n cynnwys: cynrychiolwyr o'r heddlu, y Gwasanaeth Prawf, y gwasanaethau cymdeithasol, y sector iechyd, y sector addysg, gwasanaethau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol a swyddogion tai. Mae'r Timau'n adnabod anghenion pob troseddwr ifanc a throseddwr ifanc posibl trwy ei asesu yn ôl fframwaith asesu cenedlaethol. Mae'r asesiad yn dangos y problemau penodol sy'n peri i berson ifanc droseddu, ac yn mesur y risg y mae'n ei pheri i eraill. Mae'r tîm yn adnabod rhaglenni addas i fynd i'r afael ag anghenion y person ifanc gyda'r bwriad o'i atal rhag troseddu eto. Caiff pob tîm ei reoli gan reolwr Tîm Troseddau Ieuenctid, sy'n gyfrifol am gydlynw gwaith y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn lleol. Mae'r Timau'n atebol i Fwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr, sydd yn ei dro yn atebol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae gwaith y Timau'n ymwneud yn bennaf â'r meysydd canlynol:

- Atal troseddau, pan gredir bod person ifanc mewn perygl o droseddu;
- Gweithio gyda phobl ifanc i'w hatal rhag cael eu dwyn gerbron Llys – e.e. ar ôl i berson ifanc gyflawni ei drosedd cyntaf/ail drosedd a chyfaddef ei fod yn euog, neu os yw'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol;
- Gwaith yn ymwneud ag achosion Llys – wedi i berson ifanc gael ei gyhuddo ar ôl cyflawni mwy o droseddau, neu os caiff ei gyhuddo o drosedd mwy difrifol.

Tîm Troseddau Ieuencid Gwynedd a Môn

Mae Tîm Troseddau Ieuencid Gwynedd a Môn yn gweithio o'i swyddfeydd yn y Felinheli, gan ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc o 8 i 18 oed yn y ddwy sir, sef Gwynedd ac Ynys Môn.

Cynnig dewis iaith

Mae'r Tîm hwn yn gyfrifol am yr ardal fwyaf Cymraeg yng Ngogledd Cymru. Ffoniwyd y tîm chwe gwaith, a rhoddwyd cyfarchiad dwyieithog bob tro gan y person a oedd yn gweithio ar y switsfwrdd, a chafwyd ymateb yn Gymraeg i'r ymholiadau a wnaethom yn Gymraeg. Ceir awyrgylch Cymraeg yn swyddfa'r Tîm ac mae ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg yn rhan annatod o ddiwylliant mewnol y Tîm.

Fel y Timau eraill, mae'r Tîm hwn yn atebol i Fwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr. Mae'r rhan fwyaf o'r dogfennau a ddaw i'r Tîm o'r Bwrdd yn uniaith Saesneg – e.e. dogfennau cyfarwyddyd, taflenni ac ati. Mae cyfieithu'r testunau hyn i'r Gymraeg yn gosod cryn faich ar adnoddau'r Tîm, ac mae'r gwaith hwnnw'n tynnu sylw'r swyddogion o'u gwaith gyda phobl ifanc.

O ran cynnig dewis iaith, nododd y ddau atebydd y cynhaliwyd cyfweiliadau â nhw bod y cyhoedd yn dal i ystyried y system gyfiawnder yn un Seisnig, ac am resymau hanesyddol maent yn fwy parod i dderbyn gwasanaeth llafar yn Gymraeg na gwasanaeth ysgrifenedig.

O ran trosglwyddo'r cofnod o ddewis iaith, un o bryderon mawr y Tîm yw'r gwasanaethau dilynol a ddarperir i droseddwyr ifanc yn y canolfannau cadw. Mae llawer o bobl ifanc yn cael eu hanfon i Stoke Heath (Market Drayton) ac eraill i Gymbria a Chaint, lle na sefydlwyd unrhyw arferion da o werth ar gyfer delio â siaradwyr Cymraeg. Paratôdd *Atebydd 1* ddwy astudiaeth achos ar yr agweddau hyn. Ceir trafodaeth bellach ar y mater hwn yn yr adran honno o'r adroddiad hwn sy'n edrych ar garchardai a sefydliadau diogel.

O ran darparu adnoddau dwyieithog, ceir ymdeimlad o fewn y tîm, er bod llawer o rethreg yn dod o du Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ynglŷn â'r iaith Gymraeg, ni cheir cyllid i gefnogi'r rethreg. Tynnodd y Rheolwr Strategol blaenorol sylw at hyn. Mae'r diffyg cyllid ar gyfer dwyieithrwydd yn effeithio ar yr holl Dimau ar draws Cymru, a'r lle priodol i fynd i'r afael â'r mater hwn fyddai cyfarfodydd Rheolwyr Timau Cymru, ond teimlir nad yw'r timau eraill yn rhoi llawer o flaenoriaeth i ystyriaethau ieithyddol.

O droi at drefniadau gweithredol y Tîm, teimla *Atebydd 2* fod cynnig dewis iaith yn digwydd ar hap a damwain ac yn dibynnu'n ormodol ar fympwy'r swyddog unigol sy'n digwydd bod yn gweithio gyda'r person ifanc, yn hytrach nag yn ganlyniad i weithdrefn benodol a chyson. Caiff hyn ei ategu gan dystiolaeth y 3 throseddwr ifanc y buom yn cyfweld â nhw (FYO 1,2,3). Roedd pob un o'r tri wedi cael gohebiaeth ysgrifenedig gychwynnol wrth y Timau yn ddwyieithog, ond ni ofynnwyd i'r un ohonynt a fyddai'n well ganddynt gael gwasanaeth Cymraeg neu Saesneg wrth

gyfathrebu â'u gweithwyr achos ar lafar wedi hynny. Gan i'r Swyddogion Tîm gadarnhau nad yw'r cofnod o ddewis iaith bob amser wedi ei lenwi ar y ffurflen sy'n dod oddi wrth y llys, dylai'r cyfrifoldeb fod ar y Tîm i gywiro hynny trwy gadarnhau dewis iaith cleientiaid ar gyfer cyfathrebu ysgrifenedig a chyfathrebu llafar cyn penodi gweithwyr achos. Bydd hynny'n galluogi'r Tîm i ymateb yn briodol.

Pryder arall a fynegwyd gan *Atebydd 2* yw bod dewis iaith, yn aml, yn cael ei gynnig o fewn y Tîm mewn modd rhagdybiaethol - e.e. "*You're OK for speaking English...?*" Ym marn un o'r ddau swyddog a holwyd, mae angen sicrhau bod gan y staff dwyieithog yr hyder a'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg. Caiff hyn ei ategu gan dystiolaeth FYO3, troseddwr ifanc sy'n dewis siarad Cymraeg ac sy'n siarad Cymraeg bob amser wrth gyfathrebu â'i gweithiwr achos. Er bod y gweithiwr achos yn deall Cymraeg llafar ac yn ymwybodol o ddewis iaith FYO3, mae'n siarad Saesneg wrth gyfathrebu â FYO3 am nad oes ganddi hyder yn ei gallu i siarad Cymraeg.

Teimlai'r ddau Swyddog Tîm a holwyd bod angen hyfforddi staff ar y polisi dwyieithrwydd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r polisi ac yn cynnig gwasanaeth o safon gyson, oherwydd bod y staff yn ansicr o'r polisi ar hyn o bryd, a'r modd y dylai gael ei weithredu. Mae'n anochel bod hyn yn arwain at anghysondebau.

Tabl 12: Gwybodaeth a ddarparwyd gan atebwyr a oedd yn cynrychioli Tîm Troseddau Ieuencid Gwynedd a Môn	
Yr agweddau a archwiliwyd	Crynodeb o'r ymateb a gafwyd i'r cyfweiliad/cyfweiliadau
Natur yr ymrwymadau statudol/gwirfoddol i gynnig dewis iaith	<i>Atebydd 1:</i> Cynllun Iaith Gymraeg Cyngor Gwynedd (eglurwyd mai Gwynedd yw'r prif awdurdod noddi). <i>Atebydd 2:</i> fel yr uchod, a Chynllun Iaith Drafft Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr (2006). Ni wyddai'r atebwyr a oedd y cynllun drafft hwn wedi cael ei gymeradwyo eto.
Canllawiau gweithredu	<i>Atebydd 1:</i> Dim. <i>Atebydd 2:</i> Canllawiau staff ar wefan Cyngor Gwynedd.
Staff sy'n siarad Cymraeg/sy'n dysgu Cymraeg	<i>Atebydd 1:</i> Mae aelodaeth y Tîm yn datblygu o hyd. Maint y Tîm = tua 30, yn cynnwys swyddogion o wahanol asiantaethau. O'r rhain, mae 23 yn siarad Cymraeg, mae 2 ar gyrsiau dysgu Cymraeg a'r gweddill yn ddi-Gymraeg.

<p>Sesiynau hyfforddi/briffio</p>	<p><i>Atebydd 1:</i> Dim yn benodol, ond ceir hyfforddiant ar amrywiaeth ac mae'r Gymraeg yn cael ei thrafod yn rhan o hyn. Mae'r Cyngor (Gwynedd) yn darparu sesiynau e-ddysgu ar hyn, a'r bwriad yw sicrhau bod y Tîm i gyd yn dilyn yr hyfforddiant hwn. At hynny, mae hyfforddiant penodol ar ymwybyddiaeth iaith wedi'i fwriadu ar gyfer y dyfodol.</p> <p><i>Atebydd 2:</i> Dim hyfforddiant na sesiynau briffio am Gynllun Iaith Cyngor Gwynedd na Chynllun drafft y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid.</p>
<p>Gwasanaeth cyfieithu</p>	<p><i>Atebydd 1:</i> Mae gwasanaeth ar gael trwy Gyngor Gwynedd, ond oherwydd bod y Gwasanaeth yn rhannol 'y tu allan' i'r Cyngor, nid yw'n cael blaenoriaeth ac weithiau rhaid aros am gyfieithiadau. Mae cyfieithu dogfennau a dderbynnir gan Fwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr yn gryn faich. Caiff gwybodaeth ar ffurflenni cyfeirio ei chyfieithu'n fewnol, ac yn fewnol hefyd y cyfieithir addasiadau i ffurflenni.</p> <p><i>Atebydd 2:</i> Mae gwasanaeth ar gael trwy Gyngor Gwynedd. Caiff cyfarfodydd Tîm eu cynnal yn Saesneg heb gyfieithu, oherwydd bod unigolion di-Gymraeg yn eu mynychu.</p>
<p>Cyllideb ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog</p>	<p><i>Atebydd 1:</i> Dim gwybodaeth fanwl ar gael – yn aros i benodi Rheolwr Strategol newydd a fydd yn gyfrifol am hyn. Mae'n hysbys, fodd bynnag, er bod y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yn dyrannu cyllid ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog (rhyw £2,000 - £3,000 y flwyddyn) nid yw'r dyraniad yn ddigonol nac yn realistig o ystyried faint o waith cyfieithu sy'n ofynnol er enghraifft.</p> <p><i>Atebydd 2:</i> Dim gwybodaeth am hyn.</p>
<p>Natur y cyswllt cyntaf</p>	<p><i>Atebydd 1:</i> Yn hanesyddol mae'r Gwasanaeth wedi delio â throseddwyr, ond gwelwyd cynnydd mawr yn y gwaith sy'n cael ei wneud i atal troseddau. O ran y troseddwyr, mae'r Llys yn cysylltu â'r Tîm ynghylch unigolyn a fydd yn ymddangos ger ei fron, ac yn gofyn am adroddiad, felly mae hyn yn golygu cysylltu â'r person ifanc. Mae aelod o'r Tîm yn llenwi ffurflen a chofnodir dewis iaith yr unigolyn ar y ffurflen honno. Yna, trefnir cyfarfod â'r person ifanc, fel rheol trwy anfon llythyr – a hwnnw'n un dwyieithog.</p> <p><i>Atebydd 2:</i> Derbynnir ffurflen gyfeirio gan y Llys, ac yna mae swyddog o'r Tîm yn ysgrifennu at y person ifanc a'i rieni neu'i warcheidwaid. Mae pob aelod o'r Tîm yn drafftio ei llythyr cychwynnol ei hun. Nid oedd yr ateb ydychydig bod pob llythyr cychwynnol yn ddwyieithog oherwydd nid yw aelodau'r Tîm wedi cael cyfarwyddwyd ar yr agwedd hon.</p>

<p>A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt llafar (e.e. ffôn, wyneb yn wyneb, cyfarfodydd)?</p>	<p><i>Atebydd 1:</i> Ar sail y cofnod dewis iaith (a gofnodwyd gan y Llys), gwneir ymdrech i benodi swyddog sy'n siarad Cymraeg i ddelio â siaradwyr Cymraeg. Nid yw hyn bob amser yn bosibl oherwydd y rota staffio. Fodd bynnag, os yw cleient yn mynegi'n benodol bod yn well ganddo gael gwasanaeth Cymraeg, trefnir bod hynny'n digwydd.</p> <p><i>Atebydd 2:</i> Mae cynnig dewis iaith yn rhan o ddiwylliant y gweithle, ac yn ddisgwyliedig ymysg y Tîm. Fodd bynnag, os yw'r swyddog yn ddi-Gymraeg neu os yw'n well ganddo siarad Saesneg, hwyrach bod y cynnig yn llai tebygol o gael ei wneud gan nad yw'r Tîm wedi cael arweiniad ar hyn.</p>
<p>A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt ysgrifenedig?</p>	<p><i>Atebydd 1:</i> Nid yw adroddiadau'n cael eu hysgrifennu yn Gymraeg fel arfer, oherwydd bod yn well gan siaradwyr Cymraeg gael y dogfennau yn Saesneg fel rheol. Yn aml mae'r Tîm yn delio ag unigolion yn Gymraeg ar lafar ond yn paratoi adroddiadau Saesneg arnynt. Nododd yr atebydd nad oedd ef yn bersonol erioed wedi gweld adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Llys yn Gymraeg.</p> <p><i>Atebydd 2:</i> Fel rheol, mae'r atebydd yn ysgrifennu at unigolion a sefydliadau yn Gymraeg, ac yn gwneud hynny o'i ddewis ei hun. Nid oes system na gweithdrefn mewn lle i sicrhau bod hyn yn digwydd fel mater o drefn. Mae hi bob amser yn cynnig dewis iaith, ond anaml iawn y bydd cleientiaid yn dewis derbyn gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg</p>
<p>A gofnodir dewis iaith? Sut?</p>	<p><i>Atebydd 1:</i> Caiff ei gofnodi ar system <i>Careworks</i> – system sy'n cofnodi manylion ynghylch ethnigrwydd, crefydd, ac ati, ac sy'n cael ei defnyddio i ddarparu gwybodaeth ystadegol i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid. Cedwir cofnod er nad yw'r meddalwedd yn gofyn yn benodol am y Gymraeg, ac mae hyn yn un o ddiffygion y system.</p> <p><i>Atebydd 2:</i> Cofnodir holl fanylion y person ifanc ar system <i>Careworks</i> – ond nid yw'r atebydd yn ffyddiog bod pob swyddog yn cofnodi dewis iaith. O fewn system <i>Careworks</i>, ceir ffurflen benodol ar feddalwedd 'Asset' lle caiff y cwestiwn am ddewis iaith ei gynnwys, ond nid yw'n faes y mae'n rhaid ei ateb. Mae'r ffurflen (uniaith Saesneg, at ddefnydd mewnol yn unig) yn gofyn am '<i>Preferred language (other than English)</i>', ac yn rhagdybio felly mai Saesneg yw'r iaith arferol.</p>

<p>A yw'r cofnod o ddewis iaith ar gyfer cyswllt dilynol yn cael ei rannu ag eraill o fewn yr asiantaeth?</p>	<p><i>Atebydd 1:</i> Caiff y cofnod ei drosglwyddo mewn 2 adroddiad. Mae'r naill yn nodi '<i>Court Outcome</i>' (ffurflen A4 syml yn nodi'r ddedfryd, hyd y gorchymyn, dewis iaith, ac ati). Y llall yw'r '<i>Court Report Request</i>', sy'n gofyn am wybodaeth cyn i'r achos fynd gerbron y Llys. Mae hon hefyd yn nodi dewis iaith.</p> <p><i>Atebydd 2:</i> Dim system ddilynol o fewn y Tîm ar wahân i 'Asset' – ond mae modd i bob aelod o'r Tîm weld y cofnod o ddewis iaith ar y ffurflen honno.</p>
<p>A yw'r cofnod o ddewis iaith yn cael ei rannu ag asiantaethau eraill? Sut?</p>	<p><i>Atebydd 1:</i> Mae'r Tîm yn cysylltu â llawer iawn o wasanaethau eraill sy'n derbyn gwahanol fathau o wybodaeth, a chaiff y wybodaeth hon ei chyfleu ar fathau amrywiol o ffurflenni cyfeirio fel rheol. Creda'r atebydd bod y mwyafrif o'r rhain yn cynnwys cofnod o ddewis iaith, ond bod angen gwneud archwiliad o'r ffurflenni er mwyn sicrhau bod hynny'n nodwedd ar bob ffurflen sy'n cael ei defnyddio.</p> <p><i>Atebydd 2:</i> Mae ffurflen Asset ar gael i bobl eraill mewn asiantaethau eraill, naill ai ar ffurf electronig neu fel copi caled.</p>

Tîm Troseddau Ieuentid Conwy a Sir Ddinbych

Mae Tîm Troseddau Ieuentid Conwy a Sir Ddinbych yn gweithio o'i swyddfeydd ym Mae Colwyn, gan ddarparu gwasanaeth i bobl ifanc o 8 i 18 oed mewn achosion sy'n codi yn y ddwy sir, sef Conwy a Sir Ddinbych.

Cynnig dewis iaith

Ar y ddau achlysur y cysylltwyd â'r gwasanaeth dros y ffôn, roedd y cyfarchiad a gafwyd gan y switsfwrdd yn uniaith Saesneg, a derbyniodd y ddau ymholiad a wnaethom yn Gymraeg ymatebion Saesneg, heb i ni gael cynnig cael ein trosglwyddo i siarad â siaradwr Cymraeg er i ni ddechrau'r sgwrs yn Gymraeg. Pan drosglwyddwyd y galwadau i swyddogion perthnasol, cafwyd cyfarchion uniaith Saesneg gan y ddau swyddog y buom yn siarad â nhw.

Nododd *Atebydd 1* "We don't have a huge demand from Welsh speakers, and don't have occasion to use Welsh often."

Ym marn *Atebydd 1*, roedd angen codi ymwybyddiaeth ynghylch materion ieithyddol o fewn y gwasanaeth, gyda'r bwriad o gynnig dewis go iawn. Cyfeiriwyd at y llythyr cychwynnol uniaith Saesneg sy'n cael ei anfon at bobl ifanc ar hyn o bryd, a'r galwadau ffôn cychwynnol wrth aelodau o'r Tîm sydd hefyd yn cael eu cynnal yn Saesneg yn unig. Teimlai'r swyddog hwn y byddai'n fuddiol pe bai'r holl staff yn dilyn cwrs Cymraeg sylfaenol. Ategwyd y pwyntiau hyn gan *Atebydd 2* a oedd yn teimlo bod angen hyfforddiant a chanllawiau ar staff ar arfer dwyieithog da. Roedd hi wedi cael hyfforddiant ar Gyfle Cyfartal, ond nid oedd yr hyfforddiant hwnnw wedi cynnwys unrhyw gyfeiriad at yr iaith Gymraeg. Ychwanegodd *Atebydd 1* mai'r rhagdybiaeth ar hyn o bryd wrth ddarparu gwasanaeth yw mai Saesneg fydd yr iaith a ddefnyddir. Caiff hyn ei ystyried yn norm, ac nid yw'r staff yn meddwl llawer am fater dewis iaith.

Mae'n amlwg ar sawl cyfrif bod y Tîm yn gweithredu mewn modd sy'n groes i ofynion Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol Conwy a Sir Ddinbych, a Pholisi Cydraddoldebau ehangach y ddau awdurdod (y mae'r Cynllun Iaith yn rhan annatod ohono). Mae'r meysydd lle nad yw'r Tîm yn cydymffurfio â'r gofynion yn cynnwys:

- delio â galwadau ffôn sy'n cael eu derbyn yn Gymraeg
- dechrau galwadau ffôn i aelodau o'r cyhoedd yn Gymraeg
- anfon llythyrau cychwynnol i aelodau o'r cyhoedd yn Gymraeg
- recriwtio a staffio swyddi rheng flaen â siaradwyr Cymraeg.

Tabl 13: Gwybodaeth a ddarparwyd gan atebwyr a oedd yn cynrychioli Tîm Troseddau Ieuencid Conwy a Sir Ddinbych	
Yr agweddau a archwiliwyd	Crynodeb o'r ymateb a gafwyd i'r cyfweiliad/cyfweiliadau
Natur yr ymrwymadau statudol/gwirfoddol i gynnig dewis iaith	<p><i>Atebydd 1:</i> Yn rhan o'r awdurdod lleol ac felly'n dod o dan Gynllun Cyfle Cyfartal a Chynllun Iaith Cyngorau Conwy a Dinbych. Nid oedd yr atebwyd nac unrhyw un arall yn y Swyddfa'n gwybod Cynllun Iaith pa sefydliad sy'n berthnasol i'w gwaith.</p> <p><i>Atebydd 2:</i> Ni cheir polisi ysgrifenedig perthnasol.</p>
Canllawiau gweithredu	<p><i>Atebydd 1:</i> Dim canllawiau wedi'u mabwysiadu. Ddim yn gwybod a oes gan yr awdurdod lleol rai perthnasol.</p> <p><i>Atebydd 2:</i> Dim canllawiau.</p>
Staff sy'n siarad Cymraeg/sy'n dysgu Cymraeg	<p>Yn cyflogi tua 30 o bobl. 5 o'r rheiny'n siaradwyr Cymraeg.</p> <p>Dim staff yn cael hyfforddiant Cymraeg ar hyn o bryd.</p> <p>Mae'r Tîm yn cynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"> - 2 swyddog sy'n gweithredu fel swyddogion llys – y naill ym Mhrestatyn a'r llall yn Llandudno. Mae'r ddau yn ddi-Gymraeg. Mae eu dyletswyddau'n rhan o swyddi ehangach - 2 swyddog o'r Heddlu, y ddau'n ddi-Gymraeg - Swyddog y Ddalfa, sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl ac sy'n ymweld â phobl ifanc yn nalfeydd yr Heddlu neu yn y carchar - Swyddog Cyswllt Dioddefwyr sy'n ddi-Gymraeg - Tîm Atal Troseddau sy'n cynnwys 3 swyddog, 1 o'r rhain yn deall Cymraeg ond heb fod yn rhugl <p>Yn ôl <i>Atebydd 1</i>, wrth recriwtio, eu polisi yw rhagdybio bod y Gymraeg yn hanfodol, ac os na chytunir â hynny rhaid iddynt gyfiawnhau eu safbwynt â rhesymau cryf. Gofynnwyd i <i>Atebydd 1</i> a oedd y Gwasanaeth wedi ystyried y gallai sgiliau Cymraeg fod yn hanfodol ar gyfer swyddogaeth y swyddogion llys. Dywedwyd nad oeddent yn tybio bod hynny'n briodol am mai rhan yn unig o swydd ehangach oedd y swyddogaeth honno.</p> <p>Gofynnwyd i <i>Atebydd 2</i> sut y mae'r Tîm Atal Troseddau'n gallu darparu gwasanaeth Cymraeg heb unrhyw siaradwyr Cymraeg yn eu plith. Dywedodd y byddent yn gofyn i un o'r swyddogion Cymraeg o dîm arall ddarparu gwasanaeth ar eu rhan pe bai angen gwneud hynny, ond ni fu galw am wasanaeth Cymraeg ers iddi gael ei phenodi lai na blwyddyn yn ôl.</p>

<p>Sesiynau hyfforddi/ briffio</p>	<p><i>Atebydd 1:</i> Mae pob swyddog newydd yn cael hyfforddiant sefydlu ac yn cael gwybod am y polisi. Mae gwybodaeth am hyfforddiant Cymraeg yn cael ei chynnig yn rheolaidd. <i>Atebydd 2:</i> Ni dderbyniwyd unrhyw hyfforddiant ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg (mae'r atebydd hwn wedi bod yn ei swydd ers llai na blwyddyn).</p>
<p>Gwasanaeth cyfieithu</p>	<p><i>Atebydd 1:</i> Ar gael o'r Uned Gyfieithu ym Mhencadlys Cyngor Conwy, Bodlondeb. Y prif bethau sy'n cael eu cyfieithu yw: hysbysebion recriwtio, disgrifiadau swydd. Ni chaiff unrhyw beth ei gyfieithu ar gyfer agweddau'n ymwneud â darparu gwasanaeth. Mae staff mewnol yn ymgymryd ag ychydig o'r gwaith cyfieithu mwy anffurfiol. <i>Atebydd 2:</i> Nid yw'r mater hwn wedi codi gan nad oes unrhyw un wedi gofyn am wasanaeth Cymraeg.</p>
<p>Cyllideb ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog</p>	<p>Dim cyllideb benodol na chôd cyllideb. Caiff y rhan fwyaf o'r costau eu trin fel 'costau recriwtio' gan fod y rhan fwyaf o'r gwaith cyfieithu'n ymwneud â deunydd recriwtio.</p>
<p>Natur y cyswllt cyntaf</p>	<p><i>Atebydd 1:</i> (i) Ymweliad â'r cartref, galwad ffôn neu llythyr gan y Tîm yn gofyn iddynt ddod i'r Swyddfa. (ii) Y Llys yn eu cyfeirio at y tîm, ac mae'r cyswllt cyntaf yn cael ei wneud yn y Llys, gydag un o'r 2 swyddog llys (sy'n ddi-Gymraeg) <i>Atebydd 2:</i> Galwad ffôn yn Saesneg gan aelod o'r Tîm (Atal Troseddau). Wedi hynny caiff taflen ddwyieithog ei hanfon at y cleient</p>
<p>A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt llafar (e.e. ffôn, wyneb yn wyneb, cyfarfodydd)?</p>	<p><i>Atebydd 1:</i> Ni chynigir dewis iaith wrth gysylltu trwy lythyr na dros y ffôn (mae'r llythyr cychwynnol yn cael ei anfon yn uniaith Saesneg fel rheol). Ond yn rhan o'n hasesiad, nodir ethnigrwydd a dewis iaith. Mae pobl ifanc dan 16 oed bob amser yn cael oedolyn i'w goruchwylio, a chânt gynnig dewis iaith bob tro (h.y. hyd yn oed cyn gweld yr Heddlu, mae ein swyddog yn gofyn cyfres o gwestiynau lles - gan gynnwys dewis iaith). <i>Atebydd 2:</i> Na – Saesneg yw iaith yr alwad gyntaf oherwydd mai Saesneg yw iaith gyntaf pob aelod yn y Tîm Atal Troseddau</p>
<p>A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt ysgrifenedig?</p>	<p><i>Atebydd 1:</i> Mae'r ymateb (uchod) ynglŷn â dewis iaith yn cynnwys hyn hefyd - wrth siarad â nhw, rydym yn gofyn a hoffem nhw dderbyn unrhyw ddeunydd yn Gymraeg <i>Atebydd 2:</i> Nid yw'r llythyr cyntaf yn ddwyieithog, ac nid yw'n cynnig dewis iaith ychwaith, ond mae'r daflen a anfonir gydag ef yn ddwyieithog.</p>
<p>A gofnodir dewis iaith? Sut?</p>	<p><i>Atebydd 1:</i> Ar ein ffurflenni – ar gyfer ein sylw ni yn fewnol ac ar gyfer sylw'r Heddlu. Mae'r Heddlu'n cofnodi hyn ar eu system nhw hefyd <i>Atebydd 2:</i> Gall cofnod gael ei wneud mewn cyfarfod wyneb yn wyneb, ond byddai unrhyw ddewis yn cael ei gynnig yn Saesneg yn unig</p>

<p>A yw'r cofnod o ddewis iaith ar gyfer cyswllt dilynol yn cael ei rannu ag eraill o fewn yr asiantaeth?</p>	<p><i>Atebydd 1:</i> Mae'r Adain Weinyddol yn rhoi'r wybodaeth yn ein cronfa ddata (gyda manylion am ryw, dyddiad geni, risgiau, ac ati). Gallwn ychwanegu blwch i gofnodi'r dewis ar gyfer cyswllt llafar ac ysgrifenedig. Fodd bynnag, nid ydym yn cael llawer o siaradwyr Cymraeg yn mynd trwy'r system</p> <p><i>Atebydd 2:</i> Cofnodir pob mater sy'n cael ei drafod â'r cleient, gan gynnwys dewis iaith os bydd y cleient yn codi hynny (ond nid oes unrhyw gleient wedi codi'r mater)</p>
<p>A yw'r cofnod o ddewis iaith yn cael ei rannu ag asiantaethau eraill? Sut?</p>	<p><i>Atebydd 1:</i> Wrth gyfeirio unigolyn at asiantaeth arall, caiff gwybodaeth am ddewis iaith ei throsglwyddo – ar ffurflen gyfeirio fel rheol. Gwneir hynny dros y ffôn ar adegau eraill. Nid oes cofnod bob tro bod hyn wedi digwydd, os nad yw ar y ffurflen (ffurflen yr asiantaeth arall fel rheol) Os nad oes blwch priodol, rydym yn ychwanegu'r wybodaeth ar y gwaelod mewn llawysgrifen.</p> <p><i>Atebydd 2:</i> Pe bai'r cleient yn gofyn am ddewis iaith byddem yn cofnodi hyn yn ein dogfennau cyfeirio.</p>

Tîm Troseddau Ieuencid Sir y Fflint

Mae Tîm Troseddau Ieuencid Sir y Fflint yn gweithio o'i swyddfeydd yn yr Wyddgrug, ac mae'n gwasanaethu pobl ifanc o 8 i 18 oed yn ardal yr awdurdod lleol sy'n cael ei gwmpasu gan Gyngor Sir y Fflint.

Cynnig dewis iaith

Gwnaethom nifer o alwadau i swyddfa'r Tîm yn yr Wyddgrug. Atebwyd rhif y dderbynfa yn Saesneg yn unig bob tro, heb gynnig trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg pan wnaethom ein hymholiad yn Gymraeg. Cafodd galwadau i linell uniongyrchol person yr oeddem yn gwybod ei fod yn siarad Cymraeg eu hateb yn Saesneg hefyd, gyda'r geiriau, "Youth Justice Service", er y deliwyd â'r galwadau yn Gymraeg wedi hynny. Dros y ffôn o leiaf, nid yw Tîm Troseddau Ieuencid Sir y Fflint yn rhoi'r argraff ei fod yn croesawu ac yn annog cyswllt yn y Gymraeg.

O'r 30 aelod o'r Tîm yn Sir y Fflint, mae 3 aelod o staff yn siarad Cymraeg sef y Swyddog Llys ac Ailsefydlu, Swyddog y Rhaglen Goruchwyliaeth a Gwylidwriaeth Ddwys, a'r Cydlynnydd Rhianta. Yn ôl *Atebydd 1*, mae dogfennau sy'n cael eu cynhyrchu'n fewnol yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg ac mae'r ffurflenni sy'n cael eu defnyddio yn rhan o gofnod person ifanc yn cynnwys cwestiwn ar ddewis iaith. Roedd *Atebydd 1* yn teimlo hefyd, gan nad oes lawer o alw am ddefnyddio'r Gymraeg ymysg pobl ifanc y sir, bod y system yn "gweithio'n dda iawn yma, mae pobl ifanc bob amser yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg".

Os yw person ifanc yn cael ei adnabod fel siaradwr Cymraeg, yna bydd ei achos yn cael ei roi i aelod o staff y Tîm sy'n siarad Cymraeg os yw hynny'n bosibl. Er enghraifft, cafodd y swyddog llys ac ailsefydlu sydd fel arfer yn delio â gwaith cyn achosion llys ac achosion mechnïaeth ei benodi i wneud gwaith Gorchymyn Llys ar ôl achos llys gyda pherson ifanc sy'n siarad Cymraeg er mwyn bodloni anghenion ieithyddol y person ifanc hwnnw. Dywedodd y swyddog wrthym fod defnyddio Cymraeg yn "helpu pethau 'mlaen pan dach chi'n datblygu perthynas gyda rhywun mae'n gwneud y berthynas yn well wrth siarad Cymraeg".

Yn ôl *Atebydd 1*, mae achosion lle mae person ifanc yn dymuno gwneud popeth yn Gymraeg yn Sir y Fflint yn "anghyffredin iawn, iawn, iawn". Mewn un achos, teimlwyd bod cais un person ifanc i dderbyn llythyrau yn Gymraeg "yn ddim byd mwy nag ymgais i fod yn ddoniol". Yn gyffredinol, nid yw'r tîm yn dod ar draws ceisiadau i ddefnyddio'r Gymraeg.

Dywedodd *Atebydd 2*, er enghraifft, mai dau achos yn unig y mae wedi dod ar eu traws lle'r oedd y person ifanc a fynychodd y llys yn siarad Cymraeg fel ei brif iaith gydag aelodau o'r teulu yn y cartref. Dywedodd y droseddwrraig ifanc sy'n siarad Cymraeg y cynhaliwyd cyfweiliad â hi ei bod yn teimlo ei bod yn bwysig bod pobl fel hi, sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, yn cael cynnig y cyfle i siarad Cymraeg, hyd yn oed mewn ardal fel Sir y Fflint lle nad yw nifer y bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg mor uchel ag y mae mewn rhannau eraill o Gymru.

“Ond dyle nhw dal offro ti cael siarad Cymraeg [yn Sir y Fflint] Wel, os mae’n iaith gyntaf pobl, fydd pawb eisiau neud o’n ei iaith ei hun. Dweud bod rhywun yn Polish a mae nhw di neud rwbeth, a mae nhw eisiau fo yn Polish, wedyn oherwydd mai dyna ydi iaith gynta nhw, bydd nhw’n gallu neud o’n Polish. So dwi’n gallu deud bo fi eisiau neud o’n Gymraeg achos mai dyna ydi’n iaith gyntaf i.” (FYO4)

Dyweddodd y person ifanc hwn y byddai bob amser yn dewis siarad Cymraeg yn hytrach na Saesneg pan gai’r dewis. Yn ei hachos hi, nid oedd wedi cael y dewis hwn yn y rhan fwyaf o’i hymwneud â’r heddlu, y llysoedd a’r gwaith cyn mynd i’r llys gyda’r Tîm Troseddau leuenctid. Rhoddodd sgôr o 0 allan o 10 i heddlu Sir y Fflint am beidio â rhoi’r cyfle iddi siarad Cymraeg er eu bod yn gwybod mai Cymraeg oedd ei hiaith gyntaf; roedd y llys (yn yr Wyddgrug) yn haeddu 1 allan o 10, gan nad oedd wedi cael y cyfle i siarad Cymraeg o gwbl pan aeth gerbron y llys, ond bod swyddog Llys y Tîm Troseddau leuenctid wedi siarad Cymraeg â hi pan welodd hi’n siarad Cymraeg â’i mam. Rhoddodd 3 neu 4 allan o ddeg i’r gwaith gyda Thîm Troseddau leuenctid Sir y Fflint cyn yr achos llys oherwydd mai o bryd i’w gilydd yn unig yr oedd swyddog sy’n siarad Cymraeg yn bresennol. Ar ôl yr achos llys, teimlai fod y Tîm Troseddau leuenctid yn haeddu 9 allan o 10 oherwydd bod aelod o staff sy’n siarad Cymraeg wedi cael ei benodi iddi a’i bod yn gallu siarad Cymraeg â hi.

Nid yw gwaith Gorchymyn Llys gyda throseddwr ifanc yn gallu cael ei gynnal yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’r taflenni gwaith, y llyfrau, y DVDs a’r deunyddiau ar gyfer gwaith Gorchymyn Llys o’r fath yn cael eu tynnu o nifer o ffynonellau o fewn y Cyngor Sir (e.e. iechyd, tai, addysg), mudiadau gwirfoddol annibynnol (e.e. NACRO), y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a’r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid. Yn ôl *Atebydd 2*, mae’r holl ddeunyddiau hyn yn cael eu cynhyrchu yn Saesneg – felly, mae gweithio gyda throseddwr ifanc sy’n siarad Cymraeg yn tueddu i olygu siarad Cymraeg, a gwneud gwaith ysgrifenedig ac ati yn Saesneg. I’r droseddwr ifanc y buom yn siarad â hi, roedd gallu siarad Cymraeg â staff y Tîm Troseddau leuenctid yn bwysicach na gallu cael y deunyddiau ysgrifenedig ar gyfer ei gwaith gorchymyn Llys i gyd yn Gymraeg hefyd.

Yn Sir y Fflint, mae’n ymddangos nad yw gwybodaeth am iaith gyntaf person ifanc yn cael ei throsglwyddo i’r Tîm Troseddau leuenctid ar ffurflen hysbysu’r Heddlu. Yn yr un modd, nid yw’r Adroddiad NAIREY, sy’n rhoi manylion am y trosedd, y datganiadau ac ati, yn nodi dewis iaith yr unigolyn. Dywedwyd wrthym nad yw’r Tîm felly’n cael unrhyw arwydd ymlaen llaw o iaith gyntaf neu ddewis iaith troseddwr ifanc cyn mynd i’w gyfarfod yn y llys, sy’n ei wneud yn anodd trefnu bod un o siaradwyr Cymraeg y Tîm yn bresennol pan fo person ifanc sy’n siarad Cymraeg yn ymddangos gerbron y llys. Cafodd hyn ei gadarnhau gan brofiad y droseddwr ifanc a holwyd. Fodd bynnag, mae’n debyg ei bod hi wedi bod mewn cysylltiad â Thîm Troseddau leuenctid Sir y Fflint cyn mynd i’r llys. Mewn achosion o’r fath, dylai cofnod mewnol y Tîm o ddewis iaith troseddwr ifanc gael ei wirio’n rheolaidd i ganfod proffil iaith troseddwr ifanc sy’n ymddangos gerbron y llys. Yn achos y person ifanc a holwyd, cafodd gynnig y cyfle i siarad Cymraeg oherwydd bod aelod o’r Tîm sy’n siarad Cymraeg wedi’i chlywed yn siarad Cymraeg â’i mam yn y llys yn hytrach nag oherwydd bod gweithdrefnau cadw cofnodion y Tîm, yr Heddlu a’r Llys wedi sicrhau bod ei dewis iaith yn hysbys a bod trefniadau priodol wedi’u gwneud ymlaen llaw.

Er bod Tîm Troseddau leuenctid Sir y Fflint yn gallu gwneud yr ymdrech i ddarparu ar gyfer dewis pobl ifanc i siarad Cymraeg ar yr adegau y mae'n codi, a'i fod yn gwneud hynny, mae lefel y ddarpariaeth Gymraeg yn anghyson o gymharu â'r ddarpariaeth sydd ar gael yn Saesneg, a hynny am y rhesymau canlynol:

- Nid yw ffurflenni a deunyddiau'r Bwrdd Cyfiawnder leuenctid ar gael yn Gymraeg
- Mae'r deunyddiau sy'n cael eu defnyddio mewn sesiynau atal troseddau ac ar ôl yr achos llys yn Saesneg
- Mae'r gweithwyr eilaidd sy'n darparu gwasanaethau sydd wedi'u teilwra ar gyfer anghenion troseddwr ifanc yn ddi-Gymraeg fel arfer
- Yr unig lefel o ddarpariaeth Gymraeg y gellir ei disgwyl yn ddi-ffael yw bod y deunydd sy'n cael ei gynhyrchu'n fewnol ar gael yn Gymraeg ac yn ddwyieithog, a bod cyfle i siarad ag aelodau o'r staff sy'n siarad Cymraeg, pan fo hynny'n bosibl

Tabl 14: Gwybodaeth a ddarparwyd gan atebwyr a oedd yn cynrychioli Tîm Troseddau leuenctid Sir y Fflint

Yr agweddau a archwiliwyd	Crynodeb o'r ymateb a gafwyd i'r cyfweiliad/cyfweiliadau
Natur yr ymrwymadau statudol/gwirfoddol i gynnig dewis iaith	Dim polisi dwyieithrwydd yn benodol i'r Tîm Troseddau leuenctid ond mae'n rhaid gweithredu'n ddwyieithog oherwydd Deddf yr Iaith Gymraeg. [Dim sôn gan y rheolwr am Gynllun Iaith Gymraeg statudol Cyngor Sir y Fflint sy'n berthnasol i holl wasanaethau awdurdod unedol, gan gynnwys y Tîm Troseddau leuenctid].
Canllawiau gweithredu	Dim.
Staff sy'n siarad Cymraeg/sy'n dysgu Cymraeg	Rhyw 30 aelod yn y Tîm Troseddau leuenctid. Dim manylion manwl ar gael am y staff sy'n siarad Cymraeg, ond amcangyfrifir bod 20% - 30% yn gallu siarad Cymraeg. Dim un o'r staff gweinyddol yn siarad Cymraeg. Dim staff yn dysgu Cymraeg ar hyn o bryd.
Sesiynau hyfforddi/briffio	Dim Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith yn cael ei ddarparu. Hyfforddiant Cymraeg yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir y Fflint, ond mae hyfforddiant yn rhywbeth sy'n digwydd ar hap a damwain yn hytrach nag yn rhywbeth sydd wedi'i gynllunio mewn perthynas â darparu gwasanaethau. Ystyrir nad oes galw am hyfforddiant sgiliau iaith ymhlith aelodau'r Tîm.
Gwasanaeth cyfieithu	Wedi cyfieithu rhai ffurflenni a thafleuni gwybodaeth. Wedi defnyddio gwasanaeth cyfieithu'r Cyngor. Golygu'r testunau sydd wedi'u cyfieithu'n fewnol i'w gwneud yn haws eu darllen – caiff hyn ei wneud gan staff y Tîm sy'n siarad Cymraeg.
Cyllideb ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog	Dim cyllideb – yn gorfod jyglo arian mewnol er mwyn talu am waith cyfieithu ac ati. Ystyrir bod hyn yn broblem a byddai'n ddefnyddiol cael arian ychwanegol i'r diben hwn.

Natur y cyswllt cyntaf	(1) Atal troseddau/Ymyrraeth gynnar – y rheolwr yn ansicr a yw dewis iaith yn cael ei gofnodi yn adroddiad yr heddlu. (2) Yn y Llys. Dim gwybodaeth yn cael ei rhoi ymlaen llaw i'r Tîm Troseddau leuenctid ynghylch dewis iaith person ifanc. Nid yw'r adroddiad NAIREY yn cyfeirio at ddewis iaith. Dim ond wrth gyfarfod â pherson ifanc yn y llys y gellir nodi ei ddewis iaith. Mae gan Dîm Sir y Fflint 1 swyddog llys sy'n siarad Cymraeg a fydd yn dechrau sgwrs yn Gymraeg os yw'n gweld bod y person ifanc yn siarad Cymraeg.
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt llafar (e.e. ffôn, wyneb yn wyneb, cyfarfodydd)?	Mae dewis iaith yn cael ei gynnig – mae un o'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn ar y ffurflenni i bobl ifanc yn ymwneud â'u dewis iaith. Os yw person ifanc yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, mae Tîm Sir y Fflint yn gallu darparu ar ei gyfer. Ar yr adegau y gwnaethom ffonio'r Tîm, cafodd pob galwad ffôn ei hateb yn Saesneg, heb gynnig trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg er i ni ddechrau'r ymholiad yn Gymraeg.
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt ysgrifenedig?	I ryw raddau. Mae'r holl ffurflenni a thafleuni sy'n cael eu cynhyrchu'n fewnol yn ddwyieithog. Mae'r testunau a gynhyrchwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid ar gael yn Saesneg yn unig.
A gofnodir dewis iaith? Sut?	Mae dewis iaith yn cael ei gofnodi. Caiff nodyn ynghylch dewis iaith ei wneud ar system CAREWORKS.
A yw'r cofnod o ddewis iaith ar gyfer cyswllt dilynol yn cael ei rannu ag eraill o fewn yr asiantaeth?	Ydy, mae pob aelod o'r Tîm yn cyfeirio at yr un system CAREWORKS.
A yw'r cofnod o ddewis iaith yn cael ei rannu ag asiantaethau eraill? Sut?	Byddai gwybodaeth am ddewis iaith yn cael ei throsglwyddo pe bai'n berthnasol.

Tîm Troseddau Ieuentid Wrecsam

Mae Tîm Troseddau Ieuentid Wrecsam yn gweithredu o'i swyddfeydd yn Wrecsam ac mae'n gwasanaethu pobl ifanc o 8 i 18 oed yn ardal yr awdurdod lleol sy'n cael ei gwmpasu gan Gyngor Sir Wrecsam.

Cynnig dewis iaith

Yn Wrecsam, dim ond gwasanaethau a chymorth cyfyngedig iawn y mae'r Tîm Troseddau Ieuentid yn gallu eu darparu i bobl ifanc leol trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ôl y rheolwr, 'byddai'n anodd i'r Tîm ddarparu unrhyw wasanaeth Cymraeg'. Nid oes gan y tîm atal troseddau o fewn Tîm Troseddau Ieuentid Wrecsam unrhyw siaradwyr Cymraeg er bod Cymraeg 'yn ddymunol' yn y disgrifiad swydd. At hynny, dim ond 3 siaradwr Cymraeg sydd ar gael i ddelio â gwaith ar ôl achosion llys. Dywedwyd wrthym nad oes angen gwasanaethau Cymraeg yno, ac "mae'n ymddangos bod mwy o angen darparu ar gyfer pobl o wlad Pwyl, Twrci a Phortiwgal nag ar gyfer y rheiny sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg" yn Wrecsam, ac nad yw "cynnig y dewis i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth - sy'n anghywir, rydym yn rhagdybio'n llwyr mai Saesneg yw'r unig iaith."

Yn ôl y rheolwr, byddai'n "fuddiol iawn" cael Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith. Nododd bod angen hyrwyddo Cynllun Iaith Gymraeg statudol awdurdod unedol Wrecsam ymysg aelodau o'r Tîm hefyd, gyda chanllawiau clir i staff ar sut i ateb y ffôn a delio â gohebiaeth ysgrifenedig.

Tabl 15: Gwybodaeth a ddarparwyd gan atebwyr a oedd yn cynrychioli Tîm Troseddau Ieuentid Wrecsam

Yr agweddau a archwiliwyd	Crynodeb o'r ymateb a gafwyd i'r cyfweiliad/cyfweiliadau
Natur yr ymrwymadau statudol/gwirfoddol i gynnig dewis iaith	Dim polisi ar weithredu'n ddwyieithog. Roedd y rheolwr wedi gweithio yn Sir Ddinbych yn flaenorol, lle'r oedd yn gyfarwydd â gweld popeth yn cael ei anfon allan yn ddwyieithog, a chafodd syndod o weld nad yw hynny'n digwydd yn Wrecsam. Staff ddim yn siŵr sut i ateb y ffôn nac ateb llythyrau. Y Tîm wedi tynnu sylw at yr angen i staff ddysgu Cymraeg.
Canllawiau gweithredu	Dim canllawiau i staff. Angen hyrwyddo Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor ymysg aelodau o'r Tîm.
Staff sy'n siarad Cymraeg/sy'n dysgu Cymraeg	Tua 34/35 aelod yn y Tîm, dim ond 3 sy'n siarad Cymraeg (staff sy'n gwneud gwaith ar ôl achosion llys). O'r 9 aelod o staff sy'n gwneud gwaith atal troseddau, nid oes unrhyw un ohonyn nhw'n gallu siarad Cymraeg. Dim un aelod o staff yn dysgu Cymraeg ar hyn o bryd.
Sesiynau hyfforddi/briffio	Nid yw aelodau'r Tîm erioed wedi cael hyfforddiant iaith. Mae'r Tîm yn datblygu rhaglen o hyfforddiant mewnol ar hyn o bryd. Mae rhai staff wedi gweld angen i ddysgu rhai cyfarchion Pwyleg. Mae un neu ddau eisiau dysgu

	<p>Cymraeg. Maen nhw wedi edrych ar y posibiladau, ond nid yw'r hyfforddiant yn hawdd mynd ato. Mae'r rheolwr wedi mynd i ddsbarthiadau nos am 2 flynedd. Byddai'n hoffi gwneud wythnos ddwys ac mae wedi cynnig talu am yr hyfforddiant ei hun.</p> <p>Mae hyfforddiant amrywiaeth (rhyw/rhywioldeb) ar gael, ond nid yw'n gwneud unrhyw beth ag iaith. Byddai'n fuddiol iawn cael Hyfforddiant Ymwybyddiaeth iaith.</p>
Gwasanaeth cyfieithu	<p>Wedi trefnu bod rhai arwyddion yn cael eu cyfieithu. Wedi defnyddio gwasanaeth cyfieithu'r Cyngor Sir.</p>
Cyllideb ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog	<p>Dim cyllideb.</p>
Natur y cyswllt cyntaf	<p>(1) Llythyrau a galwadau ffôn yn cael eu dilyn gan lythyr i drefnu apwyntiad/ymweliad â'r cartref. Y llythyrau yn Saesneg, y cyfeiriad yw'r unig ran sy'n ddwyieithog. Yn defnyddio templedi'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid - y rhain i gyd yn Saesneg. (2) Y Llys sy'n cyfeirio troseddwr atom ni. Y swyddogion llys sy'n gwneud y cyswllt cyntaf (dim un yn siarad Cymraeg).</p>
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt llafar (e.e. ffôn, wyneb yn wyneb, cyfarfodydd)?	<p>Heb gynnig dewis iaith eto, a phe bai angen, ni fyddem yn gallu cynnig dewis iaith er y dylem fod yn gallu gwneud hynny. Nid oes staff sy'n gwneud gwaith cyn achosion llys ac sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth. Ar ôl achosion llys – 1 Swyddog Gwasanaethau Troseddau Ieuencid sy'n siarad Cymraeg newydd gael ei benodi, 1 swyddog cyswllt dioddefwyr yn ysgrifennu llythyrau yn Gymraeg i ysgolion Cymraeg lleol. 1 gweithiwr sesiynol yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Gallai wneud gwaith gydag unigolion ar reoli tymer, ac ati, yn Gymraeg. Wedi cael sgysiau 'ad hoc' yn Gymraeg gydag un unigolyn ond heb gyflwyno cwrs cyfan yn Gymraeg.</p>
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt ysgrifenedig?	<p>Na</p>
A gofnodir dewis iaith? Sut?	<p>Mae'r ddogfen asesu'n cofnodi manylion am bob troseddwr ifanc. Mae dogfennau papur sy'n cael eu llenwi â llaw yn cael eu teipio ar system electronig CAREWORKS. Mae'r dudalen gyntaf yn gofyn am enw, dyddiad geni, ethnigrwydd, ond nid oes cwestiwn penodol ar ddewis iaith.</p>
A yw'r cofnod o ddewis iaith ar gyfer cyswllt dilynol yn cael ei rannu ag eraill o fewn yr asiantaeth?	<p>Rydym yn llenwi ffurflen gyfeirio. Nid oedd y rheolwr yn gwybod a oedd cwestiwn am ddewis iaith ar y ffurflen gyfeirio, yn tybio nad oedd hynny'n debygol.</p>
A yw'r cofnod o	<p>Byddai'n bosibl pe bai'n cael ei bwysleisio bod angen</p>

ddewis iaith yn cael ei rannu ag asiantaethau eraill? Sut?	gwneud hynny, gan ddefnyddio System Gyfeirio Aml-asiantaeth Electronig.
--	---

Rhai sylwadau cyffredinol ar Dimau Troseddau Ieuentid Gogledd Cymru

O ystyried bod y diffygion sy'n cael eu trafod yn yr adran uchod ar Dîm Troseddau Ieuentid Gwynedd a Môn yn berthnasol i'r Tîm sydd â'r ethos Cymraeg cryfaf, y gyfran uchaf o staff sy'n siarad Cymraeg a'r lefelau uchaf o sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth iaith yng Nghymru gyfan, fwy na thebyg, nid yw'n syndod bod y diffygion hyn yn fwy amlwg o lawer yn 3 Tîm arall Gogledd Cymru, lle mae cyfran y staff dwyieithog yn fach iawn, y lefelau o ymwybyddiaeth iaith yn isel a lle mae'n ymddangos bod hyd yn oed y syniad o gynnig dewis iaith yn anghyfarwydd.

Mae'r ymatebion a gafwyd gan atebwyr Tîm Troseddau Ieuentid Conwy a Sir Ddinbych, Tîm Troseddau Ieuentid Sir y Fflint a Tîm Troseddau Ieuentid Wrecsam yn tynnu sylw at agweddau penodol ar ddiwylliant mewnol y timau hynny, h.y.

- Mae lefel bresennol y staff dwyieithog yn annigonol, a phrin iawn yw'r gallu i ddarparu gwasanaethau o'r un ansawdd, ehangder ac argaeledd yn Gymraeg a Saesneg fel sy'n ofynnol dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a'r Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol perthnasol.
- Mae'r proffil staffio presennol yn golygu bod diwylliant y gweithle'n Seisnigaidd iawn o ran ei ethos a'i arferion gwaith, gyda lefelau isel o ymwybyddiaeth o sensitifrwydd iaith. Caiff Saesneg ei hystyried, yn amhriodol, fel yr iaith 'arferol' neu'r norm ar gyfer cyfathrebu â chleientiaid ym mhob sefyllfa, ac mae unrhyw drefniadau i ddefnyddio'r Gymraeg 'mewn ymateb i gais penodol gan unigolyn' yn gwyro wrth y 'norm' hwn i bob pwrpas, ac yn gyffredinol, nid yw trefniadau o'r fath yn gallu cyrraedd yr un safonau proffesiynol â'r trefniadau sydd mewn grym ar gyfer darparu gwasanaeth yn Saesneg.
- Prin yw'r adnabyddiaeth neu ymwybyddiaeth o fewn y Timau hyn o'r modd y mae'r proffil staffio uchod yn gallu dylanwadu ar ganfyddiadau a disgwyliadau cleientiaid o'r Timau, a chanfyddiadau'r Timau eu hunain o unrhyw 'alw' am y gwasanaeth.
- Nid oes sylw wedi'i roi i'r anghysondeb amlwg rhwng nifer y bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg yn nalgylch y Timau (y mae rhai o'r rhain, yng Nghonwy a Sir Ddinbych, yn cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf Cymraeg yng Nghymru) a'r nifer fach iawn o achosion Cymraeg y mae'r Timau'n ymdrin â nhw.

Camau gweithredu ar gyfer Timau Troseddau Ieuentid Gogledd Cymru

- o Dylid adolygu proffil staffio bob Tîm gyda'r bwriad o sicrhau digon o allu ymhlith staff y rheng flaen i gynnig dewis iaith go iawn i ddefnyddwyr a chyfathrebu â nhw yn eu dewis iaith.

- Dylid adolygu'r holl systemau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer:
 - cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr gwasanaeth yn rhagweithiol yn hytrach nag mewn ymateb i gais
 - cofnodi dewis iaith defnyddwyr yn ffurfiol mewn modd sy'n gwahaniaethu rhwng dewis iaith ar gyfer cyfathrebu llafar a chyfathrebu ysgrifenedig
 - rhannu'r wybodaeth am ddewis iaith defnyddwyr yn ffurfiol yn fewnol ac â phartneriaid er mwyn sicrhau ymateb priodol a dilyniant priodol yn newis iaith y defnyddiwr gwasanaeth.
- Dylai pob aelod o staff gael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith sydd â'r bwriad o ddatblygu dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â phoblogaeth Gymraeg yr awdurdodau lleol, a sensitifwydd tuag at y materion hynny. Dylai'r hyfforddiant hwn adnabod ffyrdd o fynd ati'n rhagweithiol i annog pobl ifanc sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg neu gymysgedd o'r Gymraeg a'r Saesneg fel sydd orau ganddynt.
- Dylai staff bob Tîm gael canllawiau gweithredu a sesiynau briffio ar fesurau ac ymrwymadau'r Cynllun Iaith sy'n berthnasol iddynt.
- Dylai hyfforddiant Cymraeg gael ei gynnig i bob aelod o staff yn rhan o'u datblygiad personol a phroffesiynol.
- Dylai'r Tîmau bwysu'n gryf ar Fwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a Lloegr (sydd yn ei dro yn atebol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder) i
 - fabwysiadu a gweithredu arferion dwyieithog da wrth gyfathrebu â'r holl Dimau Cyfiawnder Ieuencid yng Nghymru a darparu ar eu cyfer
 - cydweithio ag awdurdodau lleol a sefydliadau eraill i gynhyrchu deunyddiau dwyieithog, e.e. Cynlluniau Rheoli Ymddygiad i'w defnyddio gyda throseddwyr ifanc mewn gwaith atal troseddau a gwaith ar ôl achosion llys.
- Dylid galw ar Fwrdd yr Iaith Gymraeg i roi pwysau ar yr asiantaethau uchod ac ar y sefydliadau a'r canolfannau diogel sy'n cadw pobl ifanc o Gymru, er mwyn hwyluso a darparu gwasanaethau effeithlon, effeithiol a diwylliannol briodol i siaradwyr Cymraeg.
- Dylid sefydlu gweithgor o uwch-reolwyr wedi'u tynnu o bob Tîm Troseddau Ieuencid yng Ngogledd Cymru i drafod a gweithredu'r argymhellion uchod, gyda'r bwriad o rannu arferion da, deunyddiau a dulliau gweithio, a safoni ansawdd ac argaeledd y ddarpariaeth a'r gweithdrefnau ar draws Gogledd Cymru. Dylai'r gweithgor adrodd i Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru.

Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru yn gweithio o'i bencadlys yn Llanelwy. Mae ganddo swyddogaeth gydlynol o ran “*dod â phrif swyddogion Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol allweddol ynghyd er mwyn darparu trefn o weithio o fewn y System Cyfiawnder Troseddol, lle ceir cydgysylltu gwell a mwy o gydlynw*”. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o:

- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi
- Y Gwasanaeth Prawf
- Timau Troseddau Ieuencid
- Y Gwasanaeth Carchardai

Yn ôl gwefan y Bwrdd, mae ganddo “*swyddogaeth arwyddocaol iawn o ran cynnal, cefnogi a gwella ansawdd bywyd pobl yng Ngogledd Cymru, drwy gyflawni'r dasg hanfodol o frwydro er mwyn gostwng nifer y troseddau a gyflawnir, a dod â mwy o droseddwyd gerbron y llys.*”

Cynnig dewis iaith

Pan gysylltwyd â'r gwasanaeth dros y ffôn, cafwyd cyfarchiad dwyieithog gan y switsfwrdd, a chafwyd ymateb Cymraeg i'n hymholiad Cymraeg. Wedi i'r alwad gael ei throsglwyddo cafwyd cyfarchiad dwyieithog gan y swyddog a holwyd, ond nid oedd modd cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg.

Wrth chwilio am wybodaeth berthnasol ar wefan y Bwrdd, nodwyd mai dim ond y dudalen hafan sy'n ddwyieithog. Er hynny, mae'r dudalen sy'n rhestru'r dogfennau y gellir eu lawrlwytho yn cynnwys rhai fersiynau Cymraeg ar wahân. Ni chafwyd hyd i unrhyw ddogfen ar y wefan a oedd yn nodi unrhyw ymrwymiad tuag at yr iaith Gymraeg nac ychwaith at gynnis dewis iaith i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Nid yw hyn yn adlewyrchu'r gwaith da a wnaed gan y Bwrdd i hyrwyddo'r Gymraeg. Enghraifft amlwg o'r gwaith da hwn yw'r ffaith i'r Bwrdd bennu tri maes a fydd yn cael blaenoriaeth ar hyn o bryd, sef lleihau troseddu, dioddefwyr a thystion a'r iaith Gymraeg. Mae rhoi blaenoriaeth o'r fath i'r Gymraeg yn gam arloesol ac unigryw ymhlith y Byrddau yng Nghymru, ac yn arwydd o'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd hwn i godi proffil y Gymraeg mewn modd strategol a gweithredol. At hynny, er nad yw'n ddyletswydd ar Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru (BCTLIGC) i gynhyrchu Cynllun Iaith Gymraeg, mae wedi sefydlu Is-bwyllgor Iaith Gymraeg ac yn fwy diweddar mae wedi mynd ati o'i wirfodd i fabwysiadu *Protocol Iaith Gymraeg* (Gweler Atodiad 2).

Serch y fath gynnydd arwyddocaol, yn y cyd-destun gweithredol a drafodir yma, nid oes gan staff y Bwrdd unrhyw weithdrefnau ffurfiol yn eu lle i sicrhau bod mesurau rhagweithiol yn cael eu cymryd er mwyn cynnis dewis iaith. Adeg y cyfweiliad a chyn mabwysiadu'r *Protocol Iaith Gymraeg*, nododd yr atebydd bod y staff yn llwyr

ddibynol ar yr hyn a ddisgrifiwyd fel 'dealltwriaeth fewnol drylwyr' o ddisgwyliadau'r Bwrdd ynghylch gweithredu'n ddwyieithog.

Fel y tri Bwrdd Cyfiawnder Lleol arall yng Nghymru, mae'r Bwrdd hwn yn atebol i'r *Office for Criminal Justice Reform* (OCJR) sydd yn ei thro yn atebol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yn y gorffennol, cyn i Gymru gael ei rheoli fel ardal unigol ar wahân i Loegr, roedd yn ymddangos nad oedd gan yr OCJR lawer o ddealltwriaeth ynghylch natur a gofynion dwyieithrwydd yng Nghymru na chydymdeimlad ar gyfer y pethau hynny. Ers penodi un Ymgynghorydd Perfformiad dros Gymru, mae'r OCJR wedi dod i gydnabod pwysigrwydd materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg yng Nghymru, ac ar hyn o bryd mae'n darparu cyllideb ar gyfer rhai o'r costau cyfieithu, er nad yw'r gyllideb hon yn ddigon i alluogi'r Bwrdd a'r Byrddau eraill i weithredu'n hollol ddwyieithog. Ar hyn o bryd, nid oes cyllid ar gael i ariannu mwy o wasanaethau dwyieithog.

Camau gweithredu ar gyfer Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru

- Dylai'r Bwrdd fabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg.
- Dylid paratoi canllawiau gweithredu ar gyfer staff y Bwrdd ar sail y Cynllun uchod a'r Protocol Iaith Gymraeg cyfredol.
- Dylai BCTLIGC annog pob Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol arall yng Nghymru i fabwysiadu ei Brotocol Iaith Gymraeg. Byddai hyn yn sicrhau gwasanaeth a safonau cyson ar draws Cymru.
- Dylid pwysu'n gryf ar yr *Office for Criminal Justice Reform* (OCJR), sy'n atebol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, i fabwysiadu a dilyn arfer dwyieithog da wrth ymwneud â'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yng Nghymru a darparu ar eu cyfer.
- Dylid galw ar Fwrdd yr Iaith Gymraeg i ddwyn pwysau ar yr OCJR i hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau effeithiol, effeithlon a diwylliannol briodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg.
- Dylid darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ar gyfer holl staff y Bwrdd.
- Dylid cynnig hyfforddiant Cymraeg i holl staff y Bwrdd yn rhan o'u datblygiad personol a phroffesiynol.

Tabl 16: Gwybodaeth a ddarparwyd gan yr atebudd a oedd yn cynrychioli Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru

Elfennau a archwiliwyd	Crynodeb o'r ymateb a gafwyd i'r cyfweiliad/cyfweiliadau
Natur yr ymrwymadau statudol/gwirfoddol i gynnis dewis iaith	Adeg y cyfweiliad, nododd yr atebudd nad oedd gan y Bwrdd bolisi ysgrifenedig ar ddwyieithrwydd na Chynllun Iaith Gymraeg. [Wedi'r cyfnod hwn, mabwysiadwyd <i>Protocol Iaith Gymraeg</i> ym mis Tachwedd 2007.]

Canllawiau gweithredu	Dim. 'Dim ond disgwyliadau'r Bwrdd' yn ôl yr atebydd, a ychwanegodd y byddai'n disgwyl i Is-bwyllgor Iaith Gymraeg y Bwrdd sefydlu polisi a chanllawiau.
Staff sy'n siarad Cymraeg/sy'n dysgu Cymraeg	O'r 3 aelod o staff, ceir un di-Gymraeg, 1 siaradwr Cymraeg (Swyddog Perfformiad) ac 1 dysgwr (Swyddog Cyfathrebu).
Sesiynau hyfforddi/briffio	Dim yn y 2 flynedd ers pan benodwyd yr atebydd.
Gwasanaeth cyfieithu	Dim cyfieithwyr mewnol, ond defnyddir cyfieithwyr Gwasanaeth y Llysoedd.
Cyllideb ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog	Yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, roedd yr atebydd wedi llwyddo i sicrhau £7,000 y flwyddyn gan yr OCJR ar gyfer pob un o'r 4 Bwrdd Cyfiawnder yng Nghymru. Serch hynny, cwbl annigonol yw'r gyllideb hon i ateb holl anghenion gweithredu'n ddwyieithog.
Natur y cyswllt cyntaf	Ni chaiff y Bwrdd lawer o gyswllt uniongyrchol â'r cyhoedd. Mae'n gweithredu fel ysgrifenyddiaeth, sy'n tynnu gwahanol asiantaethau o fewn y sector cyfiawnder ynghyd. Mae'r ychydig gyswllt uniongyrchol a geir â'r cyhoedd yn digwydd dros y ffôn ac mewn gohebiaeth.
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt llafar (e.e. ffôn, wyneb yn wyneb, cyfarfodydd)?	Mae'r staff i gyd yn ateb y ffôn yn ddwyieithog. Mae croeso i'r cyhoedd siarad Cymraeg ar y ffôn, ac os yw'r siaradwr Cymraeg rhugl yn bresennol yn y swyddfa gellir rhoi ymateb priodol yn Gymraeg. Mewn digwyddiadau cyhoeddus (e.e. yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd, cynadleddau ac ati) mae'r Bwrdd yn sicrhau presenoldeb ar y cyd ag asiantaethau eraill o'r sector cyfiawnder, felly ni cheir anhawster i sicrhau bod staff Cymraeg ar gael i ymateb i'r cyhoedd. Gweinyddir y prosiect LCCS ar ran yr Ynadon a'r Gwasanaeth Prawf. Mae hwn yn brosiect i rannu gwybodaeth â gwahanol grwpiau am waith yr ynadon - (e.e. ysgolion, grwpiau rotari ac ati.) Wrth gysylltu â grwpiau o'r fath mae'r Bwrdd yn arfer gofyn ym mha iaith y maent yn dymuno cael y cyflwyniad. Weithiau cynhelir achosion llys ffug mewn ysgolion,

	gyda'r disgyblion yn chwarae rhan. Cynigir dewis iaith i'r ysgolion, ac yn aml fe gynhelir yr achosion yn Gymraeg.
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt ysgrifenedig?	Caiff llythyrau Cymraeg eu hateb yn Gymraeg. Caiff llythyrau newyddion dwyieithog eu dosbarthu.
A gofnodir dewis iaith? Sut?	Amherthnasol. Mae cyswllt uniongyrchol y Bwrdd â'r cyhoedd yn gyfyngedig i ddigwyddiadau cyhoeddus megis yr Eisteddfod.
A yw'r cofnod o ddewis iaith ar gyfer cyswllt dilynol yn cael ei rannu ag eraill o fewn yr asiantaeth?	Amherthnasol – gweler uchod.
A yw'r cofnod o ddewis iaith yn cael ei rannu ag asiantaethau eraill? Sut?	Amherthnasol – gweler uchod

Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

Mae'r Comisiwn yn gweinyddu'r system Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr, gan ofalu bod unigolion yn cael y cyngor, y wybodaeth a'r cymorth cyfreithiol y mae eu hangen arnynt. Mae'n cydweithio â chyfreithwyr a chyrff nid-am-elw i ddarparu gwasanaethau.

Pan gysylltwyd â'r Comisiwn dros y ffôn, cafwyd cyfarchiad dwyieithog gan y switsfwrdd, ond cafwyd ymateb Saesneg i'n hymholiad Cymraeg cyn i'r alwad gael ei throsglwyddo. Ar ôl i'r alwad gael ei throsglwyddo cafwyd cyfarchiad dwyieithog ac ymateb Cymraeg gan y swyddog a holwyd, er mai neges uniaith Saesneg a gafwyd ar ei pheiriant ateb.

Mae prif swyddfa'r Comisiwn yn Llundain, ac mae ganddo 12 swyddfa y tu allan i Lundain. Ei swyddfa yng Nghaerdydd yw'r unig un yng Nghymru.

Er bod y Comisiwn yn cynhyrchu ei ddeunyddiau a'i ffurflenni yn ddwyieithog ac yn rhoi cyfarchiad dwyieithog wrth ateb y ffôn, nid yw wedi mabwysiadu'r arfer o fynd ati'n rhagweithiol i gynnig dewis iaith i'r sawl sy'n ymweld neu'n cysylltu ag ef, heblaw'r rheiny sy'n cysylltu'n benodol â'r llinell gymorth Gymraeg. Yn hytrach, mae darparu gwasanaethau Cymraeg wedi'i seilio ar ymateb i geisiadau penodol amdanynt.

Nid yw cyfreithwyr yn cael eu trin yn yr un modd â'r 'cyhoedd' at ddibenion y Cynllun Iaith. Nodwyd bod y swyddfa yng Nghymru'n delio'n rhagweithiol â'r brif swyddfa yn Llundain ar faterion yn ymwneud â'r Cynllun Iaith Gymraeg. Nodwyd ambell fater, yn benodol, y ffaith nad yw'r system gyfrifiadurol, sy'n cadw cronfa ddata ganolog y Comisiwn, yn gallu prosesu mewnbwn nac allbwn dwyieithog. Fodd bynnag, deellir y bydd y system yn cael ei newid ymhen ychydig flynyddoedd, a chytunwyd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg y bydd unrhyw system newydd yn gallu prosesu deunydd dwyieithog.

Camau gweithredu ar gyfer y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol

- Dylid pwysu'n gryf ar weinyddiaeth ganolog y Comisiwn yn Llundain i fabwysiadu a gweithredu arfer dwyieithog da mewn perthynas â phob gohebiaeth a darpariaeth sy'n ymwneud â gwaith y Comisiwn yng Nghymru.
- Dylai Bwrdd yr Iaith Gymraeg ddwyn pwysau ar yr uchod er mwyn hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau effeithiol, effeithlon a diwylliannol briodol ar gyfer siaradwyr Cymraeg.
- Dylid ystyried mabwysiadu'r egwyddor o fynd ati'n rhagweithiol i gynnig dewis iaith i holl ddefnyddwyr y gwasanaeth, bônt yn aelodau o'r cyhoedd, yn gyfreithwyr neu'n asiantaethau eraill, gan gynnwys yr egwyddor hon yn y Cynllun Iaith ar yr adeg briodol.
- Dylid cymryd camau i adolygu a diwygio pob system a ddefnyddir ar gyfer mynd ati'n rhagweithiol i gynnig dewis iaith i ddefnyddwyr, ar gyfer cyswllt llafar ac ysgrifenedig, cofnodi'r dewis hwnnw a rhannu gwybodaeth amdano yn ffurfiol - yn fewnol, ac â phartneriaid - er mwyn sicrhau ymateb priodol a dilyniant priodol yn newis iaith y defnyddiwr gwasanaeth.

Tabl 17: Gwybodaeth a ddarparwyd gan yr atebydd a oedd yn cynrychioli'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol	
Elfennau a archwiliwyd	Crynodeb o'r ymateb a gafwyd i'r cyfweiliad/cyfweiliadau
Natur yr ymrwymadau statudol/gwirfoddol i gynnig dewis iaith	Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 16 Mawrth 2006.
Canllawiau gweithredu	Canllawiau ar brif fesurau'r Cynllun – ateb y ffôn; gohebiaeth; ymateb wyneb yn wyneb.
Staff sy'n siarad Cymraeg/sy'n dysgu Cymraeg	O'r 50–60 aelod o staff yng Nghaerdydd, mae rhyw 4-5 yn gallu siarad Cymraeg, a 3-4 arall yn gallu deall Cymraeg ond heb feddu ar ddigon o hyder i'w siarad. O ran hyfforddiant Cymraeg, mae pob un o'r 4-5 siaradwr rhugl wedi dilyn cwrs gloywi iaith ac mae tua 20 o'r staff di-Gymraeg yn cael gwersi Cymraeg yn y gweithle.
Sesiynau hyfforddi/briffio	Mae holl staff swyddfa Caerdydd wedi cael gwybodaeth am y Cynllun Iaith, ac mae penaethiaid adrannau'r brif swyddfa yn Llundain wedi cael eu briffio hefyd ar ofynion y Cynllun Iaith a'i oblygiadau i'r gwasanaeth yng Nghymru. Yn ogystal, ceir arweiniad i'r Cynllun ar y fewnrwyd, ac mae'r arweiniad hwnnw'n cael ei ddiweddarau'n gyson.
Gwasanaeth cyfieithu	Ni chyflogir cyfieithydd mewnol, ond defnyddir gwasanaeth cwmni cyfieithu yng Nghaerdydd. Ni chynhyrchir llawer o waith cyfieithu. Delio â chyfreithwyr y mae'r Comisiwn yn bennaf, ac fel arfer ni chaiff deunydd ei gyfieithu ar eu cyfer nhw – dim ond deunydd y bydd y cyfreithwyr yn ei ddefnyddio wedi hynny â'r cyhoedd. Ffurflenni a deunydd ar gyfer gwefan y Comisiwn yw'r prif ddeunyddiau a gaiff eu cyfieithu.
Cyllideb ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog	Ceir cyllideb ar gyfer cyfieithu, h.y. o fewn y 'gyllideb ar gyfer cyfathrebu', ond ni cheir cyllideb ar wahân dan bennawd penodol.

<p>Natur y cyswllt cyntaf</p>	<p>Bach iawn o gyswllt uniongyrchol y mae'r Comisiwn yn ei gael â'r cyhoedd. Ffurflen a dderbynnir gan y cyfreithiwr yw'r cyswllt cyntaf gan amlaf. Pan gaiff unigolyn ei gadw yn y ddalfa, ac mae'r Comisiwn yn trefnu iddo weld cyfreithiwr, mae'r cyfreithiwr yn llenwi ffurflen ar ran yr unigolyn. Trwy'r cyfreithiwr y gwneir y cyswllt cyntaf yn ddieithriad bron.</p>
<p>A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt llafar (e.e. ffôn, wyneb yn wyneb, cyfarfodydd)?</p>	<p>Ceir llinell ffôn Gymraeg, ac atebir pob galwad ffôn yn ddwyieithog. O ran cyswllt wyneb yn wyneb, <u>ni chynigir</u> gwasanaeth swyddog Cymraeg ond os oes rhywun yn gofyn am un gelwir ar un o'r 4-5 aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl i ddelio â'r person. <u>Ni ofynnir</u> i ymwelwyr, na'r sawl sy'n ffonio'r llinell arferol, a ydynt am gael gwasanaeth Cymraeg, ond mae'r Comisiwn yn ymateb yn gadarnhaol i bob un sy'n gofyn am wasanaeth Cymraeg.</p> <p>Ni chredir bod neb heblaw'r rheiny sydd wedi defnyddio'r llinell gymorth Gymraeg wedi gofyn yn benodol am wasanaeth Cymraeg.</p> <p>Yn ogystal â'r uchod, ceir 2 wasanaeth ffôn newydd: <i>CLA Direct (Community Legal Advice Direct)</i> - gall unigolyn gysylltu'n uniongyrchol â'r llinell hon a gofyn am gyngor yn ymwneud ag unrhyw fater sifil. Bydd siaradwr Cymraeg ar gael os gofynnir am un (er bod y gwasanaeth yn cael ei redeg o'r tu allan i Gymru). <i>CDS Direct - (Criminal Defence Service Direct)</i> - a gychwynnwyd ym mis Ionawr 2008. Gall unigolyn sy'n cael ei gadw yn y ddalfa ofyn am gymorth cyfreithiwr, ac mae'r contract i ddarparu'r gwasanaeth hwn wedi ei ennill gan 3 chwmni o gyfreithwyr yn Llundain. Er hynny, mae'r Comisiwn yn gwneud archwiliad o gyfreithwyr yng Nghymru a fyddai'n fodlon darparu gwasanaeth Cymraeg yn ôl y gofyn. Mewn achosion o'r fath, cyfrifoldeb swyddog y ddalfa yw cynnig dewis iaith.</p>

<p>A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt ysgrifenedig?</p>	<p>Gohebiaeth â chyfreithwyr yw'r cyswllt ysgrifenedig gan amlaf, ac weithiau anfonir copi at yr unigolyn dan sylw. Ni chynigir dewis iaith, ond mae'r Comisiwn yn ymateb yn ffafriol os yw unigolyn yn gofyn am ddeunydd Cymraeg.</p> <p>Mae'r ffurflenni ar gyfer y cyhoedd (ond nid y rhai ar gyfer cyfreithwyr yn unig) yn ddwyieithog.</p> <p>Cynhyrchir tystysgrifau Cymorth Cyfreithiol (sy'n nodi bod yr unigolyn yn gymwys, faint o gymorth sy'n cael ei ddarparu, a'r telerau) yn uniaith Saesneg, gan system gyfrifiadurol (CIS) sy'n cael ei gweithredu o Lundain. Nid yw'r system yn cynhyrchu deunyddiau dwyieithog. Fel rheol cynhyrchir copi o'r dystysgrif ar gyfer y cyfreithiwr a chopi ar gyfer yr unigolyn.</p> <p>Os yw rhywun yn gofyn am fersiwn Cymraeg o'r dystysgrif, mae'r Swyddfa yn Llundain yn anfon y manylion ymlaen i Gaerdydd lle trefnir eu bod yn cael eu cyfieithu.</p>
<p>A gofnodir dewis iaith? Sut?</p>	<p>Cedwir cofnodion cyfrifiadurol. Gweler isod.</p>
<p>A yw'r cofnod o ddewis iaith ar gyfer cyswllt dilynol yn cael ei rannu ag eraill o fewn yr asiantaeth?</p>	<p>Ar y system gofnodi gyfrifiadurol a ddefnyddir yn fewnol, ceir '<i>memo pad</i>' ar y sgrîn lle mae swyddogion yn cofnodi manylion unigolyn, ac yn gwneud cofnod o ddewis iaith yr unigolyn os ydyw wedi gofyn am wasanaeth Cymraeg.</p>
<p>A yw'r cofnod o ddewis iaith yn cael ei rannu ag asiantaethau eraill? Sut?</p>	<p>Dim ond os bydd cyfreithiwr neu asiantaeth arall yn gofyn am y wybodaeth. Caiff cyfreithwyr eu hannog i ofyn i'w cleientiaid a ydynt am gael gwasanaeth Cymraeg yn y Llys.</p>

Cymdeithas y Cyfreithwyr (Swyddfa Cymru)

Cymdeithas y Cyfreithwyr yw'r corff statudol sy'n rheoleiddio cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr, ac mae'n cyflogi rhyw 800 o staff. Swyddogaethau'r Gymdeithas yw cynrychioli a rheoleiddio cyfreithwyr. Mae tua 98,000 o gyfreithwyr ar Rôl y Cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr gyda thua 3,500 ohonynt â chyfeiriadau yng Nghymru. Mae Swyddfa Cymru yng Nghaerdydd yn cyflogi 6 aelod o staff ac mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys:

- o cynrychioli Cymdeithas y Cyfreithwyr ym mhob rhan o fywyd cyhoeddus Cymru;
- o darparu gwasanaeth ysgrifenyddol ar gyfer Pwyllgor Cymru ar faterion cyfreithiol sy'n berthnasol i Gymru;
- o darparu Datblygiad Proffesiynol Parhaus;
- o bod yn sefydliad ymbarél i 17 o gymdeithasau lleol yng Nghymru;
- o annog aelodau iau i gymryd rhan weithgar yn y Gymdeithas;
- o cynnal cysylltiadau cryf â'r Cynulliad Cenedlaethol, San Steffan, a Senedd Ewrop;
- o rhoi gwybodaeth i'r proffesiwn am bob mater cyfreithiol yn y meysydd sydd wedi'u datganoli.

Mae Swyddfa Cymru'n darparu cymorth uniongyrchol i'r cyhoedd hefyd gan ymdrin â chwynion gan gleientiaid, cyfeirio unigolion at gyfreithwyr, cyhoeddi taflenni gwybodaeth, a rhedeg cynlluniau sy'n cynnig mynediad i wasanaethau cyfreithiol.

Cynnig dewis iaith

O ran darparu dewis iaith go iawn i'w haelodau a'r cyhoedd, mae Swyddfa Cymru Cymdeithas y Cyfreithwyr yn enghraifft o sefydliad sy'n dilyn yr arfer gorau mewn amryw feysydd gweithredu. Mae'r Gymdeithas wedi mynd ati o'i gwirfodd i fabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg ac mae'n gweithredu'r Cynllun hwnnw. Mae'r Cynllun yn amlinellu sut y bydd y Gymdeithas yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Yn bwysicach fyth, mae'r Gymdeithas wedi cydnabod pwysigrwydd cyflogi digon o siaradwyr Cymraeg i allu darparu gwasanaeth dwyieithog effeithiol. Trwy fynnu, fel mater o egwyddor, bod y 6 aelod o staff yn hollol ddwyieithog, gellir gweithredu pob agwedd ar waith y Gymdeithas yng Nghymru yn Gymraeg neu'n ddwyieithog fel y bo'n briodol. Cadarnhaodd ein hamryw alwadau ffôn i Swyddfa Cymru bod y ffôn yn cael ei ateb â chyfarchiad dwyieithog yn gyson a bod pob un a oedd yn ateb y ffôn yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Gan ei fod y tu hwnt i gwmpas yr astudiaeth hon, ni fu modd cadarnhau p'un a yw siaradwyr Cymraeg, nad yw eu cyswllt cyntaf â'r Gymdeithas yn digwydd trwy Swyddfa Cymru, yn cael cynnig cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg, a hynny mor effeithlon ac effeithiol ag y mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn ei nodi.

Mae cronfa ddata o gyfreithwyr Cymdeithas y Cyfreithwyr sef Solicitors-online.com yn caniatáu i unigolion chwilio am gyfreithwyr sy'n gallu darparu eu gwasanaeth arbenigol yn Gymraeg.

Mae Swyddfa Cymru'r Gymdeithas yn darparu cyrsiau eiriolaeth yn Gymraeg mewn ymateb i'r galw. Mae'r cyrsiau hyn yn cynnig cyfle gwych i siaradwyr Cymraeg rhugl ennill yr hyder i gynnal achosion llys trwy gyfrwng y Gymraeg.

Wrth edrych ar wefan y Gymdeithas gwelwyd nad oedd modd cael mynediad i dudalennau Cymraeg Swyddfa Cymru o'r brif wefan. Er bod y dudalen '*Work in Wales*' yn nodi bod Swyddfa Cymru'n cynnig gwasanaeth dwyieithog, ni ellir cael mynediad i'r tudalennau Cymraeg heb ddefnyddio'r teitl Cymraeg sef Cymdeithas y Cyfreithwyr mewn peiriant chwilio megis Google.

Er ein bod yn cydnabod nad swyddogaeth Swyddfa Cymru'r Gymdeithas yw pwysu ar gyfreithwyr i gynnig dewis iaith i gleientiaid, mae amryw o'r unigolion y cynhaliwyd cyfweiliad â nhw yn ystod yr astudiaeth hon wedi pwysleisio y gallai Swyddfa Cymru'r Gymdeithas chwarae rôl gadarnhaol mewn codi ymwybyddiaeth a rhannu arfer da o ran cynnig dewis iaith i gleientiaid.

Camau gweithredu ar gyfer Cymdeithas y Cyfreithwyr (Swyddfa Cymru)

- Dylai Cymdeithas y Cyfreithwyr sicrhau bod modd cael mynediad hawdd i dudalennau Cymraeg gwefan Swyddfa Cymru o'r brif wefan Saesneg, y tudalennau ar '*Work in Wales*' yn benodol.
- Dylai Swyddfa Cymru'r Gymdeithas ystyried nodi'r angen i ddarparu mathau eraill o hyfforddiant arbenigol/hyfforddiant iaith i gyfreithwyr a mynd ati i ddarparu hyfforddiant o'r fath
- Dylai Swyddfa Cymru'r Gymdeithas gydweithio â'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol gyda'r bwriad o geisio adnabod yr angen am fathau eraill o hyfforddiant arbenigol/hyfforddiant iaith i gyfreithwyr a mynd ati i ddarparu hyfforddiant o'r fath
- Dylai Swyddfa Cymru'r Gymdeithas gydweithio â'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol gyda'r bwriad o lunio egwyddorion arfer da a chanllawiau ynghylch dewis iaith a'u dosbarthu i gyfreithwyr yng Nghymru.

Tabl 18: Gwybodaeth a ddarparwyd gan atebwyr a oedd yn cynrychioli Cymdeithas y Cyfreithwyr (Swyddfa Cymru)	
Elfennau a archwiliwyd	Crynodeb o'r ymateb a gafwyd i'r cyfweiliad/cyfweiliadau
Natur yr ymrwymadau statudol/gwirfoddol i gynnig dewis iaith	Gan gydnabod ei rôl gyhoeddus yng Nghymru, mae Cymdeithas y Cyfreithwyr wedi mynd ati o'i gwirfodd i fabwysiadu Polisi Iaith Gymraeg. Cymeradwywyd y Polisi Iaith gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 24 Tachwedd 1999.
Canllawiau gweithredu	Yn ôl polisi iaith y Gymdeithas, caiff arweiniad ar y Cynllun Iaith Gymraeg ei ddarparu i'r staff, lle bo hynny'n briodol, trwy'r llawlyfr staff, taflenni gwybodaeth a hyfforddiant sefydlu. Cawsom wybod bod y llawlyfr staff

	yn cael ei ddiwygio ar hyn o bryd.
Staff sy'n siarad Cymraeg/sy'n dysgu Cymraeg	Mae'r 6 aelod o staff yn Swyddfa Cymru'r Gymdeithas yng Nghaerdydd yn hollol ddwyieithog (rheolwr, swyddog datblygu hyfforddiant, swyddog datblygu, swyddog materion allanol, ymgynghorydd polisi, cynorthwy-ydd personol/rheolwr swyddfa); mae 3 aelod arall yn uned ymholiadau busnes Cymru a Lloegr hefyd yn ddwyieithog.
Sesiynau hyfforddi/briffio	Mae'r Cynllun Iaith yn nodi bod staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg yn cael hyfforddiant. Yn ymarferol, ni ddarparwyd unrhyw hyfforddiant o'r fath i staff Swyddfa Cymru, gan fod pob un ohonynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl.
Gwasanaeth cyfieithu	Mae pob aelod o staff Swyddfa Cymru'n hollol ddwyieithog felly nid oes angen gwasanaeth cyfieithu mewnol. Defnyddir cyfieithwyr/cyfieithwyr ar y pryd allanol cymwys yn ôl yr angen.
Cyllideb ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog	Ddim yn benodol. Gwnaed achos gan reolwr Swyddfa Cymru er mwyn sicrhau bod cyllideb ddigonol ar gael ar gyfer darparu cyrsiau eiriolaeth cyfrwng Cymraeg a chyfieithu dogfennau.
Natur y cyswllt cyntaf	Gohebiaeth ar y ffôn a gohebiaeth ysgrifenedig, fel rheol maent yn ymwneud â chwynion gan gleientiaid, cyfeiriadau at gyfreithwyr a thafleuni gwybodaeth.
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt llafar (e.e. ffôn, wyneb yn wyneb, cyfarfodydd)?	Mae staff Swyddfa Cymru i gyd yn ateb y ffôn yn ddwyieithog ac yn gallu ymdrin yn llawn â phob ymholiad yn y ddwy iaith. Mae'r Cynllun Iaith yn nodi y gallai'r Gymdeithas drefnu i'w swyddfa yng Nghymru ddychwelyd galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael ar y pwynt cyswllt cyntaf.
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt ysgrifenedig?	Yn ôl y Cynllun Iaith, caiff llythyrau Cymraeg eu hateb yn Gymraeg, a chaiff llythyrau Saesneg eu hateb yn Saesneg.
A gofnodir dewis iaith? Sut?	Cofnodir deunydd sy'n dod i law yn Gymraeg ar gronfa ddata fewnol.
A yw'r cofnod o ddewis iaith ar gyfer cyswllt dilynol yn cael ei rannu ag	Ydy

eraill o fewn yr asiantaeth?	
A yw'r cofnod o ddewis iaith yn cael ei rannu ag asiantaethau eraill? Sut?	Amherthnasol

Adran 3

Carchardai a sefydliadau diogel: Profiad siaradwyr Cymraeg o Ogledd Cymru

Mae pryder wedi bodoli ers cryn amser am brofiad troseddwyr sy'n siarad Cymraeg a gaiff eu hanfon i garchardai neu sefydliadau diogel yn Lloegr. Yn eu strategaeth ar gyfer lleihau aildroseddu, mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS), Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yn datgan fel a ganlyn:

“Ers rhai blynyddoedd, bu gweithwyr proffesiynol yn mynegi pryder ynghylch nifer y carcharorion sy'n gorfod cwblhau dedfryd garcharol mewn carchardai yn Lloegr, yn enwedig rhai mewn grwpiau sy'n agored i niwed fel menywod a phobl ifanc. Heblaw am yr anawsterau amlwg o gadw cysylltiad â'r teulu am fod aelodau o'u teuluoedd a'u ffrindiau yn gorfod teithio mor bell, mae materion pwysig yn codi mewn cysylltiad â'r Gymraeg. Ar adeg pan all troseddwyr fod yn fwyaf agored i niwed, nid oes cyfleusterau wrth law fel y gallant gyfathrebu yn eu hiaith eu hunain. Os yw sefydliadau carcharol yn Lloegr i gydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg a darparu ymyriadau mewn modd a fydd yn effeithiol ar gyfer troseddwyr Cymraeg eu hiaith, bydd angen rhoi sylw priodol i'r maes gwaith hwn”.⁵

Dim ond un carchar yr oedd brîff yr astudiaeth hon yn galw arnom i ymweld ag ef, a'r carchar hwnnw oedd Carchar Ei Mawrhydi Altcourse yn Lerpwl. Yn yr adran hon, rydym yn darparu crynodeb byr o'n canfyddiadau mewn perthynas â'r ddarpariaeth Gymraeg yn y carchar hwnnw yn ogystal â sylwadau ynghylch y sefydliadau diogel y caiff pobl ifanc ac oedolion o Ogledd Cymru eu hanfon iddynt. Mae'r crynodeb hwn wedi'i seilio ar brofiadau un troseddwr ifanc a naw troseddwr dros ddeunaw oed yr oeddem wedi cynnal cyfweiliadau â nhw a chanfyddiadau dwy astudiaeth allweddol arall a gynhaliwyd yn ddiweddar.

Sefydliadau ar gyfer troseddwyr ifanc

“Rydym yn pryderu am yr effeithiau y bydd treulio cyfnodau mewn sefydliadau lle na roddir digon o flaenoriaeth i'w hanghenion ieithyddol yn eu cael ar droseddwyr ifanc sy'n siarad Cymraeg. Rydym yn credu bod dal troseddwyr ifanc mewn sefydliadau sy'n bell o'u cartrefi mewn amgylchedd nad yw'n eu hannog i ddefnyddio'u hiaith gyntaf yn debygol o danseilio ymdrechion i ennyn eu diddordeb, eu hailsefydlu ac, yn y pen draw, lleihau cyfraddau aildroseddu.”
(Tŷ'r Cyffredin, Adroddiad Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin *Welsh Prisoners in the Prison Estate* (2007)) [Cyfieithiad]

⁵ Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, *Cydgysylltu yng Nghymru: Strategaeth ar gyfer Oedolion a Phobl Ifanc i Ostwng Troseddu*, Ionawr 2006, Adran 3.1, tud. 24.

Nid oes unrhyw ffigyrau penodol ar gael ynghylch nifer y **plant a'r bobl ifanc** o Ogledd Cymru sy'n siarad Cymraeg a gaiff eu remandio neu'u dedfrydu i dreulio cyfnod mewn dalfa. Ar hyn o bryd, ni cheir unrhyw sefydliadau diogel yng Ngogledd Cymru, ac anfonir troseddwr ifanc i Ganolfannau Hyfforddi Diogel, Cartrefi Diogel i Blant neu Sefydliadau Troseddwr Ifanc yn Lloegr. Yn ddiweddar, mae astudiaeth gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid wedi adolygu'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau cyfrwng Cymraeg a geir mewn sefydliadau diogel ar gyfer troseddwr ifanc o bob cwr o Gymru.⁶ Yn ôl yr astudiaeth hon, roedd 163 o droseddwr ifanc o bob rhan o Gymru yn cael eu cadw mewn dalfeydd yng Nghymru a Lloegr ar 31 Gorffennaf 2007. O blith y 163 o droseddwr ifanc hyn, roedd 34 (20.9%) ohonynt yn dod o Ogledd Cymru. Roedd astudiaeth yr YJB wedi cael ystadegau gan 13 o'r 18 o Dimau Troseddau Ieuencid a geir yng Nghymru, ac roedd yr ystadegau hyn yn rhoi braslun o 121 o'r 163 o blant a phobl ifanc a oedd yn cael eu cadw mewn dalfa ar 31 Gorffennaf 2007. O'r garfan hon o 121 o bobl ifanc, nodwyd mai Cymraeg oedd iaith gyntaf 8 ohonynt. Roedd saith ohonynt yn dod o Wynedd ac Ynys Môn, ac roedd un yn dod o Sir Gaerfyrddin. Roedd y grŵp yn cynnwys chwe bachgen a dwy ferch.⁷

Mae canfyddiadau allweddol adroddiad yr YJB yn cynnwys y canlynol:

- “Mae cyfleoedd allweddol i nodi iaith gyntaf pobl ifanc o fewn y System Cyfiawnder Ieuencid yn cael eu colli am fod dogfennau wedi'u cynllunio'n wael neu efallai am fod diffyg ymwybyddiaeth yn bodoli ymysg staff y System Cyfiawnder Ieuencid.
- O'r tri sefydliad diogel yn Lloegr lle ceir y nifer fwyaf o bobl ifanc o Gymru, dim ond Sefydliad Troseddwr Ifanc Stoke Heath sy'n cynnig gwersi Cymraeg i bobl ifanc yn unol â Chwricwlwm Cymru. Mae Sefydliad Troseddwr Ifanc Ashfield wrthi'n ceisio recriwtio aelod o staff i gyflwyno'r gwasanaethau hyn. Nid yw Sefydliad Troseddwr Ifanc Eastwood Park yn cynnig gwersi Cymraeg yn rhan o'r cwricwlwm addysg.
- Caiff pobl ifanc o Gymru sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf eu hanfon i garchardai yn Lloegr yn bennaf, sy'n amharu ar eu gallu i gyfathrebu'n effeithiol.”⁸

Yn rhan o astudiaeth yr YJB, cynhaliwyd cyfweiliadau â 3 throseddwr ifanc a oedd yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Dywedodd y tri ohonynt eu bod wedi profi anawsterau am eu bod yn siaradwyr Cymraeg a anfonwyd i sefydliad yn Lloegr. Roedd yr anawsterau hyn yn cynnwys y canlynol:

- a. Nid oeddent yn cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er eu bod yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg yn y gymuned.
- b. Nid oeddent yn cael siarad Cymraeg â'i gilydd. Yn ôl dau berson ifanc gofynnwyd iddynt beidio â siarad Cymraeg. Gofynnwyd i sefydliadau diogel hefyd a fyddai unrhyw achos yn codi lle byddent yn gofyn i berson ifanc beidio â siarad Cymraeg. Dywedodd 21.4% o'r sefydliadau fod achlysuron wedi codi

⁶ Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (2008) *Welsh Language Provision in the Secure Estate*.

⁷ Ibid., para.32.

⁸ Ibid. tud. 6.

Ile gofynnwyd i bobl ifanc beidio â siarad Cymraeg. Mae enghreifftiau o'r sylwadau a gafwyd gan sefydliadau diogel ynghylch y mater hwn yn cynnwys: "Dim ond mewn sefyllfaoedd lle'r oedd [y Gymraeg] yn cael ei defnyddio mewn modd difriol/dirmygus"

"Ni fyddai hynny'n digwydd oni bai y teimlir bod bygythiad i ddiogelwch"

- c. Nid oes unrhyw un ar gael – boed yn berson ifanc arall neu'n aelod o staff – i siarad Cymraeg â nhw".⁹

Yn ein hastudiaeth, roeddem wedi gallu cyfweld ag un droseddwrraig ifanc oedd â phrofiad o gael ei chadw mewn dalffa. Roedd tystiolaeth y droseddwrraig ifanc hon (FYO3), a siaradodd am ei phrofiadau mewn nifer o sefydliadau diogel y tu allan i Gymru ac un yn Ne Cymru, fel a ganlyn:

- Roedd staff ym mhob un o'r canolfannau diogel wedi ei hatal rhag siarad Cymraeg ar y ffôn â'i rhieni, perthnasau eraill a ffrindiau. Roedd hyn yn arbennig o anodd iddi oherwydd pan ddywedwyd wrthi am roi'r gorau i siarad Cymraeg â'i mam ar y ffôn, nid oedd ei mam yn gallu parhau i sgwrsio â'r ferch yn Saesneg am fod hynny'n teimlo'n chwithig ac yn annaturiol iddi.
- Roedd ei mam, sydd ag atal dweud arni, wedi gwrthod ymweld â hi yn unrhyw rai o'r sefydliadau remánd a hynny'n bennaf am ei bod yn teimlo y byddai'n rhaid iddi sgwrsio â'i merch yn Saesneg a bod hynny'n annaturiol iddi. O ganlyniad, ni chafodd y ferch ifanc hon unrhyw ymweliadau gan ei mam tra'i bod yn y ddalffa.
- O ganlyniad i drefniadau sensoriaeth, roedd hi bob amser yn profi oedi diangen wrth anfon llythyrau Cymraeg neu gael gohebiaeth yn Gymraeg neu mewn rhai achosion, ni fyddai gohebiaeth Gymraeg yn cyrraedd o gwbl.
- Ar ôl iddi gael ei haddysg gynradd ac uwchradd i gyd trwy gyfrwng y Gymraeg, roedd yr holl gyfarwyddyd a deunyddiau addysgol a ddarparwyd gan y sefydliadau remánd yn Saesneg.

Roedd yr holl staff o'r pedwar Tîm Troseddau Ieuencid yng Ngogledd Cymru y cynhaliwyd cyfweiliadau â nhw wedi mynegi pryder mawr ynghylch lles yr holl droseddwr ifanc a anfonir mor bell o'u cartrefi i sefydliadau yn Lloegr. Mynegwyd pryder arbennig ganddynt ynghylch lles troseddwr ifanc sy'n siarad Cymraeg sydd o dan fwy o anfantais am nad ydynt yn gallu cyfathrebu yn eu hiaith gyntaf. Dywedwyd wrthym fod staff mewn dalffeydd wedi cymryd ar gam bod rhai troseddwr ifanc sy'n siarad Cymraeg yn dioddef o anawsterau dysgu ac anawsterau'n ymwneud â'u hymddygiad am nad oeddent yn ymateb yn briodol yn Saesneg.

Yn ei thystiolaeth i Bwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin, dywedodd Rheolwr Cenedlaethol Cymru'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid:

Nid wyf yn credu bod y system ar ei ffurf bresennol yn gallu darparu gwasanaeth yn newis iaith yr unigolyn. Nid wyf yn credu ei bod yn gallu gwneud hynny. O'r braidd y mae'r system yn gallu codi achosion lle mae unigolyn yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf ac yn llai rhugl yn y Saesneg - sy'n wir yn achos tua 30% o'r plant a welir gan Dimau Troseddau Ieuencid Gwynedd ac Ynys Môn. Rwy'n credu bod y system yn gweithio'n rhannol, ond nid wyf yn credu bod y system yn gallu cynnig dewis iaith gwirioneddol i bobl. Byddwn yn dweud bod hynny'n annheg.¹⁰

⁹ Ibid. para.53.

¹⁰ Tŷ'r Cyffredin, Pwyllgor Materion Cymreig, (2007) *Welsh Prisoners in the Prison Estate*, Q 356.

Astudiaeth achos 1: Lucy

“Hoffwn rannu stori Lucy â chi. Mae Lucy yn byw yng Ngwynedd gyda’i theulu sydd i gyd yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae ei rhieni’n ei chael hi’n anodd siarad Saesneg, a dim ond ychydig eiriau o Saesneg oedd gan ei nain a’i thaid.

Mae Lucy wedi cael plentyndod trawmatig, ac mae’n berson ifanc bregus. Mae wedi niweidio’i hun ac wedi ceisio lladd ei hun ar sawl achlysur. Daeth i sylw Heddlu Gogledd Cymru o ganlyniad i nifer o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throeddau’n ymwneud â’r drefn gyhoeddus ac am fod yn feddw ac yn afreolus. Ar ôl torri Gorchymyn Statudol ar gyfer trosedd arall yn ymwneud â’r drefn gyhoeddus, cafodd Lucy Orchymyn Cadw a Hyfforddi am bedwar mis a Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Troseddol am 12 mis. Gofynnodd Tîm Troseddau Ieuentid Gwynedd a Môn iddi gael ei lleoli mor agos i’w chartref ag sy’n bosibl. Fodd bynnag, cafodd ei hanfon i Dyrham sy’n daith o bedair awr a hanner i ffwrdd. Yn ystod ei chyfnod yno, roedd wedi niweidio’i hun sawl gwaith ac wedi ceisio crogi ei hun. Yn ystod y ddau fis a dreuliodd yn Dyrham, cafodd ddau ymweliad – un gennyf fi ac un gan ei rhieni.

Cafodd Lucy ei rhyddhau, ac roedd wedi gwneud yn dda iawn am ychydig. Fodd bynnag, gwaethygodd ei sefyllfa bersonol a’i sefyllfa deuluol, a dechreuodd Lucy yfed yn drwm unwaith eto. Cafodd ei harestio am dorri amodau ei Gorchymyn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Troseddol ac am gyflawni trosedd arall yn ymwneud â’r drefn gyhoeddus. Cafodd Orchymyn Cadw a Hyfforddi o 12 mis.

Cyn cael y ddedfryd hon, cafodd Lucy ei rhoi ar remánd. Am nad oedd digon o leoliadau ar gael i droseddwyr ifanc, daethpwyd o hyd i wely remánd iddi yng Nghaerwysg. O ganlyniad i’r pellter a’r ffaith bod yr achos llys yn cael ei gynnal pum diwrnod ar ôl iddi gael ei remandio, ni chafodd unrhyw ymweliad gan ei theulu na staff y Tîm Troseddau Ieuentid yn ystod y pum diwrnod hynny.

Ar ddiwrnod yr achos llys, cafodd ei chludo o’r ganolfan garcharol yng Nghaerwysg am 4 o’r gloch y bore i’r llys yng Ngwynedd er mwyn ei dedfrydu. Cyrhaeddodd y llys am hanner dydd, a chafodd ei dedfrydu a’i hanfon nôl i Gaerwysg am nad oedd unrhyw le arall ar gael iddi. Dychwelodd i’r uned am 2.00 y bore canlynol.

Cymerodd dros dair wythnos i ddod o hyd i le i Lucy yn nes i’w chartref. Wel, pan rwy’n dweud nes, cafodd ei symud i Swydd Efrog sy’n daith o dair awr a hanner i ffwrdd. Mae Lucy yn fregus – mae arni angen cyswllt â’i theulu, ac mae angen iddi gael ei hailintegreiddio’n rhan o’r gymuned leol.

Mae rhieni Lucy’n cael budd-daliadau, ac nid ydynt wedi gallu ymweld â hi yn ystod y pum mis diwethaf. Y tro diwethaf i Lucy weld ei mam a’i thad oedd y tu ôl i’r sgrîn yn y llys ar y diwrnod y cafodd ei dedfrydu. Mae arian ar gael i helpu ei rhieni i fynd i’w

gweld, ond mae'n rhaid iddynt brynu'r tocynnau eu hunain yn gyntaf ac yna dangos y dderbynnwyr cyn y gallant hawlio'r arian hwn. Mae'r ddau docyn dychwelyd a'r cludiant o'r orsaf i'r carchar yn costio bron i £250.00 i gyd. Mae hyn yn ddrud i unrhyw un ond mae'n swm amhosibl bron pan fo cyfanswm y budd-daliadau y mae'r rhieni'n eu cael bob wythnos yn llai na phris y tocynnau.

Efallai eich bod chi'n teimlo bod hyn yn ddigon gwael ond gofynnaf i chi feddwl am hyn hefyd – mae Lucy'n ei chael hi'n anodd siarad Saesneg. Mae rhai o staff y ddalfa yn gwrthod gadael iddi siarad Cymraeg ar y ffôn â'i rhieni. Nid oes ganddi unrhyw un i siarad â nhw yn ei mamiaith – nid yw'n cael unrhyw ymweliadau gan ei theulu ac nid yw'n gweld unrhyw wyneb cyfarwydd ar wahân i fi sy'n ymweld â hi unwaith y mis os yw hi'n lwcus.”

Gai i siarad hefo Mam. Cyflwyniad gan Carys Heulwen Drury yng Nghynhadledd Bwrdd Cyfiawnder Lleol Gogledd Cymru, Llandudno, Gogledd Cymru, 7 Tachwedd 2007.

Sefydliadau ar gyfer troseddwr dros ddeunaw oed

Ni cheir unrhyw gyfleusterau carcharu ar gyfer troseddwr gwrywaidd neu fenywaidd dros ddeunaw oed yng Ngogledd Cymru. Mae ffigyrau a ddarparwyd gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr (NOMS) yn dangos ar 30 Medi 2006, bod bron i hanner (303) y 631 o garcharorion gwrywaidd o Ogledd Cymru a oedd wedi'u remandio a'u dedfrydu yn cael eu dal yng Ngharchar Ei Mawrhydi Altcourse ger Lerpwl.¹¹ Roedd y rhan fwyaf o'r carcharorion gwrywaidd eraill o Ogledd Cymru'n cael eu dal mewn carchardai eraill yn Lloegr (sef carchardai Stoke Heath, Risley, Wymott, Garth, Kirkham, Wakefield, Thorn Cross, Lerpwl, Brinsford, Amwythig, Glen Parva a Casington).¹² Nid oes unrhyw ffigyrau wedi'u cyhoeddi ynghylch nifer y carcharorion gwrywaidd sy'n siarad Cymraeg a geir mewn carchardai yn Lloegr. Cawsom amcangyfrif bod rhwng 70 a 100 o garcharorion (ar remand ac wedi'u dedfrydu) sy'n siarad Cymraeg yn cael eu dal yn Altcourse ar unrhyw adeg.

Mae'n anodd gwybod faint yn union o garcharorion benywaidd o Ogledd Cymru sy'n siarad Cymraeg ac ym mha carchardai y maent yn cael eu dal gan nad yw'r data hwn ar gael. Mae ffigyrau'r Swyddfa Gartref ar gyfer 2006 yn dangos o'r 8 o garcharorion benywaidd o Ogledd Cymru oedd ar remand yn y ddalfa ar 30 Medi 2006, roedd 7 ohonynt yn cael eu dal yn Styal, Sir Gaer ac 1 yn Peterborough, Swydd Gaergrawnt. O blith y 15 o droseddwr benywaidd o Ogledd Cymru a ddedfrydwyd i gyfnod yn y ddalfa, roedd 8 ohonynt yn cael eu dal yn Styal, 5 yn Drake Hall, Swydd Stafford, 1 yn Ashkam Grange, Swydd Efrog ac 1 yn Peterborough¹³. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys y menywod o Ogledd Cymru a gaiff eu hanfon i'r carchar o lysoedd yn Lloegr (e.e. Caer a Warrington). Roedd un

¹¹ Tystiolaeth a ddarparwyd gan NOMS ar gyfer adroddiad Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin *Welsh Prisoners in the Prison Estate*, 16 Mai 2007. Tystiolaeth 98.

¹² Ibid. Memorandwm atodol a gyflwynwyd gan y Swyddfa Gartref, Tystiolaeth 98.

¹³ Tŷ'r Cyffredin, Pwyllgor Materion Cymreig, (2007) *Welsh Prisoners in the Prison Estate*, memorandwm atodol a gyflwynwyd gan y Swyddfa Gartref i Q21 (Tystiolaeth 98).

cyn-garcharor sy'n siarad Cymraeg a gafodd ei chyfweld yn rhan o'r astudiaeth hon wedi'i dedfrydu gan lys yng Nghaer.

Yn ôl y dystiolaeth a gyflwynwyd i adroddiad Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin ar *Welsh Prisoners in the Prison Estate*:

“nid yw anghenion ieithyddol carcharorion sy'n siarad Cymraeg yn cael eu diwallu o fewn y system garchardai ac er gwaethaf ymdrechion clodwiw rhai sefydliadau, mae'r broblem hon yn waeth mewn achosion lle bo carcharorion o Gymru'n bwrw'u dedfryd mewn carchardai yn Lloegr”.¹⁴

Yn ystod yr astudiaeth hon, cynhaliwyd cyfweiliadau ag un droseddwrraig oedd â phrofiad o gael ei dal yng Ngharchar Ei Mawrhydi Styal a Charchar Ei Mawrhydi Drake Hall ac wyth troseddwr gwrywaidd oedd â phrofiad o gael eu dal yng Ngharchar Ei Mawrhydi Altcourse, Lancaster Farm a charchardai amrywiol eraill yn Lloegr. Gellir crynhoi eu profiadau fel a ganlyn:

- Roedd gan staff y carchardai a'r carcharorion eraill agweddau negyddol tuag at y Gymraeg yn gyffredinol;
- Roedd y carcharorion yn cael eu difrio a'u dirmygu'n aml gan garcharorion eraill am eu bod yn siarad Cymraeg;
- O ganlyniad i'r uchod, roedd rhai o'r carcharorion wedi ymateb trwy wneud yn fach o agweddau amlwg ar eu hunaniaeth Gymreig (megis y ffaith eu bod yn siarad Cymraeg) neu guddio agweddau o'r fath hyd yn oed;
- Fel rheol, nid oedd unrhyw ddarpariaeth ar gael ar gyfer siaradwyr Cymraeg e.e. deunydd darllen, papurau newydd, copi o'r Beibl, gwasanaethau crefyddol ac ati er bod yr adnoddau hyn ar gael mewn ieithoedd eraill;
- Nid oedd carchardai eraill ar wahân i Altcourse yn cadarnhau cefndir ieithyddol y carcharorion fel mater o drefn wrth iddynt gael eu derbyn yno;
- Diffyg hyfforddiant addysgol a hyfforddiant sgiliau yn Gymraeg;
- Roedd llythyrau Cymraeg yn cael eu caniatáu ond roeddent yn debygol o brofi oedi;
- Roedd gan y rhan fwyaf o'r carcharorion brofiad o gael eu gorchymyn i beidio â siarad Cymraeg ar y ffôn. Nid oedd y lleill wedi cael eu hatal rhag siarad Cymraeg â'u teulu ar y ffôn, ond roeddent wedi cael eu dychryn i feddwl y byddent yn cael eu hatal rhag gwneud hynny;
- Roedd barddoniaeth Gymraeg a ysgrifennwyd gan y carcharorion wedi cael ei chymryd i ffwrdd gan y staff;
- Roedd rhai swyddogion yng ngharchar Altcourse wedi gofyn i rai o'r carcharorion siarad Saesneg â'i gilydd;
- Roedd modd siarad Cymraeg ag ymwelwyr yn Altcourse, ond roedd hyn yn broblem mewn carchardai eraill a enwyd gan y carcharorion;
- Nid oedd gwasanaethau meddygol, cynghori ac ailsefydlu allweddol ar gael yn Gymraeg.

¹⁴ Ibid. tud 36.

Astudiaeth achos 2: Derfel

Mae Derfel yn fachgen 19 oed hynod o ddeallus. Mae'n siarad Cymraeg ac mae'n dioddef o ffurf ar awtistiaeth a phroblemau ymddygiad cysylltiedig. Mae'n byw yng Ngwynedd gyda'i deulu sydd i gyd yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae gan Derfel hanes o gamddefnyddio cyffuriau, iselder ysbryd, niweidio'i hun a cheisio lladd ei hun. Mae'n siarad Cymraeg yn rhugl ac yn groyw.

Mae wedi cael ei arestio a'i gadw yn y ddalfa ar sawl achlysur, a'r achlysur y mae'n ei gofio orau yw pan gafodd ei arestio am yr eilwaith yng Nghaernarfon a'i gludo i'r orsaf heddlu leol. Ar y pryd, roedd yn teimlo'n isel ac roedd wedi cynhyrfu, a bu'n rhaid iddo gael meddyginiaeth a gofal dros nos gan y nyrs oedd ar ddyletswydd a siaradodd ag ef yn uniaith Saesneg. Y noson honno, llwyddodd i gael cyfreithiwr a oedd yn siarad Cymraeg, ond roedd hynny wedi digwydd trwy lwc (am fod siaradwr Cymraeg yn digwydd bod ar ddyletswydd) yn hytrach nag am ei fod wedi cael unrhyw ddewis. Pan gyflwynwyd ei achos gerbron Llys Ynadon Llangefni'r diwrnod canlynol, cafodd yr achos ei gynnal yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Saesneg (er bod acenion yr Ynadon yn awgrymu i Derfel eu bod yn siarad Cymraeg) am nad oedd yr erlynydd yn siarad Cymraeg.

Mae Derfel wedi ymddangos gerbron y llysoedd 7 gwaith i gyd – dwywaith gerbron Llys Ynadon Llangefni; dwywaith gerbron Llys Ynadon Llandudno a theirgwaith gerbron Llys y Goron Yr Wyddgrug. Mae Derfel yn sicr nad oedd wedi cael dewis cynnal unrhyw un o'r achosion hyn trwy gyfrwng y Gymraeg. Pe bai wedi cael y dewis, byddai'n bendant wedi dewis cynnal pob achos yn Gymraeg am ei fod yn teimlo'i fod yn gallu mynegi ei hun yn fwy cywir ac yn fwy effeithiol yn ei famiaith. Yn wir, roedd wedi cyflogi bargyfreithiwr a oedd yn siarad Cymraeg i'w gynrychioli yn yr achos mwyaf difrifol a ymddangosodd gerbron Llys y Goron. Fodd bynnag, cynhaliwyd y 7 achos yn Saesneg, ac mae'n tybio bod hynny wedi digwydd am ei fod wedi cael ei erlyn gan erlynwyr di-Gymraeg ar bob achlysur.

Mae Derfel wedi'i garcharu saith gwaith – chwe gwaith yn Altcourse ac unwaith yn Lancaster Farm. Yn Altcourse, roedd y swyddogion yn ei gyfarch gan ddefnyddio'i gyfenw oherwydd eu bod yn ei chael hi'n anodd ynganu ei enw cyntaf. Teimlai fod hyn yn ei wneud yn wahanol i'r carcharorion eraill. Yn Lancaster Farm, fodd bynnag, roedd wedi gwerthfawrogi'r ffaith bod y swyddogion wedi gwneud ymdrech i gyfeirio ato gan ddefnyddio'i enw cyntaf bob amser.

Ar un achlysur pan roedd yn teimlo'n isel iawn yn Lancaster Farm, roedd Derfel wedi teimlo'r angen i gysylltu â'i frawd, a chafodd ganiatâd i'w ffonio. Fodd bynnag, ar ôl iddo ddechrau sgwrsio â'i frawd yn Gymraeg, dywedodd y swyddog a oedd yn ei oruchwylio wrtho i roi'r gorau i siarad Cymraeg â'i frawd. Parhaodd i siarad Cymraeg er gwaethaf cais y swyddog ac ar ôl hynny, protestiodd wrth y swyddog y byddai wedi teimlo'n hollol annaturiol i siarad Saesneg â'i frawd. Er syndod i Derfel, ymddiheurodd y swyddog iddo.

Am ei fod wedi ceisio lladd ei hun, rhoddwyd Derfel ar ward feddygol yn Altcourse a threfnwyd gwasanaeth cynghori seiciatrig ar ei gyfer. Nid oedd unrhyw rai o'r nyrsys, y staff iechyd meddwl na'r cynghorwyr mewn iwniform yn siarad Cymraeg. Yn yr un modd, yn Lancaster Farm, roedd wedi cymryd rhan yn y cynllun cymorth seiciatrig 'Inner Reach', ond unwaith eto nid oedd unrhyw gynghorwyr a oedd yn siarad Cymraeg ar gael a bu'n rhaid iddo gymryd rhan yn y cynllun drwy gyfrwng y Saesneg.

Yn ystod ei gyfnod diweddaraf yn y carchar, trefnwyd seiciatrydd ar gyfer Derfel a oedd yn teithio o Lanfairfechan i ymweld ag ef er mwyn ei gynghori. Er ei fod yn teithio o Lanfairfechan, nid oedd y seiciatrydd yn siarad Cymraeg, a chyhoeddodd ar ddechrau ei ymweliad cyntaf: "This interview is going to be in English because unfortunately I can't speak Welsh."

Eglurodd Derfel mai'r brif strategaeth yr oedd y staff iechyd meddwl a'r seiciatrydd yn ei gweithredu i wella ei iselder dwys oedd defnyddio'u sgiliau cyfathrebu i'w annog i ymateb trwy gyfathrebu a dadansoddi ei ofidiau, ei bryderon a'i deimladau personol dyfnaf. Teimlai mai dim ond trwy siarad ei famiaith y gallai gyfathrebu'n effeithiol ar lefel mor bersonol a phreifat, a theimlai fod diffyg siaradwyr Cymraeg ymhlith y staff iechyd meddwl wedi amharu ar effeithiolrwydd a phroffesiynoldeb y driniaeth.

Mae Derfel wedi cael ei ryddhau, ac mae'n parhau i fynd i apwyntiadau â seiciatrydd a glustnodwyd iddo cyn iddo gael ei garcharu ac nad yw'n gysylltiedig â'r sector cyfiawnder troseddol. Unwaith eto, nid yw'r seiciatrydd yn siarad Cymraeg.

Ffynhonnell: Cyfweiliad yr awduron â 'Derfel' (ffugenw) (MO4), Chwefror 2008.

"Ges i hasl am siarad Cymraeg – o'n i'n siarad Cymraeg wrth ffonio adre ac yn cael abuse gan ferched. Tueddol i ffonio adre pan doedd 'na ddim llawer o bobl o gwmpas ... Cael lot o weiddi a rhegi arna i. Fedrai feddwl i rywun fengach a llai hyderus y byddai'n haws i guddio'u Cymraeg." (FO1)

Camau gweithredu ar gyfer carchardai yn Lloegr sy'n dal carcharorion o Ogledd Cymru

- Dylai Awdurdodau'r Carchardai yng Nghymru a Lloegr fod yn fwy rhagweithiol wrth adnabod pob carcharor sy'n siarad Cymraeg. Dylid mynd ati fel mater o drefn i gasglu a chyhoeddi gwybodaeth am ddealltwriaeth a defnydd troseddwy o'r Gymraeg a'u dewis iaith.
- Dylai'r Gwasanaeth Carchardai sicrhau bod pob carchar yn Lloegr sy'n dal carcharorion Cymraeg sydd dros ddeunaw oed yn mabwysiadu'r arferion da canlynol (fel y mae Carchar Ei Mawrhydi Altcourse wedi'i wneud): cydnabod hawl troseddwy Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg ar y ffôn â pherthnasau a ffrindiau, siarad Cymraeg ag ymwelwyr (bônt yn berthnasau, yn ffrindiau neu'n weithwyr proffesiynol), cael gohebiaeth yn Gymraeg yr un mor gyflym ag y maent yn cael gohebiaeth yn Saesneg, a chael caniatâd i siarad Cymraeg â throseddwy eraill. (Mae Datganiad Polisi Altcourse ar *Ddefnydd carcharorion o ieithoedd eraill ar wahân i Saesneg* i'w weld yn Atodiad 1.)
- Cyhyd â bod yr angen i ddal troseddwy o Gymru mewn sefydliadau yn Lloegr yn parhau, dylai Awdurdodau'r Carchardai weithio i godi ymwybyddiaeth ymhlith staff pob carchar sy'n dal carcharorion o Gymru ynghylch hawliau ac anghenion ieithyddol troseddwy gwrywaidd a benywaidd sy'n siarad Cymraeg.
- Cyhyd ag y mae angen cadw troseddwy o Gymru mewn sefydliadau yn Lloegr, dylid rhoi blaenoriaeth i sicrhau darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys hyfforddiant ym maes sgiliau iaith.

Camau gweithredu ar gyfer sefydliadau diogel sy'n dal troseddwy ifanc o Ogledd Cymru

- Dylai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Gwasanaeth Carchardai weithio i sicrhau bod sefydliadau diogel yn Lloegr yn caniatáu i bobl ifanc o Gymru siarad Cymraeg ar y ffôn â'u perthnasau a'u ffrindiau. Yn ogystal, dylai fod ganddynt yr hawl i siarad Cymraeg ag ymwelwyr (bônt yn berthnasau, yn ffrindiau, yn staff y Timau Troseddau Ieuenctid neu'n staff proffesiynol eraill), cael ac anfon post yn Gymraeg yr un mor gyflym â phost yn Saesneg, a siarad Cymraeg â throseddwy ifanc eraill.
- Dylai'r YJB, y Timau Troseddau Ieuenctid, y Gwasanaeth Carchardai a'r Heddlu gydweithio i sicrhau eu bod yn adnabod pob troseddwr ifanc sy'n siarad Cymraeg a sicrhau bod y dogfennau a ddefnyddir ym maes cyfiawnder ieuenctid yn adnabod ac yn cofnodi gwybodaeth am broffil iaith a dewis iaith pob person ifanc ac yn trosglwyddo'r wybodaeth honno i asiantaethau eraill.
- Dylai hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith fod yn rhan hanfodol o unrhyw hyfforddiant ar amrywiaeth a/neu gydraddoldebau a ddarperir i staff sefydliadau diogel.
- Cyhyd ag y mae angen cadw pobl ifanc o Gymru mewn sefydliadau yn Lloegr, dylid rhoi blaenoriaeth i sicrhau darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys addysg Gymraeg, ar gyfer y plant hynny.

Carchar Ei Mawrhydi Altcourse

Agorwyd Carchar Ei Mawrhydi Altcourse ym mis Rhagfyr 2007. Cafodd ei gynllunio a'i adeiladu'n breifat, a chaiff ei reoli a'i gyllido'n breifat hefyd. Mae Carchar Ei Mawrhydi Altcourse yn garchar lleol Categori B sy'n derbyn carcharorion o lysoedd yng Nglannau Merswy, Sir Gaer a Gogledd Cymru. Mae'r carchar yn derbyn troseddwrwyr gwrywaidd ifanc a charcharorion gwrywaidd dros ddeunaw oed sydd wedi'u dedfrydu neu'u remandio gan y llysoedd. Ar hyn o bryd, mae'r carchar yn dal dros 1,200 o garcharorion. Dywedwyd wrthym fod 95% o'r holl garcharorion gwrywaidd dros ddeunaw oed o Ogledd Cymru yn cael eu dal yn Altcourse ac fel rheol, mae 70 neu ragor o garcharorion sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cadw yno ar unrhyw adeg.

Cynnig dewis iaith

O'i gymharu â charchardai eraill sy'n dal carcharorion sy'n siarad Cymraeg, mae Carchar Ei Mawrhydi Altcourse yn cynnig enghraifft o arfer da. Dangosodd yr atebwyr a roddodd wybodaeth i ni am y carchar bod Altcourse yn sensitif i anghenion carcharorion sy'n siarad Cymraeg a'i fod, fel yr oedd adroddiad Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin wedi casglu, "yn gwneud ymdrech sylweddol i ddiwallu anghenion y carcharorion sy'n siarad Cymraeg".¹⁵ Mae'r ymdrechion hyn yn cynnwys:

- Mabwysiadu datganiad polisi ar "Ddefnydd carcharorion o ieithoedd eraill ar wahân i Saesneg" (Gweler Atodiad 1)
- Darparu gwybodaeth ysgrifenedig a llythyr newyddion ar gyfer carcharorion yn Gymraeg a Saesneg
- Dosbarthu papur newydd Cymraeg dyddiol i bob uned
- Darparu casgliad o lyfrau Cymraeg yn llyfrgell y carchar
- Caniatáu i garcharorion anfon a derbyn llythyrau yn Gymraeg
- Caniatáu i garcharorion siarad Cymraeg â'u teulu a'u ffrindiau ar y ffôn
- Caniatáu i garcharorion siarad Cymraeg ag ymwelwyr
- Cyflogi caplan sy'n siarad Cymraeg
- Caniatáu i'r caplan drefnu digwyddiadau adloniadol Cymraeg ar gyfer carcharorion sy'n siarad Cymraeg (e.e. ymweliad gan ddiddanwyr Cymraeg adeg y Nadolig; cyngerdd i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi)
- Sefydlu grŵp cymorth ar gyfer carcharorion o Gymru
- Sicrhau bod dau unigolyn sy'n siarad Cymraeg yn cynrychioli'r carcharorion yng nghyfarfodydd rheoli amrywiaeth y carchar
- Defnyddio caban a gyllidwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal cyfarfodydd â charcharorion o Ogledd Cymru.

Yn ogystal, mynegodd yr atebwyr yr angen i'r carchar gymryd mwy o gamau i fynd i'r afael ag anghenion carcharorion sy'n siarad Cymraeg, yn enwedig:

¹⁵ Tŷ'r Cyffredin, Adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig, *Welsh Prisoners in the Prison Estate*, 16 Mai 2007.

- Recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg
- Darparu hyfforddiant ym maes sgiliau ac addysg Gymraeg.

Roedd y carcharorion Cymraeg eu hiaith y cynhaliwyd cyfweiliadau â nhw wedi cydnabod:

- Bod ganddynt fwy o gyfleoedd i ddefnyddio'u Cymraeg yn Altcourse nag mewn carchardai eraill
- Bod rhai aelodau staff yn dangos diddordeb yn y Gymraeg a bod rhai hyd yn oed yn cymryd camau i ddysgu'r iaith
- Bod yr uwch staff yn gefnogol o siaradwyr Cymraeg ond nad oedd rhai staff, yn enwedig y rheiny ar y rhengoedd is, mor gefnogol/barod i dderbyn yr iaith.

Teimlai'r carcharorion nad oedd eu hanghenion fel grŵp ieithyddol yn cael eu diwallu cystal ag anghenion carcharorion o rai grwpiau ethnig eraill. Roeddent yn teimlo:

- Bod angen mwy o wybodaeth arnynt am eu hawl i ddefnyddio'r Gymraeg
- Bod angen i'r carchar gyflogi staff sy'n gallu siarad Cymraeg ac yn fwy na hynny, staff sy'n gallu siarad Cymraeg naturiol yn hytrach na Chymraeg gwrslyfrau
- Bod angen cynnal gwasanaethau crefyddol trwy gyfrwng y Gymraeg
- Bod angen gwell dewis o lyfrau Cymraeg yn y llyfrgell
- Bod angen i'r carchar gael copïau o bapurau bro Cymraeg megis Papur Menai, Y Goriad a Llafar Bro yn ogystal â phapurau newydd lleol Saesneg
- Bod angen cynnal mwy o weithgareddau diwylliannol trwy gyfrwng y Gymraeg (e.e. gweithdai barddoni).

Camau gweithredu ar gyfer Carchar Ei Mawrhydi Altcourse

- Dylai Altcourse barhau i ddatblygu ac adeiladu ar y ddarpariaeth sydd wedi'i sefydlu eisoes ar gyfer delio â charcharorion sy'n siarad Cymraeg gan ddatblygu model o arfer da a fydd yn ddefnyddiol i sefydliadau eraill o fewn y system garchardai a chanolfannau diogel ar gyfer troseddwyr ifanc. Dylai darpariaeth o'r fath gynnwys:
 - Recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg;
 - Darparu mwy o gyrsiau Cymraeg ar gyfer carcharorion a staff;
 - Rhoi mwy o wybodaeth i garcharorion o Gymru adeg eu derbyn i'r carchar ynghylch eu hawl i ddefnyddio'r Gymraeg a'r ddarpariaeth sydd ar gael iddynt trwy gyfrwng y Gymraeg;
 - Sicrhau bod cofnodion mynediad carcharorion o Gymru'n cynnwys cofnod o'u gallu i siarad Cymraeg a'u dewis iaith. Dylid rhannu'r cofnod hwn ag unrhyw asiantaethau eraill a fydd yn ymwneud â'r carcharorion yn ystod eu cyfnod yn Altcourse neu ar ôl hynny;
 - Sicrhau bod gwasanaethau lles a chynghori cyfrwng Cymraeg ar gael i garcharorion sy'n siarad Cymraeg - e.e. gwasanaeth cynghori ynghylch cyffuriau, gwasanaeth cynghori seiciatrig, strategaethau adfer ac ailsefydlu ac ati. Dylid adnabod pob carcharor bregus a rhoi blaenoriaeth iddo;
 - Datblygu'r ddarpariaeth o weithgareddau adloniadol Cymraeg ymhellach;
 - Darparu gwell dewis o lyfrau, papurau newydd a chyfnodolion Cymraeg yn y llyfrgell;

- Cynnal archwiliad o arwyddion mewnol gyda'r bwriad o nodi cyfleoedd i ddarparu mwy o arwyddion dwyieithog yn y carchar;
- Cynnal gwasanaethau crefyddol yn Gymraeg.

Tabl 19: Gwybodaeth a ddarparwyd gan atebwyr a oedd yn cynrychioli Carchar Ei Mawrhydi Altcourse	
Yr agweddau a archwiliwyd	Crynodeb o'r ymateb a gafwyd i'r cyfweiliad/cyfweiliadau
Natur yr ymrwymadau statudol/gwirfoddol i gynnis dewis iaith	Ni cheir unrhyw ymrwymiad statudol neu wirfoddol i gynnis dewis iaith yn rhan o wasanaethau'r carchar i droseddwyr. Yn hytrach, mae'r carchar wedi mynd ati o'i wirfodd i fabwysiadu datganiad polisi (22.12.2006) sy'n datgan: "Mae Carchar Ei Mawrhydi Altcourse yn arddel hawl ddynol pob carcharor i ddefnyddio'i iaith gyntaf/ei ddewis iaith. Ni fydd carcharorion yn cael eu herio, eu disgyblu neu'u gwahardd rhag gwneud hynny heb reswm da. Ni fydd unrhyw waharddiad cyffredinol yn cael ei gyflwyno ar ddefnyddio ieithoedd eraill ar wahân i Saesneg". Mae'n ofynnol i'r carcharorion siarad Saesneg os ceir pryderon rhesymol bod siarad iaith arall yn peryglu diogelwch, trefn/disgyblaeth a chwarteisi.
Canllawiau gweithredu	Datganiad polisi A4. Cyfarfodydd rheoli amrywiaeth – mae dau gynrychiolydd yn codi pryderon penodol mewn perthynas â'r Gymraeg. Caiff yr iaith Gymraeg ei chydnabod fel mater pwysig o ran amrywiaeth.
Staff sy'n siarad Cymraeg/sy'n dysgu Cymraeg	Dim un. Yn ôl atebydd 1, mae'r carchar yn ei chael hi'n anodd recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg. Mae'r carchar yn dechrau sylweddoli bod angen staff sy'n siarad Cymraeg, a bod angen cymryd camau cadarnhaol mewn perthynas â hyn. Mae rhai staff wedi cael gwersi Cymraeg. Mae'r caplan sy'n siarad Cymraeg wedi bod yn cynnal cwrs WLPAN ar gyfer 10 aelod o staff yn ystod yr awr ginio. Roedd atebydd 1 wedi dysgu digon o Gymraeg i'w alluogi i wirio llythyrau a ysgrifennwyd yn Gymraeg at ddibenion diogelwch.
Sesiynau hyfforddi/briffio	Mae'r staff i gyd yn cael hyfforddiant ar amrywiaeth ond nid ydynt yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith.
Gwasanaeth cyfieithu	Llyfryn sefydlu, llawlyfrau ar gyfer carcharorion a llythyr newyddion dwyieithog – caiff y deunyddiau eu cyfieithu gan gwmni cyfieithu allanol.
Cyllideb ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog	Dim adnoddau penodol. Nid oes unrhyw ran o'r contract yn galw ar y carchar i ddarparu ei wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac felly nid oes adnoddau ar gael i'w alluogi i wneud hynny.
Natur y cyswllt cyntaf	Caiff y troseddwyr eu cludo i'r carchar mewn fan. Caiff y Cofnod Hebrwng Carcharor ei gyflwyno i'r carchar ond nid yw hwn yn nodi dewis iaith carcharorion sy'n siarad

	Cymraeg. Pan fyddant yn cyrraedd y carchar, gofynnir i'r carcharorion "Beth yw eich iaith gyntaf?". Mae'r carcharorion yn cael sgwrs fer â'r caplaniaid ac mae'r rheiny'n adnabod siaradwyr Cymraeg.
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt llafar (e.e. ffôn, wyneb yn wyneb, cyfarfodydd)?	Nid oes unrhyw rai o aelodau staff y carchar, ar wahân i'r caplan, yn siarad Cymraeg sy'n golygu nad yw'r carcharorion yn cael dewis siarad Cymraeg â nhw. Nid oes arbenigwyr Cymraeg eu hiaith ar gael i ddarparu therapi a gwasanaethau seiciatreg, gwasanaethau cynghori ynghylch cyffuriau ac ati. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o garchardai eraill yn y DU, mae hawl gan garcharorion siarad Cymraeg â'u teulu a'u ffrindiau ar y ffôn ac mae hawl ganddynt siarad Cymraeg â charcharorion eraill hefyd.
A gynigir dewis iaith ar gyfer cyswllt ysgrifenedig?	Yn rhannol. Mae'r carcharorion yn gallu anfon a derbyn llythyrau yn Gymraeg. Cyhoeddir llythyr newyddion yn Gymraeg a Saesneg. Ceir casgliad o lyfrau Cymraeg yn y llyfrgell.
A gofnodir dewis iaith? Sut?	Yn aml, gwneir ymholiad llafar wrth i'r troseddwr gyrraedd y carchar, ond ni chedwir unrhyw gofnod ffurfiol ar bapur.
A yw'r cofnod o ddewis iaith ar gyfer cyswllt dilynol yn cael ei rannu ag eraill o fewn yr asiantaeth?	Yn anffurfiol.
A yw'r cofnod o ddewis iaith yn cael ei rannu ag asiantaethau eraill? Sut?	Ni chedwir unrhyw gofnod o'r fath.

Adran 4: Trafodaeth o'r canfyddiadau allweddol a'r argymhellion ar gyfer System Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru

Trafodaeth o'r canfyddiadau allweddol

Cafodd yr astudiaeth hon groeso brwd gan bob un o'r atebwyr y cysylltwyd â nhw yn yr asiantaethau a gymerodd ran yn yr arolwg. Roedd y rhan fwyaf o'r atebwyr wedi mynegi gobaith y byddai'r astudiaeth yn helpu i adnabod gwendidau yn y modd y caiff dewis iaith ei gynneg gan eu sefydliadau nhw a sefydliadau ar draws y system, ac roeddent yn edrych ymlaen at ystyried argymhellion yr astudiaeth ar sut i symud y materion a nodwyd yn eu blaen. Mae'r awduron o'r farn bod yr ymdeimlad hwn o ewyllys da ymhlith y staff at sicrhau darpariaeth o ansawdd trwy gyfrwng y Gymraeg yn adnodd amhrisiadwy y gall yr asiantaethau fanteisio arno a'i fod yn arwydd da y bydd canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad hwn yn cael ystyriaeth briodol.

Yn yr un modd, roedd y troseddwyr ifanc, y troseddwyr dros ddeunaw oed, y cyn-droseddwyr, y tystion a'r dioddefwyr y cysylltwyd â nhw wedi croesawu'r cyfle i gyfrannu at yr astudiaeth hefyd. Mynegodd nifer ohonynt eu bod yn gwerthfawrogi'r ffaith bod pwyslais arbennig yn cael ei roi ar y mater o ddewis iaith trwy gomisiynu'r astudiaeth hon. Teimlai rhai bod hyn yn arwydd cadarnhaol o du'r system cyfiawnder troseddol bod y modd y caiff defnyddwyr gwasanaeth eu trin o safbwynt dewis iaith yn fater o bwys gwirioneddol i'r asiantaethau.

O fewn y cyd-destun cadarnhaol hwn, rydym yn cyflwyno'r drafodaeth ganlynol o brif ganfyddiadau'r astudiaeth:

1. Mae'r astudiaeth yn dangos bod y dewis a ddarperir o ran gwasanaethau Cymraeg a Saesneg gan asiantaethau sy'n gweithio o fewn sector cyfiawnder troseddol Gogledd Cymru yn anghyson ac yn amrywio o asiantaeth i asiantaeth ac o leoliad i leoliad. (Gweler Argymhellion 1-5 isod.)
2. Lle bo dewis iaith yn cael ei gynneg a lle bo siaradwyr Cymraeg yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg fel eu dewis iaith, maent yn teimlo'n aml eu bod yn cael profiadau llawer gwell wrth ddelio â'r sector cyfiawnder troseddol trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae hyn yn ychwanegu'n sylweddol at ansawdd y gwasanaeth y maent yn ei gael. Mae siaradwyr Cymraeg yn tueddu i ystyried y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg fel arwydd o ofal cwsmer da a thriniaeth gyfartal. (Gweler Argymhellion 1-5 isod.)
3. Yn gyffredinol, mae siaradwyr Cymraeg yn gwerthfawrogi'n arbennig y cyfle i allu defnyddio Cymraeg llafar wrth ddelio ag asiantaethau o fewn y sector, yn enwedig pan fo staff yr asiantaethau'n defnyddio cyweiriau iaith sy'n fwy llafar yn hytrach na ffurfiol. (Gweler Argymhellion 10-14 isod.)

4. Yn achos yr unigolion mwyaf bregus y mae'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg, gallai gorfod dilyn gweithdrefnau barnwrol a charcharol trwy gyfrwng y Saesneg wneud iddynt deimlo'n fwy bregus neu ychwanegu at eu hymdeimlad o anfantais neu anallu. At hynny, gallai gael effaith niweidiol ar eu lles meddyliol a chorfforol, a gallai hyd yn oed arwain at gynyddu yn hytrach na lleihau'r risg o aildroseddu. (Gweler Argymhellion 1-5 isod.)
5. Ar draws y sector, mae'r strategaethau a ddefnyddir gan asiantaethau i helpu unigolion bregus a'u hatal rhag aildroseddu yn dibynnu'n helaeth ar ddefnydd effeithiol o sgiliau iaith gan weithwyr proffesiynol. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid ystyried bod defnyddio'r Gymraeg â siaradwyr Cymraeg yn elfen ganolog a hanfodol o ansawdd a safon y gwasanaeth a ddarperir yn hytrach nag yn elfen ychwanegol ohono. (Gweler Argymhellion 1-5 isod.)
6. Mae tystiolaeth yr atebwyr sydd wedi cael profiad o System Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru yn awgrymu mai digon prin, ar y cyfan, yw'r adegau lle mae'r asiantaethau'n cynnig dewis iaith a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a bod y cyfleoedd hynny'n annigonol, yn anghyson ac yn dibynnu ar fympwy. (Gweler Argymhellion 1-5 isod.)
7. Mae'r dystiolaeth a gafwydgan garcharorion dros ddeunaw oed a throeddwy'r ifanc sy'n cael eu cadw mewn sefydliadau diogel yn dangos mai yn anaml, os o gwbl, y mae'r sefydliadau hynny (ac eithrio Carchar Ei Mawrhydi Altcourse) yn cynnig dewis iaith i siaradwyr Cymraeg. Yn ogystal, mae'r sefydliadau hyn yn cyfyngu ar eu defnydd o'r Gymraeg ac weithiau, maent yn gwrthod gadael iddynt ddefnyddio'r Gymraeg o gwbl. Fel rheol, mae unrhyw ohebiaeth y maent yn ei hanfon neu'n ei derbyn yn cyrraedd yn hwyr, ac mae ymwelwyr yn aml yn cael eu hatal rhag siarad Cymraeg â nhw yn ystod ymweliadau. (Gweler Argymhellion 6 a 7 isod.)
8. Am resymau hanesyddol a chymdeithasegol, nid oes gan siaradwyr Cymraeg ddigon o hyder yn gyffredinol yn eu gallu i ddefnyddio Cymraeg ffurfiol wrth ddelio â'r byd swyddogol (yn enwedig Cymraeg ysgrifenedig). Mae'r cyweiriau iaith a ddefnyddir gan asiantaethau ar gyfer cyfathrebu llafar a chyfathrebu ysgrifenedig ar draws y sector hwn yn ffactor pwysig wrth bennu a fydd defnyddwyr gwasanaeth yn dymuno defnyddio'r Gymraeg ac yn dewis gwneud hynny wrth gysylltu â'r asiantaethau. Yn gyffredinol, po fwyaf ffurfiol yw'r Gymraeg a ddefnyddir, mwyaf tebygol yw hi y bydd siaradwyr Cymraeg yn cael eu rhwystro rhag defnyddio'r iaith. (Gweler Argymhellion 9-12 isod.)
9. Mae diffyg hyder cyffredinol siaradwyr Cymraeg o ran delio â materion swyddogol trwy gyfrwng yr iaith yn ymestyn hefyd i weithwyr proffesiynol a staff eraill sy'n siarad Cymraeg ar draws y sector. Yn amlach na heb, trwy gyfrwng y Saesneg y mae staff proffesiynol a staff eraill yn ymgymryd â'u hyfforddiant galwedigaethol ffurfiol a'u datblygiad proffesiynol, ac felly trwy ddefnyddio'r Saesneg y maent yn ennill hyder yn eu cymhwysedd proffesiynol, eu statws a'u hawdurdod. Ceir tystiolaeth i ddangos y gallai hyn gael dylanwad sylweddol ar y graddau y maent yn teimlo'n gyffyrddus i

gynnig dewis iaith i ddefnyddwyr gwasanaeth a'u parodrwydd i ddelio â'r defnyddwyr gwasanaeth hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. (Gweler Argymhellion 9-12 isod.)

10. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd gan yr asiantaethau'n dangos bod eu systemau mewnol, eu trefniadau gwaith a'u gweithdrefnau ar gyfer cynnig a chofnodi dewis iaith, ymateb iddo a rhannu gwybodaeth amdano yn annigonol ac yn anghyson at ei gilydd ac mewn rhai achosion, nid oes gan yr asiantaethau systemau, trefniadau neu weithdrefnau o'r fath o gwbl. (Gweler Argymhellion 2-5 isod.)
11. Lle bo defnyddwyr yn penderfynu arfer eu dewis iaith a defnyddio'r Gymraeg, mae hynny'n achosi oedi ac anawsterau yn ddieithriad bron ac yn aml, mae'n ychwanegu at yr ymdeimlad o straen ac anallu y mae'r defnyddwyr yn ei brofi – er enghraifft, wrth roi tystiolaeth yn y llys, rhoi datganiadau yng ngorsaf yr heddlu, ysgrifennu llythyrau Cymraeg yn y carchar neu ddewis defnyddio dogfennau Cymraeg. Yn gyffredinol, mae dewis defnyddio'r Gymraeg o fewn sector Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru yn gyfystyr â dewis profiad mwy trafferthus. (Gweler Argymhellion 2-5 isod.)
12. Un o'r materion allweddol a ddaeth i'r amlwg yw bod y trefniadau recriwtio a staffio a'r modd y caiff adnoddau sgiliau iaith eu rheoli er mwyn gallu cynnig dewis iaith i ddefnyddwyr gwasanaeth yn aneffeithiol ac yn aneffeithlon at ei gilydd ac mae'n ymddangos bod recriwtio, staffio a rheoli sgiliau iaith yn bethau sy'n digwydd yn fympwyl. (Gweler Argymhellion 4 ac 16 isod.)
13. At ei gilydd, mae lefel yr ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a lefel y sensitifrwydd ynghylch pwysigrwydd cynnig dewis iaith yn isel ymhlith staff yr asiantaethau ac ar y cyfan, nid yw'r staff hyn yn deall bod ymwybyddiaeth a sensitifrwydd o'r fath yn rhan hanfodol o'r agendâu ehangach ym maes cydraddoldebau ac amrywiaeth. At ei gilydd, mae gwybodaeth am ofynion perthnasol Cynlluniau Iaith Gymraeg yn isel hefyd. (Gweler Argymhelliad 12 isod.)
14. Yn gyffredinol, mae dealltwriaeth y sector cyfan o'r cysyniad o gynnig dewis iaith wedi'i seilio ar y syniad o "ymateb i'r galw". Ni chaiff hyn ei ystyried yn arfer da gan nad yw'n cydnabod y ffaith bod y Gymraeg wedi'i heithrio'n statudol o'r sector am gyfnod o dros bedair canrif na'r effaith y mae hyn yn parhau i'w chael ar seicoleg a disgwyliadau siaradwyr Cymraeg a'r meysydd traddodiadol lle maent yn teimlo y gallant ddefnyddio'r iaith. O ganlyniad i'r ffactorau hyn, ni ddylai'r broses o ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg gael ei harwain gan alw am y cyfnod y gellir ei ragweld, ac felly ystyrir ei bod yn amhriodol i asiantaethau seilio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau ar 'alw' ymddangosiadol. Ni ddylid cymryd bod unrhyw ddiffyg galw ymddangosiadol yn golygu nad oes angen gwasanaethau Cymraeg. (Gweler Argymhellion 1 a 12 isod.)
15. Ar draws y sector, roedd yr holl asiantaethau a gymerodd ran yn yr arolwg (ar wahân i rai eithriadau prin) yn ystyried mai Saesneg yw'r iaith 'arferol' neu'r 'norm' wrth

gyfathrebu â chleientiaid/defnyddwyr gwasanaeth ym mhob sefyllfa. Mae unrhyw drefniadau i ddefnyddio'r Gymraeg 'ar gais' yn gwyro wrth y 'norm' hwn i bob pwrpas ac yn gyffredinol, nid yw trefniadau o'r fath yn gallu cyrraedd yr un safonau proffesiynol â'r trefniadau sydd mewn grym ar gyfer darparu gwasanaeth yn Saesneg. Ni ystyrir bod y rhagdybiaeth hanesyddol a chynhenid hon o blaid y Saesneg yn briodol bellach ar gyfer asiantaethau sy'n gweithredu'n unol ag ymrwymadau statudol i 'drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal'. (Gweler Argymhellion 12 ac 14 isod.)

16. Mae asiantaethau o fewn y sector sy'n gweithredu fel unedau lleol a gaiff eu gweinyddu o swyddfa ganolog neu bencadlys sydd wedi'i leoli y tu allan i Gymru yn wynebu anawsterau bob amser wrth geisio sicrhau bod digon o adnoddau a chymorth ar gael i ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Yn aml, caiff yr asiantaethau hyn eu llesteirio gan ddiffyg empathi, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith uwchreolwyr ynghylch y proffil dwyieithog y mae ei angen ar wasanaethau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae hyn yn aml yn arwain at aneffeithlonrwydd wrth i adnoddau ac amser staff ar draws y sector gael eu gwastraffu yn pwysu ar weinyddiaethau y tu allan i Gymru i ddarparu adnoddau priodol, deunyddiau dwyieithog a gallu dwyieithog o fewn systemau TGCh canolog a gweithdrefnau safonol. Yn aml, caiff asiantaethau eu rhoi mewn sefyllfa anodd wrth iddynt orfod dargyfeirio cyllid i dalu am ddarpariaeth ddwyieithog. Roedd bron yr holl asiantaethau y cynhaliwyd cyfweiliadau â nhw wedi darparu tystiolaeth i gefnogi hyn. (Gweler Argymhellion 8 a 9 isod.)
17. Yn aml, nid yw'r cyhoedd yn gallu gwahaniaethu rhwng yr asiantaethau amrywiol ac wrth i unigolion gael eu prosesu gan y system cyfiawnder troseddol, efallai na fyddant yn gwybod bod yr asiantaethau amrywiol yn gweithredu fel endidau ar wahân sydd â rolau penodol. Felly, mae'n ddigon posibl bod yr anghydraddoldeb a'r anghysondeb a welir mewn perthynas â darparu dewis iaith yn ymddangos yn ddryslyd ac yn annealladwy i ddefnyddwyr gwasanaeth Cymraeg sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. (Gweler Argymhellion 1 - 5 isod).
18. Mae unrhyw aelodau o'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn debygol o wneud hynny trwy Heddlu Gogledd Cymru yn y lle cyntaf. Mae'n rhesymol felly i aelodau'r cyhoedd gymryd yn ganiataol y bydd ansawdd a safon y gwasanaeth y maent yn ei gael wrth ddelio â Heddlu Gogledd Cymru (o ran cael cynnig dewis iaith a'r hawl i arfer eu dewis iaith) yn cynrychioli'r norm ar gyfer unrhyw ymwneud pellach y maent yn ei gael â'r system yn gyffredinol. Ar ôl i'w disgwyliadau a'u dewis iaith gael eu sefydlu, mae'n rhesymol i'r system cyfiawnder troseddol sicrhau parhad wrth i'r unigolion gael eu trosglwyddo o asiantaeth i asiantaeth. Gan fod yr asiantaethau a gymerodd ran yn yr arolwg yn ystyried Cynllun Iaith Gymraeg Heddlu Gogledd Cymru'n ddatganiad polisi arweiniol ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y sector yng Ngogledd Cymru, mae'n briodol eu bod yn mabwysiadu safonau gwasanaeth ac arferion da'r corff hwnnw fel model sylfaenol ar gyfer y sector y gellir ei ddilyn wrth ddelio â'r cyhoedd yn Gymraeg. (Gweler Argymhelliad 2 isod).

19. Ar hyn o bryd, nid oes adnodd iaith ymgynghorol arbenigol (tebyg i'r Ymgynghorydd Iaith Gymraeg llawn amser a staff yr Adran Gwasanaethau Iaith ategol a gyflogir gan Heddlu Gogledd Cymru) ar gael i'r un graddau o fewn asiantaethau eraill yn y sector. Heb ddigon o adnoddau staffio pwrpasol o'r math hwn, a hynny o fewn sefydliadau unigol ac ar draws y sector, mae'n anodd gweld sut y gellir symud yr agenda iaith yn ei blaen ar draws y sector mewn modd boddhaol ac amserol. (Gweler Argymhelliad 17 isod).

Argymhellion ar gyfer System Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru

1. Dylai Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru (BCTLIGC) a'i asiantaethau cysylltiedig gymryd y camau dilynol yn rhan o'u dull gweithredu sylfaenol ar gyfer cynnig dewis iaith:

Dylai'r dewis o wasanaeth Gymraeg neu Saesneg neu wasanaeth dwyieithog:

- *Gael ei gynnig yn rhagweithiol i ddefnyddwyr gwasanaeth yn hytrach nag ar gais neu mewn ymateb i alw ymddangosiadol;*
 - *Cael ei gynnig ar gyfer cyswllt llafar a gohebiaeth ysgrifenedig, a dylid gwahaniaethu rhwng y ddau fath o gyswllt;*
 - *Cael ei gynnig yn ystod y cyswllt cyntaf neu cyn gynted ag sy'n bosibl, a dylid cofnodi dewis iaith y defnyddiwr yn ffurfiol a'i rannu'n ffurfiol ag unrhyw asiantaethau fydd yn dod i gysylltiad ag ef/hi wedi hynny.*
2. Er mwyn hybu safonau cyson a gwasanaeth o ansawdd ar draws y sector, dylai pob asiantaeth o fewn y sector fabwysiadu'r safonau gwasanaeth a amlinellir yng Nghynllun Iaith Gymraeg Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer delio â'r cyhoedd yng Nghymru.
3. Dylai Is-bwyllgor Iaith Gymraeg BCTLIGC fynd i'r afael â chymau gweithredu ac argymhellion yr astudiaeth hon, rhannu arfer da a hybu dull gweithredu cydlynol ar draws y sector mewn perthynas â chofnodi dewis iaith defnyddwyr gwasanaeth, ymateb i'r dewis hwnnw a rhannu gwybodaeth yn ei gylch.
4. Dylai pob asiantaeth a gynhwysir yn yr astudiaeth hon lunio cynllun gweithredu wedi'i seilio ar y camau gweithredu sy'n berthnasol i'r asiantaeth honno. Dylai pob cynllun gweithredu gynnwys targedau, a dylai pob asiantaeth adrodd i Is-bwyllgor Iaith Gymraeg BCTLIGC ynghylch y cynnydd a wneir.
5. Dylai Is-bwyllgor Iaith Gymraeg BCTLIGC sefydlu rhwydwaith tebyg i *Rhwydiaith*¹⁶ yn benodol ar gyfer asiantaethau cyfiawnder troseddol yng Ngogledd Cymru ac ar draws Cymru. Byddai rhwydwaith o'r fath yn fodd i asiantaethau o fewn y sector cyfiawnder troseddol gynorthwyo'i gilydd trwy ddod

¹⁶ Mae *Rhwydiaith* yn rhwydwaith a sefydlwyd er mwyn galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru a chyrrff eraill o fewn y sector cyhoeddus i gynorthwyo'i gilydd trwy ddod ynghyd i drafod materion strategol sy'n ymwneud â gweithredu Cynlluniau Iaith, gan gynnwys hybu a rhannu arfer da mewn perthynas â dwyieithrwydd o fewn llywodraeth leol yng Nghymru.

ynghyd i drafod materion strategol sy'n ymwneud â gweithredu cynlluniau iaith a hybu dwyieithrwydd o fewn y system cyfiawnder troseddol.

6. Dylai BCTLIGC alw am sefydlu carchardai a sefydliadau diogel yng Nghymru ar gyfer troseddwr ifanc a throseddwr dros ddeunaw oed o Ogledd Cymru. Dylai unrhyw gyfleusterau o'r fath weithredu Cynlluniau Iaith.
7. Hyd nes y caiff carchardai a sefydliadau diogel sy'n gweithredu Cynlluniau Iaith eu sefydlu yng Nghymru, dylai BCTLIGC bwysu ar bob carchar a sefydliad diogel sy'n derbyn troseddwr ifanc a throseddwr dros ddeunaw oed o Ogledd Cymru i fabwysiadu datganiad polisi mewn perthynas â'r iaith Gymraeg neu brotocol arfer da sy'n debyg i'r datganiad polisi a fabwysiadwyd gan Garchar Ei Mawrhydi Altcourse ar *Ddefnydd carcharorion o ieithoedd eraill ar wahân i Saesneg* (atgynhyrchwyd yn Atodiad 1).
8. Dylai BCTLIGC gydweithio â'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol eraill, Llywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau perthnasol eraill yng Nghymru gyda'r bwriad o alw am i strwythurau ac asiantaethau ym maes cyfiawnder troseddol gael eu datganoli i raddau mwy er mwyn sicrhau gwasanaethau mwy effeithlon ac effeithiol, atebolrwydd lleol a chyllideb briodol ar gyfer y gwaith o ddarparu gwasanaeth dwyieithog.
9. Dylai'r holl asiantaethau sy'n rhan o BCTLIGC glustnodi cyllidebau penodol ar gyfer darparu gwasanaethau Gymraeg yn rhan o'u trefniadau cynllunio ariannol strategol yn hytrach na pharhau â'r trefniadau ad hoc presennol.
10. Dylai BCTLIGC ddechrau prosiect i fynd i'r afael â'r angen i ddatblygu cyweiriau iaith priodol ar gyfer cyfathrebu â siaradwyr Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig. Dylid rhoi blaenoriaeth yn y lle cyntaf i ystyried y Gymraeg llafar ac ysgrifenedig a ddefnyddir mewn dalfeydd, yn y llysoedd ac wrth ymdrin â defnyddwyr gwasanaeth bregus.
11. Dylai BCTLIGC a phob asiantaeth unigol a gynhwysir yn yr astudiaeth hon fynd ati'n weithredol i ddatblygu llwybrau ym maes hyfforddiant galwedigaethol a datblygiad proffesiynol. Dylai'r llwybrau hyn gynnwys hyfforddiant digonol sy'n briodol o safbwynt diwylliannol, a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, dylid darparu hyfforddiant ar ddefnyddio cyweiriau iaith priodol (ar lafar ac yn ysgrifenedig) sy'n hawdd eu deall wrth ddelio â defnyddwyr gwasanaeth/mewn sefyllfaoedd lle ceir cyswllt â'r cyhoedd.
12. Dylai BCTLIGC ddatblygu dull gweithredu strategol mewn perthynas â datblygu a chyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff ar draws y sector yn rhan hanfodol o'u hyfforddiant a'u datblygiad proffesiynol.
13. Dylai BCTLIGC bwysu ar Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gynhyrchu ei eirfa hirddisgwyliedig ar gyfer y sector cyfiawnder a'i dosbarthu cyn gynted ag sy'n bosibl fel y gellir symud ymlaen â'r amcanion hynny yn yr argymhellion hyn sy'n ymwneud â hyfforddiant a datblygiad staff.

14. Dylai BCTLIGC fynd ati'n weithredol i:

- Hybu dealltwriaeth ar draws y sector nad yw'n briodol bellach i asiantaethau drin y Saesneg fel yr iaith arferol a'r norm ar gyfer cyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth ac y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal;
- Hybu'r syniad y dylai pob asiantaeth fabwysiadu datganiad polisi i'r perwyl hwn, gan normaleiddio dull gweithredu lle caiff gwasanaethau eu cyflwyno'n ddwyieithog trwy gynnig dewis iaith a gweithredu ar hynny.

15. Dylai BCTLIGC a phob asiantaeth unigol a gynhwysir yn yr astudiaeth hon fynd ati'n weithredol i roi sylw a chyhoeddusrwydd i'r ffaith y gall unigolion ddewis cael cyswllt llafar ac ysgrifenedig yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog.

16. Dylai BCTLIGC fynd ati'n weithredol i annog yr asiantaethau a gynhwysir yn yr astudiaeth hon i ddatblygu a gweithredu Strategaethau Sgiliau Dwyieithog er mwyn meithrin dull strategol, sydd wedi'i gynllunio, o recriwtio, datblygu a rheoli adnoddau sgiliau iaith yn effeithiol gyda'r nod o ddarparu dewis iaith i ddefnyddwyr gwasanaeth.

17. Dylai BCTLIGC a phob asiantaeth unigol a gynhwysir yn yr astudiaeth hon bwysu am gael digon o staff sy'n gallu darparu gwasanaeth ymgynghorol mewn perthynas â'r Gymraeg er mwyn symud yr agenda iaith ac argymhellion yr adroddiad hwn yn eu blaen yn effeithiol o fewn sefydliadau unigol ac mewn modd cydlynol ar draws y sector cyfan.

Diolchiadau

Hoffai'r awduron fynegi eu diolch i'r canlynol am eu cymorth a'u cydweithrediad parod wrth ymateb i'n ceisiadau am gyfweiliadau a gwybodaeth yn ystod yr astudiaeth hon:

- Swyddogion cyswllt Is-bwyllgor Iaith Gymraeg Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru ac yn arbennig Mr Hywel Hughes, y prif swyddog cyswllt;
- Yr holl swyddogion cyswllt ac atebwyr eraill (sy'n rhy niferus i'w henwi yma) a ymatebodd mewn modd mor agored a pharod ar ran yr asiantaethau a'r sefydliadau a drafodir yn yr adroddiad hwn;
- Y troseddwy'r ifanc, y troseddwy'r dros ddeunaw oed, y cyn-droseddwy'r, y tystion a'r dioddefwyr y mae eu profiadau'n cyfrannu at yr astudiaeth hon.

Carchar Ei Mawrhydi Altcourse

Datganiad Polisi

Defnydd carcharorion o ieithoedd eraill ar wahân i Saesneg

Mae Carchar Ei Mawrhydi Altcourse yn arddel hawl ddynol pob carcharor i ddefnyddio'i iaith gyntaf/ei ddewis iaith. Ni fydd carcharorion yn cael eu herio, eu disgyblu neu'u gwahardd rhag gwneud hynny heb reswm da. Ni fydd unrhyw waharddiad cyffredinol yn cael ei gyflwyno ar ddefnyddio ieithoedd eraill ar wahân i Saesneg.

Fodd bynnag, o gofio mai Saesneg yw prif iaith Carchar Ei Mawrhydi Altcourse, bydd achosion yn codi lle bydd yn ddilys gofyn i garcharorion siarad Saesneg ar yr amod y gellir dangos bod ganddynt y gallu i wneud hynny. Y prif feini prawf ar gyfer gofyn iddynt wneud hynny yw:

- Diogelwch. Lle bo pryderon rhesymol yn codi y gallai diogelwch fod mewn perygl, efallai y bydd gofyn i garcharorion siarad Saesneg.
- Trefn neu ddisgyblaeth.
- Cwrteisi. Efallai y bydd gofyn i garcharorion siarad Saesneg mewn achosion lle byddai defnyddio iaith arall ar wahân i Saesneg yn eithrio aelod o staff neu garcharor arall rhag cymryd rhan mewn rhywbeth y mae ganddynt ddi-ddordeb dilys ynddo neu hawl ddilys i'w wneud.

Dylai carcharorion sy'n teimlo'u bod wedi cael eu herio neu'u disgyblu yn y cyswllt hwn, a hynny heb reswm da, fynd ati yn y lle cyntaf i geisio codi'r mater yn uniongyrchol â'r aelod staff dan sylw. Os yw hynny'n aflwyddiannus, gallant ddefnyddio'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais a chwyno neu gallant ddefnyddio'r Ffurflen Adrodd ynghylch Digwyddiad Hiliol i adrodd am y digwyddiad.

(Cyfarwyddwr)

Protocol Iaith Gymraeg Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Gogledd Cymru wedi ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Nid yw'n ofynnol i'r Bwrdd gynhyrchu Cynllun Iaith Gymraeg ac felly mae wedi datblygu'r Protocol hwn er mwyn darparu canllawiau clir ynghylch sut y dylai'r Bwrdd ddangos ei ymrwymiad yn hyn o beth.

Dylid dilyn y protocol hwn wrth ddechrau gohebu ag aelodau o'r cyhoedd, mynychu digwyddiadau neu ddelio â nifer fawr o staff y System Cyfiawnder Troseddol ar draws ffiniau asiantaethau.

1. Cyhoeddiadau/gohebiaeth

1.1 Dylai'r adroddiad blynyddol, y cynllun busnes, y wybodaeth a ddarperir ar y we ac unrhyw ddeunydd hyrwyddo fod yn ddwyieithog.

1.2 Dylai unrhyw ohebiaeth gychwynnol gan y Bwrdd neu'i swyddogion fod yn ddwyieithog os nad yw dewis iaith y derbynnydd yn hysbys.

1.3 Dylai unrhyw ohebiaeth a anfonir i sefydliadau eraill yng Nghymru at ddibenion swyddogol fod yn ddwyieithog.

1.4 Dylid ateb unrhyw ohebiaeth sy'n dod i law yn yr un iaith a ddefnyddir yn yr ohebiaeth wreiddiol.

2. Delio â'r cyfryngau

Dylai pob datganiad i'r wasg a ryddheir gan y Bwrdd fod yn ddwyieithog, a dylid eu hanfon i'r cyfryngau 'Cymraeg' a 'Saesneg' yng Nghymru. Dylid penodi llefarydd sy'n gallu siarad Cymraeg i gynrychioli'r Bwrdd pan fo angen ymateb trwy gyfrwng y Gymraeg.

3. Cyfarfodydd y Bwrdd a'i Is-bwyllgorau

3.1 Dylid agor a chloi cyfarfodydd y Bwrdd yn Gymraeg lle bo hynny'n bosibl. Dylid annog siaradwyr gwadd y gwyddys eu bod yn siarad Cymraeg i gyfrannu yn Gymraeg, a dylid trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

3.2 Dylid cynnig dewis iaith yn ystod cyfarfodydd is-bwyllgorau amrywiol y Bwrdd hefyd, ond bydd cyfarfodydd Is-bwyllgor Iaith Gymraeg y Bwrdd yn cael eu cynnal yn Gymraeg a bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu.

3.3 Dylid sicrhau bod cofnodion Cymraeg a Saesneg ar gael o gyfarfodydd y Bwrdd a'i Is-bwyllgor Iaith Gymraeg.

4. Y Gynhadledd Flynyddol

- 4.1 Dylid cynnig dewis iaith yn y gynhadledd, a dylid annog siaradwyr Cymraeg i gyfrannu yn yr iaith.
- 4.2 Dylai pob cyflwyniad PowerPoint fod yn ddwyieithog (y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un sleid) neu mewn achosion lle caiff llawer o wybodaeth ei chyflwyno ar ffurf testun a graffigau, dylid darparu cyflwyniadau ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg a'u dangos ar ddwy sgrîn wahanol.
- 4.3 Dylid sicrhau bod dewis iaith yn cael ei gynnig yn rhan o bob gweithgaredd grŵp a gynhelir.
- 4.4 Dylai pecyn y gynhadledd a phob taflen a ddsberthir fod yn ddwyieithog.
- 4.5 Dylai pob arddangosfa sy'n benodol i asiantaeth arbennig e.e. standiau arddangos neu daflenni hyrwyddo, fod yn ddwyieithog.
- 4.6 Dylid agor a chlo'i'r gynhadledd yn ddwyieithog.

5. Digwyddiadau ar gyfer ymwneud â'r gymuned

- 5.1 Dylid arddangos deunydd dwyieithog yn ystod pob digwyddiad a noddir gan y Bwrdd.
- 5.2 Yn ystod digwyddiadau a gynhelir ar y cyd â'r cyhoedd neu grwpiau cymunedol megis LCCS, dylid sicrhau bod cyfranwyr yn gallu cyfrannu yn eu dewis iaith.
- 5.3 Os yw'r Bwrdd yn mynd i ddigwyddiadau 'Cymraeg' megis yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd ac yn cynnal gweithgareddau penodol yn ystod y digwyddiadau hynny, dylid darparu cyfleusterau cyfieithu ar gyfer pobl ddi-Gymraeg.
- 5.4 Dylai'r asiantaethau perthnasol annog staff sy'n siarad Cymraeg a staff di-Gymraeg i fynd i ddigwyddiadau a noddir gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.

6. Gohebiaeth rhwng asiantaethau

- 6.1 Dylid dosbarthu'r protocol hwn i brif swyddogion holl asiantaethau'r System Cyfiawnder Troseddol yng Ngogledd Cymru, a dylid gofyn am eu cymorth i rannu gwybodaeth am gynnwys y protocol yn fewnol.
- 6.2 Dylai gohebiaeth a gynhrychir gan y Bwrdd neu'i swyddogion ar gyfer nifer fawr o staff y System Cyfiawnder Troseddol fod yn ddwyieithog e.e. negeseuon e-bost/llythyrau.